



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence



Cyfarfod / Meeting

CYD-BWYLLGOR GwE
GwE JOINT-COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

9.30 am DYDD IAU, 12 TACHWEDD 2015

9.30 am THURSDAY, 12 NOVEMBER 2015

Lleoliad / Location

**Swyddfeydd GwE Offices, Bryn Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn,
LL29 8BF**

**** Nodwch y lleoliad ogydd / Please note venue ****

Pwynt Cyswllt / Contact Point

BETHAN ADAMS

(01286) 679020

BethanAdams@gwynedd.gov.uk

AELODAETH Y CYDBWYLLGOR/MEMBERSHIP OF THE JOINT COMMITTEE

Aelodau â phleidlais/ Voting Members

Cynghorydd/Councillor Kenneth P. Hughes – Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council

Cynghorydd/Councillor Gareth Thomas – Cyngor Gwynedd Council

Cynghorydd/Councillor Wyn Ellis Jones – Cyngor Bwrdeistref Sirol

Conwy/Conwy County Borough Council

Cynghorydd/Councillor Eryl Williams – Cyngor Sir Ddinbych/ Denbighshire County Council

Cynghorydd/Councillor Chris Bithell – Cyngor Sir y Fflint/Flintshire County Council

Cynghorydd/Councillor Michael Williams – Cyngor Bwrdeistref Sirol

Wreccsam/Wrexham County Borough Council

Aelodau Cyfetholedig heb Bleidlais/Co-opted Non-voting Members

Esgobaeth Wreccsam/Wrexham Diocese – Rita Price

Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd/Primary Schools Representative – Diane Chisholm

Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd/Secondary Schools Representative – Annwen Morgan

Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig/Special Schools Representative – Jonathan Morgan

Cynrychiolydd Llywodraethwr/Governor Representative – Alison Fisher

Swyddogion heb Bleidlais/Non-voting Officers

Delyth Molyneux – Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council

Arwyn Thomas – Cyngor Gwynedd Council

Richard E. Owen – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy/Conwy County Borough Council

Karen Evans – Cyngor Sir Ddinbych/Denbighshire County Council

Ian Budd – Cyngor Sir y Fflint/Flintshire County Council

John Davies – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam/Wrexham County Borough Council

Swyddogion yn bresennol/Officers in attendance

Iwan Evans a Dafydd Edwards – Awdurdod Lletyol/Host Authority

Geraint Rees – Llywodraeth Cymru/Welsh Government

Huw Foster Evans – Rheolwr Gyfarwyddwr GwE/GwE Managing Director

Susan Owen Jones – Rheolwr Busnes a Chyllid GwE/GwE Business & Finance Manager

Mohammed Mehmet – Cyngor Sir Ddinbych/Denbighshire County Council

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL 23/9/15

(copi'n amgaeedig)

5. ADRODDIAD BLYNYDDOL GwE 2014-15

(copi'n amgaeedig)

6. ADRODDIAD AR DDEILLIANNAU DISGYBLION 2015

(copi'n amgaeedig)

7. ARGYMHELLION ESTYN 2015 – ADRODDIAD DIWEDDARIAD AR GYNNYDD (MEHEFIN – HYDREF 2015)

(copi'n amgaeedig)

8. CYNLLUN BUSNES 2015-18

(copi'n amgaeedig)

9. TREFNIADAU CRAFFU

(copi'n amgaeedig)

10. RHWYDWEITHIAU RHANBARTHOL

(copi'n amgaeedig)

11. STRWYTHUR STAFFIO GwE – GWNEUD PENDERFYNIADAU

(copi'n amgaeedig)

**CYD-BWYLLGOR GwE
23.09.15**

Yn bresennol: **Y Cyng. Eryl Williams (Cadeirydd)**
 Y Cyng. Michael Williams (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Kenneth P. Hughes, Wyn Ellis Jones a Gareth Thomas.

Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais: Annwen Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd), Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig) a Rita Price (Esgobaeth Wrecsam),).

Swyddogion Heb bleidlais: Ian Budd (Cyfarwyddwr Arweiniol - Cadeirydd y Bwrdd Rheoli (Cyngor Sir y Fflint)), John Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Karen Evans (Cyngor Sir Dinbych), Delyth Molyneux (Cyngor Ynys Môn), R. Ellis Owen (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy) ac Arwyn Thomas (Cyngor Gwynedd).

Hefyd yn Bresennol: Huw Foster Evans (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes a Chyllid GwE), Rhys Howard Hughes (Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Cefnogaeth a Broceru) GwE), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Safonau) GwE), Geraint Rees a Claire Rundle (Cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru), Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Amanda Hughes (Swyddfa Archwilio Cymru), Siôn Huws (Uwch Gyfreithiwr yr Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau'r Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Chris Bithell (Cyngor Sir y Fflint), Diane Chisholm (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd), Alison Fisher (Cynrychiolydd Llywodraethwyr) ac Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol yr Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd).

1. CROESO

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mrs Rita Price o Esgobaeth Wrecsam i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyd-bwyllgor.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datgan o fuddiant personol gan unrhyw Aelod oedd yn bresennol

3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 15 Gorffennaf 2015 fel rhai cywir.

4. CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2015 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd yn cyflwyno datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad, adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ynghyd â llythyr cynrychiolaeth.

Adroddodd cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru bod yr adroddiad yn gosod allan cyd-destun y cyfrifon a thynnwyd sylw at grynoded o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw'r Cyd-bwyllgor atynt.

Manylwyd ar gynnwys y cyfrifon a rhoddwyd cyfle i Aelodau'r Cydbwyllgor i ofyn cwestiynau.

Penderfynwyd: (a) Derbyn, nodi a chymeradwyo'r wybodaeth yn

- (i) Adroddiad "ISA260" gan Swyddfa Archwilio Cymru**
- (ii) Datganiad o'r Cyfrifon 2014/15 (ôl-archwiliad)**

(b) Gofyn i'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (fel Swyddog Cyllid Statudol GwE), ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth.

5. ADRODDIAD CYNNYDD GwE

Cyflwynwyd ystadegau i'r Cyd-bwyllgor yn ystod y cyfarfod a oedd yn amlinellu canlyniadau, prif ddeilliannau a materion i'w hystyried.

Tywysodd y Rheolwr Gyfarwyddwr GwE y Cyd-bwyllgor drwy'r adroddiad gan nodi fel a ganlyn:

(a) Cyfnod Sylfaen

- **mai perfformiad GwE yw'r isaf o'r holl gonsortia rhanbarthol. Fodd bynnag, roedd arweiniad cenedlaethol wedi tynnu sylw at yr angen am lwyfandir mewn perfformiad ar draws Cymru ynghyd a phroses safoni a gwirio cadarn.**
- **Bod asesiadau athrawon yn parhau i fod yn bryder.**
- **Bod cynnydd mewn perfformiad disgyblion PYD mewn 4 awdurdod o 2014 ac yn sylweddol felly yng Ngwynedd a Môn**
- **Bod cynnydd mewn perfformiad o 2014 ar draws yr holl ddangosyddion ar lefel uwch. Fodd bynnag, mae cynnydd rhanbarthol yn y Gymraeg yn llai na chynnydd cenedlaethol.**
- **Bod rhai ysgolion wedi perfformio islaw'r canolrif y meincnodau PYD mewn dangosyddion allweddol dros gyfnod treigl o dair blynedd a bod angen herio'r ysgolion hyn yn gadarn.**

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod y materion uchod yn ddisgwyliedig.

(b) Cyfnod Allweddol 2

- **Bod perfformiad GwE wedi cynyddu, fodd bynnag fel yn y Cyfnod Sylfaen, bod arweiniad cenedlaethol wedi tynnu sylw at yr angen am lwyfandir mewn perfformiad ar draws Cymru ynghyd a phroses safoni a gwirio cadarn.**
- **Bod asesiadau athrawon yn parhau i fod yn bryder**

- **bod cynnydd mewn perfformiad disgyblion PYD, fodd bynnag, roedd ychydig o ostyngiad mewn perfformiad ar gyfer Gwynedd a Môn**
- **bod cynnydd mewn perfformiad o 2014 ar draws yr holl ddangosyddion ar lefel disgwyledig a'r cynnydd yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer pob pwnc craidd**
- **bod yr uchod yn unol â'r disgwyl ond eto mae rhai ysgolion yn perfformio o dan y perfformiad cenedlaethol ac angen sylw penodol fel rhan o'r broses herio**

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

- (i) gofynnwyd pa mor gadarn yw Llywodraeth Cymru ynglŷn ag anghysondebau asesiadau athrawon ac a yw'r Undebau Athrawon yn herio'r Llywodraeth ynghylch hyn?

Mewn ymateb, esboniodd Mr Geraint Rees, Llywodraeth Cymru, y gosodwyd cytundeb gyda'r 4 rhanbarth i weithredu ar y cyd gyda'r broses yn ei le am y tro cyntaf eleni. Nodwyd bod amrywiaeth rhwng y 4 rhanbarth yn sylweddol yng Nghyfnod Allweddol 2. O safbwynt Cyfnod Allweddol 4, nodwyd bod y bwlch yn lleihau. Nodwyd ymhellach bod y broses categoreiddio angen gweithrediad cadarn a'r cam nesaf fyddai tynhau cymedroli asesiadau athrawon. Rhaid i'r broses ddigwydd ac o ganlyniad fe fydd rhaid cael gwared â'r diffyg hyder.

- (ii) A yw'r Undebau yn gytûn ac a oes rhai Siroedd yn wynebu problemau, os oes, a fyddai'n syniad i gael trafodaeth gyda'r Gweinidog Addysg?

Mewn ymateb, nodwyd bod cyfarfod gyda'r Undebau Llafur yn fuan er mwyn derbyn mewnbyn o sut mae pethau'n mynd. Hefyd, byddai cyfle i Gadeirydd y Cyd-bwyllgor godi'r mater gyda'r Gweinidog Addysg mewn cyfarfod sydd wedi ei drefnu ar gyfer 16 Hydref.

- (iii) Bod y diffyg hyder yn creu ansicrwydd i ddysgwyr ac athrawon a rhaid cynnal trafodaeth ynglŷn â pham bod angen cael cysondeb yn y cymedroli.

Nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr GwE y byddai'r adroddiad terfynol ar gael mis Tachwedd ar y broses wirio lle ceir ffigyrau cymharol gyda Siroedd eraill. Er y byddai'r sampl yn fychan ac o ganlyniad ddim yn rhoi'r darlun cyflawn. Byddai categoreiddio ysgolion cynradd yn broses cenedlaethol ond roedd yn her eleni gan fod Cam 1 o'r categoreiddio yn dangos gwahaniaethau.

- (iv) Byddir wedi gwerthfawrogi mwy o amser i ddadansoddi'r ystadegau oedd gerbron. Tra'n derbyn bod pryder ynglŷn ag asesiadau athrawon roedd cwestiwn ynglŷn ag awdurdodau yn gosod targedau oherwydd gall targedau ysgolion fod yn wahanol mewn Siroedd eraill.

Mewn ymateb, esboniodd y Rheolwr Gyfarwyddwr GwE bod y broses yn mynd i gael effaith ac fel rhanbarth bod sustem gosod targedau yn weithredol.

Nododd Mr Ian Budd (Cyfarwyddwr Arweiniol – Cadeirydd y Bwrdd Rheoli) bod dadansoddiad mynegol cynnar o berfformiad CA4 yn ddefnyddiol ond y byddai modd dadansoddi yn ddyfnach erbyn cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor ym mis Tachwedd.

Ychwanegwyd bod rhaid anfon neges glir i Lywodraeth Cymru am yr angen i dderbyn hyfforddiant fel bo modd canolbwyntio ar gysondeb oherwydd ei fod yn amlwg bod llawer o le i ddysgu.

- (v) Cwestiynwyd a oes hyder yn y broses tracio gan fod hyn yn bwysig er mwyn adnabod cryfderau a gwendidau disgyblion. Dylid gallu annog plant i gyrraedd eu potential yn ogystal â'r rhai nad ydynt yn cyflawni crystal.

(c) Cyfnod Allweddol 3

- **Bod perfformiad GwE yr uchaf o'r oll gonsortia.**
- **Fodd bynnag, yng nghyd-destun perfformiad CA4, bod hyn yn codi pryder ynglyn a dibynadwyedd asesiadau athrawon**

(ch) Cyfnod Allweddol 4

- **Bod ychydig welliant o +0.2% yn y dangosydd allweddol o'i gymharu â 2014. Fodd bynnag, roedd gwelliant sylweddol llai na'r gwelliant cenedlaethol o rhwng +2>3% ac nad yw'r cynnydd yn dderbyniol.**
- **ar gyfartaledd, bod gwelliant o +3.5% mewn ysgolion categori ambr / coch mewn cymhariaeth â 2014. Mae ysgolion unigol wedi gweld gwelliannau arwyddocaol. Mae hyn yn adlewyrchu effeithiolrwydd y rhaglenni ymyrraeth yn yr ysgolion hynny. Fodd bynnag, nid yw canran fach o'r ysgolion hyn yn gwneud y perfformiad a ddisgwylir.**
- **perfformiad siomedig i ysgolion categori gwyrdd a melyn gyda thanberfformiad sylweddol mewn ysgolion unigol a oedd yn hanesyddol yn perfformio'n dda**
- **mwyafrif o ysgolion Gogledd Cymru eleni wedi gweld osgiliad yn eu perfformiad gyda gwahaniaethau sylweddol mewn rhai ysgolion a bod gormod o ysgolion lle mae prosesau tracio mewnol ddim digon cadarn**
- **perfformiad mewn Saesneg a Mathemateg yn parhau i achosi pryder sylweddol mewn ysgolion ar draws y rhanbarth**
- **pryder ynglyn a pherfformiad TGAU Gwyddoniaeth i'r dyfodol oherwydd diflaniad y BTEC o ran mesur perfformiad yn 2017**

Nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE nad oedd cynnydd o ganlyniadau 2014 ac nad oedd y rhanbarth yn dal i fyny gyda chyflymder y cynnydd yn genedlaethol. Tra'n cydnabod bod y cohort yn amrywio mewn ysgolion unigol ac ni ellir disgwyl cynnydd bob blwyddyn rhaid ystyried camau gweithredol addas.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol:

- (i) diolchwyd am y data a chytunwyd bod anghysondebau asesiadau athrawon angen sylw ond nid oedd sicrwydd o'r hyn a fwriedir o safbwynt y broses cymedroli
- (ii) awgrymwyd a ddylid ail-addasu'r cynllun busnes ac a fyddai modd derbyn gwybodaeth pam bod cynnydd yn digwydd mewn rhai rhanbarthau a beth sydd yn digwydd mewn ysgolion lleol
- (iii) a yw'r model ac adnoddau presennol yn addas a phriodol
- (iv) rhaid sicrhau gweithrediad buan er mwyn mynd i'r afael a pherfformiad CA4 mewn Mathemateg a Saesneg
- (v) Mae angen am ddadansoddiad llawer mwy cadarn ar y ffactorau yn deillio o berfformiad CA4. O'r deialog gydag ysgolion, mae'n rhaid rhoi'r gorau i fwgwth ysgolion, a bod eglurder ar yr hyn sy'n digwydd yng Ngogledd Cymru. Byddai cynnal deialog gyda Phenaethiaid yn ddefnyddiol fel y gallent ymhelaethu ar y rhwystrau.
- (vi) o ystyried y negeseuon ar dudalennau 16/17 o'r data, pryderwyd a oes digon o gapasiti i lenwi'r bylchau yn enwedig pan gollir athrawon da i swyddi canolog ac yn sgil hyn diffyg recriwtio Penaethiaid / athrawon.
- (vii) nodwyd bod rhai ysgolion Her Cymru wedi gwneud cynnydd aruthrol a rhai wedi dirywio
- (viii) Nad oedd categoreiddio ysgolion mewn lliwiau o gymorth i ysgolion
- (ix) bod rhaid i'r safon addysg fod y gorau posibl i'r disgyblion ac os yw ysgolion mewn trafferthion rhaid sicrhau cefnogaeth fuan iddynt.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nodwyd bod y broses o ddadansoddiad yn mynd rhagddo yn ogystal â'r trosolwg rhanbarthol ond cydnabuwyd bod angen dadansoddi fesul awdurdod ac yn hyn o beth efallai y bydd y gefnogaeth yn amrywio o awdurdod i'r llall. Fe fyddir yn cyflwyno adroddiad pellach i'r Cyd-bwyllgor ym mis Tachwedd.

Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r ystadegau a gyflwynwyd ynghyd a'r sylwadau wnaed uchod.

(b) Cymeradwyo i dderbyn adroddiad pellach yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor ym mis Tachwedd.

6. ADRODDIAD CYLLIDEB GwE 2015-16 – ADOLYGIAD TYMOR YR HAF

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2015-16

Cyfeiriwyd at Atodiad 1 i'r adroddiad a oedd yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.

Tynnwyd sylw at y ddau bennawd o danwariant sef:

- (i) "adeilad" a oedd yn cyfeirio at swyddfeydd newydd GwE yng Nghaernarfon a Conwy oherwydd bod llithriad yn y dyddiad symud i'r lleoliadau newydd; a
- (ii) "cludiant" a oedd yn cyfeirio at y penderfyniad i leihau'r gyllideb costau teithio yn agosach at wir wariant.

Nodwyd nad oedd yr adroddiad yn cynnwys ystyriaeth arbedion posib trwy'r elfen rheolaeth a gweinyddiaeth rhai grantiau penodol.

O safbwynt y gronfa tanwariant, cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2015/16 oedd £266,829, gyda Chyd-bwyllgor GwE eisoes wedi penderfynu ymrwymo £135,000 ar gynlluniau penodol. Gan ychwanegu tanwariant 2015/16 o £29,903, amcangyfrif cronfa heb ei ymrwymo o £161,732.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau'r Cydbwyllgor gwestiynu unrhyw elfennau o'r adroddiad.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr GwE bod y grant amddifadedd wedi ei ddosrannu i ysgolion.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r adroddiad.

7. DYDDIADAU CYFARFODYDD 2015-16

Cyflwynwyd calendr Cyfarfodydd Cydbwyllgor GwE am y flwyddyn 2015-16.

Nododd Ian Budd (Cyfarwyddwr Arweiniol - Cadeirydd y Bwrdd Rheoli (Cyngor Sir y Fflint)), bod y rhwydweithiau yn weithredol ac fe fyddir yn adrodd ymhellach ynglyn ag adborth a bwydo gwybodaeth yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor ym mis Tachwedd.

Penderfynwyd: Cymeradwyo'r dyddiadau canlynol am y flwyddyn 2015-16:

DYDDIAD	AMSER	LLEOLIAD
12 Tachwedd 2015	Bore	Conwy
24 Chwefror 2016	Bore	Conwy
6 Gorffennaf 2016	Bore	Conwy

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30 p.m. a daeth i ben am 3.00 p.m.

CADEIRYDD



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

12 TACHWEDD 2015

Adroddiad gan: Reolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Adroddiad Blynyddol GwE 2014-15

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Adroddiad Blynyddol GwE ar gyfer 2014-15.

2.0 Cefndir

2.1 Fel y datgenir yng Nghytundeb Rhyng-Awdurdod GwE, bydd GwE yn adrodd yn flynyddol am berfformiad y Gwasanaeth o ran cyflawni Swyddogaethau'r Gwasanaeth a'r Nodau Allweddol

3.0 Materion i'w hystyried

Adnabuwyd deilliannau â blaenoriaeth ar gyfer 2014-15 yng Nghynllun Busnes Blynyddol GwE a chytunodd y Cyd-bwyllgor a'r awdurdodau lleol unigol arnynt. Roeddent fel a ganlyn:

Adran 1 : Blaenoriaethau allweddol i wella deilliannau dysgwyr

1. Cynyddu cyfran y dysgwyr sy'n cyflawni Trothwy Lefel 2+ ar ddiwedd CA4
 2. Codi safonau dysgwyr sydd â hawl i PYD
 3. Codi safonau dysgwyr yn y profion darllen a rhifedd cenedlaethol ar draws y rhanbarth
 4. Cynyddu niferoedd mewn Cymraeg Iaith Gyntaf, yn ogystal â chodi safonau, ar draws y rhanbarth yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Awdurdodau Lleol unigol
 5. Cynyddu cyfran y dysgwyr 16 oed sy'n cyflawni o leiaf 5 gradd A* neu A erbyn diwedd CA4
 6. Sefydlu a hybu model rhanbarthol effeithiol ar gyfer cymorth ysgol i ysgol
 7. Datblygu arweinyddiaeth a dysgu ac addysgu o safon ar bob lefel
 8. Cefnogi ysgolion i ddatblygu prosesau asesu, safoni a cymedroli mwy cadarn ac effeithiol
-

Adran 2 : Blaenoriaethau allweddol ar gyfer datblygu cynhwysedd busnes a swyddogaethau GwE fel sefydliad

- 1. Datblygu cynhwysedd busnes ac arweinyddiaeth er mwyn cyflawni swyddogaethau allweddol.*
- 2. Sicrhau bod GwE yn cael ei lywodraethu yn effeithiol.*
- 3. Sicrhau trefn archwilio a sicrhau ansawdd gadarn ar bob lefel.*
- 4. Sicrhau bod GwE yn dod yn bartner arweiniol cynaliadwy ac effeithiol o fewn y gymuned addysg.*

Mae'r Adroddiad Blyneddol yn manylu ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y deilliannau â blaenoriaeth hyn

4.0 Argymhellion

- 4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad

5.0 Goblygiadau ariannol

- 5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

- 6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn

7.0 Goblygiadau Personél

- 7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn

8.0 Ymgynghori a wnaed

- 8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE yn ystod datblygu'r ddogfen hon

9.0 Atodiadau

- 9.1 Adroddiad Blyneddol GwE 2014-15

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Rhoddir unrhyw sylwadau yn y cyfarfod.

Swyddog Cyllid Statudol:

Dim i'w ychwanegu at yr adroddiad o ran priodoldeb ariannol.

Cyd-bwyllgor GwE

Adroddiad Blynyddol

2014-2015

Rhagair

GwE yw Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru sydd yn gweithio yn gwbl ddwyieithog ochr yn ochr â ac ar ran Awdurdodau Lleol Conwy, Dinbych, Flint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn i ddatblygu ysgolion rhagorol ar hyd a lled y rhanbarth a gwella deilliannau i ddisgyblion drwy sicrhau arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel a dysgu ac addysgu o safon ym mhob dosbarth. Trwy herio yn bwrpasol a chefnogol a chynnig cefnogaeth heriol, amcan sylfaenol GwE yw datblygu cyfundrefn sydd yn hunan-wella ac sy'n dangos ffydd yn ein hysgolion a'u harweinwyr ar bob lefel i'n tywys ar hyd y daith honno. Ar ei orau, mae cydweithio agos rhwng ysgolion yn broses hynod heriol ac yn ein harwain at sylweddoli efallai nad ydy'r hyn yr oeddem ni yn ei ystyried yn arfer ragorol yn rhagorol wedi'r cyfan. Gwaith ysgolion yw gwella eu hunain er lles y dysgwyr yn eu gofal; tasg GwE yw sicrhau bod hynny'n digwydd.

Llywodraethu


Mae'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod rhwng chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru yn diffinio trefniadau llywodraethu Cydbwyllgor GwE, gan gynnwys ei Gylch Gorchwyl a'i Bwerau Datganoledig. Gan hynny, mae hefyd yn adnabod pa faterion a gedwir yn benodol i'r awdurdodau partner unigol benderfynu arnynt. Dyma gylch gorchwyl a phwerau datganoledig y Cydbwyllgor:

- i. hyrwyddo cydweithio i gyflenwi'r Gwasanaeth drwy:
- ii. hwyluso gweithio partneriaethol adeiladol;
- iii. cysylltu â chyrrff allweddol sydd â diddordeb a rhanddeiliaid pan fo hynny'n briodol; a
- iv. cyflawni gweithgareddau eraill tebyg sydd wedi'u cynllunio neu'n arwain at gyflenwi'r Gwasanaeth yn llwyddiannus; a
- v. goruchwyllo gwaith rheoli'r Gwasanaeth a sicrhau bod y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu ac yn perfformio yn unol â disgwyliadau'r Awdurdodau Partner, fel y nodir yn yr Achos Busnes Llawn, y Cytundeb Rhyng-Awdurdod a'r Cynllun Busnes Blynyddol cytûn;
- vi. cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer y Gwasanaeth yn flynyddol;
- vii. cymeradwyo'r cynllun busnes ar gyfer y Gwasanaeth yn flynyddol;
- viii. monitro a rheoli'r peryglon sydd yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth;
- ix. cadarnhau ceisiadau gan y Gwasanaeth am gyllid ychwanegol gan Gynghorau unigol;
- x. cymeradwyo strwythur staffio y Gwasanaeth;
- xi. penodi Prif Swyddog i'r Gwasanaeth;
- xii. penderfynu ar gamau disgyblu yn erbyn y Prif Swyddog; ac,
- xiii. ble mae angen, pennu neu wneud trefniadau ar gyfer pennu apeliadau mewn perthynas â materion Adnoddau Dynol.

Cedwir y materion canlynol yn benodol i Gabinetau unigol benderfynu arnynt:

- i. cymeradwyo trefniadau llywodraethu partneriaeth rhyng-Gyngor;
- ii. cynyddu cyllideb cyfraniadau'r Cynghorau;
- iii. caffael y gwiriadau archwilio a sicrwydd angenrheidiol; a
- iv. diweddu'r Bartneriaeth.

Strwythur Llywodraethu



Aelodaeth

Aelodau â Phleidlais	Swyddogion – Heb Bleidlais
6x Aelod Portffolio Addysg <i>un o bob ALI gogledd Cymru</i>	6x Prif Swyddog Addysg Statudol <i>un o bob ALI gogledd Cymru</i>
Aelodau Cyfetholedig Heb Bleidlais *	Swyddogion yn Bresennol
1x Cynrychiolydd Esgobaeth <i>a enwebwyd i gynrychioli Esgobaeth Wrecsam, Llanelwy a Bangor am dymor o 2 flynedd, sy'n cael ei gylchdroi</i>	1x Cynrychiolydd Cyfreithiol
1x Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd	1x Cynrychiolydd S151
1x Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd	
1x Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig	

1x Cynrychiolydd Llywodraethwyr	Arbenigwyr eraill fel bo'r angen
---------------------------------	----------------------------------

Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw datblygu cyfundrefn addysg o'r radd flaenaf ble gall pob disgybl yn y rhanbarth elwa ar addysgu sy'n gyson safonol ym mhob dosbarth lle bo pob ysgol, ni waeth ble mae hi, yn cael ei harwain gan arweinwyr rhagorol. Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, bydd GwE yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid i fynd ati i gefnogi, herio a monitro perfformiad ar bob lefel yn gadarn ac yn effeithiol, a sicrhau bod y fframwaith categoreiddio yn cael ei ddefnyddio'n gyson i dargedu cynhaliaeth yn ôl yr angen.

Mae'r cynllun gwella cenedlaethol Cymwys am Oes yn arwydd o ymrwymiad i'r syniad o gyfundrefn addysg sy'n gwella ei hunan ac yn crisialu'r weledigaeth o arweinwyr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd, gan gymryd yr awenau o ran eu dyfodol a'u datblygiad. Tra bo rhaid i'r rhai o fewn ein hysgolion fod yn gyfrifol am godi safonau yn eu sefydliadau eu hunain, mae GwE yn ceisio magu meddylfryd o gyd-ddathlu llwyddiannau cyfundrefn gyfan – **“Rwyf am i bob ysgol fod yn ysgol dda, ond rwyf am i f'ysgol i fod ychydig bach yn well”**

Deilliannau â Blaenoriaeth ar gyfer 2014-15

Nodwyd y deilliannau â blaenoriaeth ar gyfer 2014-15 yng Nghynllun Busnes Blyneddol GwE ac fe'u cymeradwywyd gan y Cyd-bwyllgor a'r awdurdodau lleol unigol. Roeddent fel a ganlyn:

Adran 1: Blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella deilliannau dysgwyr

1. Cynyddu cyfran y dysgwyr sy'n cyflawni Trothwy Lefel 2+ (L2+) ar ddiwedd CA4
2. Codi safonau dysgwyr sydd â hawl i PYD
3. Codi safonau dysgwyr yn y profion darllen a rhifedd cenedlaethol ar draws y rhanbarth
4. Cynyddu niferoedd mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ar draws y rhanbarth, yn ogystal â chodi safonau, yn unol â 'Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' mewn Awdurdodau Lleol unigol
5. Cynyddu cyfran y dysgwyr 16-oed sy'n ennill o leiaf 5 gradd A* neu A erbyn diwedd CA4
6. Sefydlu a hyrwyddo model rhanbarthol effeithiol ar gyfer cefnogaeth ysgol>ysgol
7. Datblygu arweinyddiaeth ac addysgu a dysgu o safon ar bob lefel
8. Cefnogi ysgolion i ddatblygu prosesau asesu, safoni a chymedroli mwy cadarn ac effeithiol

Adran 2: Blaenoriaethau allweddol ar gyfer datblygu cynhwysedd busnes a swyddogaethau GwE fel sefydliad


1. Datblygu arweinyddiaeth a chynhwysedd busnes er mwyn cyflawni swyddogaethau allweddol yn effeithiol
2. Sicrhau bod GwE yn cael ei lywodraethu yn effeithiol
3. Sicrhau ansawdd a chraffu grymus ar bob lefel

4. Sicrhau bod GwE yn dod yn bartner arweiniol cynaliadwy ac effeithiol o fewn y gymuned addysg

Cynnydd yn erbyn deilliannau â blaenoriaeth

Adran 1: Blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella deilliannau dysgwyr

1. Cynyddu cyfran y dysgwyr sy'n cyflawni Trothwy Lefel 2+ (L2+) ar ddiwedd CA4



Swyddogaeth graidd GwE yw herio a chefnogi yn rymus yr ysgolion sy'n tanberfformio [yn enwedig y rhai hynny a adnabuwyd drwy'r broses gategoreiddio] a sicrhau bod ganddynt gynlluniau gwella strategol effeithiol i godi cyrhaeddiad, sy'n dangos yn glir sut y byddant yn defnyddio cefnogaeth a gomisiynwyd gan GwE a grantiau cenedlaethol [yn enwedig GEY/GAD yn ystod 2014/15] yn effeithiol. Mae UDA GwE wedi sicrhau ansawdd y broses hon o fewn ac ar draws hybiau ac wedi ysgogi cefnogaeth a thrafodaethau pellach ble canfuwyd anghysondeb. Diben sicrhau ansawdd gwaith yr holl Ymgynghorwyr Her yw sicrhau bod pob ysgol yn derbyn y lefel uchaf o her a chefnogaeth. O ganlyniad, mae cynlluniau gwella strategol mwy grymus ar waith bellach mewn ysgolion a dargedwyd.

Yn ogystal, mae GwE wedi datblygu ymhellach gapasiti rhanbarthol y gwasanaeth i gefnogi ysgolion sy'n tanberfformio neu sy'n sefyll yn eu hunfan trwy gyfleoedd secondiad a chomisiynu unigol i ymateb i sefyllfaoedd sy'n destun pryder, a gall wneud hyn yn gyson a chydlynus. Mae'r gyllideb comisiynu wedi'i defnyddio yn effeithiol ynghyd â chefnogaeth ysgol-i-ysgol a Phenathiaid ar secondiad i gefnogi ysgolion a dargedwyd. Mae ymateb rhanddeiliaid mewn arolygon perthnasol yn cadarnhau'r effaith gadarn a'r gwerthfawrogiad o'r cymorth a dargedwyd gan GwE.

Prosiect TGAU 2015/PISA:


Mae Ysgolion Arweiniol (ac Ymarferwyr Arweiniol) ar gyfer y pedwar pwnc craidd wedi'u hadnabod a'u cadarnhau [Cymraeg: Ysgolion Botwnnog, Dyffryn Ogwen, Tryfan/ Saesneg: Ysgol Bryn Elian/Mathemateg Ysgol Eirias ac Ysgol Glan Clwyd /Gwyddoniaeth: Ysgol Alun ac Ysgolion Môn]. Mae Ysgolion Arweiniol wedi cynhyrchu deunyddiau enghreifftiol ac mae arweinwyr pwnc

GwE ac ymgynghorydd allanol wedi sicrhau ansawdd y rhain ar ddwy haen. Cynhaliwyd gweithdai ym mis Chwefror (ar gyfer Cymraeg, Saesneg a Mathemateg) ac ym mis Mehefin (Cymraeg a Saesneg) - roedd presenoldeb ac adborth yn dda iawn. Mae'r holl ddeunyddiau enghreifftiol ar wefan GwE ac ar gael i ysgolion. Caiff ysgolion fwletin TGAU 2015/PISA bob hanner tymor i'w hysbysu am ddatblygiadau. Mae Ymarferwyr Arweiniol (Mathemateg a Gwyddoniaeth) wedi mynychu cyfarfodydd Penaethiaid Mathemateg/Gwyddoniaeth mewn nifer o AuuLl. Cynhaliwyd Cynhadledd Genedlaethol ar 26 Mawrth i arddangos arfer dda o ran TGAU. Mynychodd yn agos i 300 ac roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn.


Bagloriaeth Cymru:

Cafwyd grant o £75,000 i gefnogi datblygu Bagloriaeth Cymru yn y rhanbarth yn ystod 2014-15. Mae pedwar Ymarferwr Arweiniol wedi'u hadnabod ac wedi arwain Grwpiau Datblygu (un ar gyfer bob un o'r tair her ac un ar gyfer y prosiect unigol). Yn ogystal, maent wedi cynhyrchu adnoddau Dysgu ac Addysgu i gefnogi datblygu sgiliau o fewn yr Heriau/Prosiect Unigol.

Mae'r holl ddeunyddiau ar wefan GwE ac ar gael i ysgolion.



Cynhaliwyd Cynhadledd Ranbarthol ar 15 Mai 2015 i rannu adnoddau. Mynychodd dros 100 ac roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn.



The screenshot shows a presentation slide for the GWE Regional Conference. The left side contains the agenda for May 15th, 2015, at the Imperial Hotel, London. The right side shows a seating chart for the conference, divided into sections for Cymraeg, Sasaeg, and English, with rows for Gwynedd, Conwy, and Flint.







Hwyluswyd creu grwpiau Cydlynwyr Bagloriaeth Cymru ym mhob ALL ac mae grŵp Bagloriaeth Cymru rhanbarthol wedi'i greu.





Mae cais am grant o £50,000 i gefnogi datblygu Bagloriaeth Cymru yn y rhanbarth yn ystod 2015-16 wedi'i gymeradwyo.

Her Ysgolion Cymru:

Cymeradwywyd Cynlluniau Datblygu Unigol ar gyfer y pum ysgol HYC ac mae cyllid wedi'i gadarnhau. Mae Cynlluniau Datblygu Unigol 2014-15 y pum ysgol HYC wedi'u gweithredu. Mae Cynlluniau Datblygu Unigol 2015-16 ar gyfer y pum ysgol wedi'u cyflwyno i LC. Mae Gwariant Cyfalaf wedi'i gadarnhau a chyllid wedi'i dynnu lawr o'r ALL. Cyflwynwyd y Cynlluniau Meithrin Capasiti ac fe'u cymeradwywyd, a hysbyswyd pob ysgol bartner.


Ysgol	Meithrin Capasiti	Refeniw	Cyfalaf
Caergybi	£13,260	£149,298	£199,876
Treffynnon	£16,025	£159,202	£12,500
Rhosnesni	£15,525	£138,700	£110,000
Bryn Alyn	£71,125	£180,300	£140,000
Clywedog	£71,875	£162,500	£180,000






2. Codi safonau dysgwyr sydd â hawl i PYD


GwE Cyfnod Sylfaen DCS - PYD/dPYD




GwE CA2 DPC - PYD/dPYD



GwE CA3 DPC - PYD/dPYD



GwE CA4 L2+ - PYD/dPYD



Mae GwE wedi ceisio sicrhau bod arweinydd dynodedig clir ar gyfer dysgwyr PYD ym mhob ysgol a bod gan ysgolion gynlluniau priodol ar waith ar gyfer defnyddio'r cyllid Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) yn effeithiol [fel rhan o strategaeth ehangach i godi safonau'r garfan hon o ddysgwyr].


Cynhaliwyd sesiwn ar gyfer Ymgynghorwyr Her ar 23 Ebrill yn amlinellu gofynion 2015/16 ar gyfer cynllunio gwariant y GAD. Rhannwyd dogfennau allweddol ag ysgolion trwy gyfrwng gwefan GwE, sy'n cynnwys nifer o astudiaethau achos o arfer lwyddiannus. Roedd Ymweliad 1 yn gofyn bod pob Ymgynghorwr Her yn canolbwyntio yn benodol ar ddeilliannau dysgwyr PYD. Roedd yr ymweliadau sicrhau ansawdd a wnaed gan yr Uwch Ymgynghorwyr Her ac archwiliad o adroddiadau Ymweliad 1 yn cadarnhau bod hyn yn cael ei weithredu fel y cynlluniwyd. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd yr Ymgynghorwyr hefyd yn trafod y gofynion newydd ar gyfer Cynllun Datblygu Ysgol a threfniadau'r dyfodol ar gyfer cyllid y GAD.

Yn ystod y gynhadledd ysgol-i-ysgol a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2015, cyflwynodd wyth ysgol arweiniol weithdai i rannu eu harfer effeithiol o ran codi cyrhaeddiad dysgwyr PYD.


Penodwyd arweinydd rhanbarthol ar secondiad i gydlynw'r strategaeth ranbarthol PMG, a gychwynnodd yn ei swydd ar 1/6/15. Ar 9/10 Gorffennaf 2015, cynhaliwyd sesiynau i rannu gwybodaeth ac i gynllunio cefnogaeth ar gyfer dysgwyr bregus. Roedd cyfle i arweinwyr/cydlynwyr dysgwyr bregus pob ysgol fynychu (mynychodd 211 i gyd).

Mae GwE yn cynllunio Cynhadledd Genedlaethol ar leihau effaith difreintedd ar gyrhaeddiad addysgol a chynhelir hon ar 9 Tachwedd 2015 yn Venue Cymru, Llandudno. Estynnwyd gwahoddiad i'r Gweinidog.


3. Codi safonau llythrennedd a rhifedd dysgwyr




PDC - Saesneg :Mesur Cynnydd



PRhC - Gweithdrefnol: mesur cynnydd



PRhC- Rhesymu: mesur cynnydd



Mae Uwch Ymgynghorydd Her (UYH) mewn swydd er mis Medi 2014 sy'n arwain ar y gwaith hwn. Mae hyn wedi cynyddu capasiti a pha mor gyflym y mae pethau yn symud ymlaen yn y maes blaenoriaeth hwn yn sylweddol.

Datblygwyd Strategaeth Ranbarthol dan arweiniad yr UYH, sy'n gweithio gyda Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyda chynrychiolwyr o ysgolion, AauLl a'r RhGG.

Mae'r strategaeth wedi'i rhannu â rhanddeiliaid ac, ar gais, mae'r UYH wedi dilyn cyfarfodydd strategol Penaethiaid. Mae'r UYH wedi ragio gweithgareddau tymor yr hydref ac mae'r Grŵp Strategol Rhanbarthol wedi craffu ar hyn a'i herio (11/2/15).

Cafwyd arfarniad o weithredu strategaeth 2014/15 ac mae meysydd ar gyfer datblygiad wedi'u hadnabod ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cynhaliwyd cyfarfod ar 23 Mehefin i adrodd yn ôl i swyddogion ALL.

O ganlyniad i fwy o gapasiti (gweler uchod), cafwyd cyfarfodydd mwy rheolaidd rhwng yr UYH ac Uwch Bartner y RhGG. Mae hyn wedi arwain at ddull fwy cydlynol o gynnig cefnogaeth i ysgolion a llai o ddyblygu, er, ni chafwyd gwared ar hyn yn llwyr. Yn ogystal, sefydlwyd cytundeb rhwng GwE a'r RhGG mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth a rhannwyd hwn â'r holl rhanddeiliaid. Golyga'r cyfarfodydd hyn y gellir ymateb yn gyflymach i geisiadau gan ysgolion am gymorth. Mae hefyd wedi lleihau dyblygu yn lleol; fodd bynnag, roedd hyn yn parhau yn destun pryder ar lefel genedlaethol.

Fe ddaw'r RhGG i ben ym mis Gorffennaf 2015 a bu'r ffocws yn fwy yn ddiweddar ar drosglwyddo gwybodaeth i GwE, a fydd yn gyfrifol am gefnogi ysgolion ym maes llythrennedd a rhifedd o fis Medi ymlaen. Mae'r UYH wedi parhau i fynychu cyfarfodydd Cenedlaethol gyda CfBT er mwyn sicrhau nad oes dim dyblygu o ran y gefnogaeth a gynigir i ysgolion.

Mae Partneriaid Cynorthwyol (PC) GwE wedi cynnig cefnogaeth i arweinwyr llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion y tymor yma drwy:

- gynnal cyfarfodydd rhwydweithio i arweinwyr llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion uwchradd
- hyfforddi cydlynwyr rhifedd mewn ysgolion cynradd ar ddatblygu ymresymu rhifyddol
- hyfforddi arweinwyr llythrennedd ALL Sir Y Fflint ar ddatblygu ysgrifennu estynedig yn yr ysgolion cynradd

Bu sesiynau rhwydweithio mewn ysgolion uwchradd yn hynod o lwyddiannus eleni gydag adborth cadarnhaol iawn gan ganran uchel o ysgolion a fynychodd. Fodd bynnag, nid oes gan arweinwyr llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion uwchradd ddigon o amser digyswllt i weithredu ar argymhellion y cyfarfodydd hyn ac erys hyn yn destun pryder, fel y mae diffyg amser i rannu'r wybodaeth â chydweithwyr a chefnogi staff eraill.

Yn ystod tymor y gwanwyn a'r haf 2015, cynhaliwyd yr hyfforddiant a ganlyn ar gyfer arweinwyr llythrennedd a rhifedd:

Ymresymu Rhifyddol (Cynradd) - 84 ysgol

Rhifedd Gweithdrefnol (Cynradd) - 62 ysgol

Uwch Sgiliau Darllen (Cynradd) - 166 ysgol

Ymresymu Rhifyddol (Uwchradd) - 14 ysgol

Datblygu Llythrennedd Ysgol Gyfan (Uwchradd) - 21 ysgol


Meysydd Dysgu a Rhaglenni Astudio diwygiedig (Cynradd ac Uwchradd) - 321 ysgol

Cefnogi Marcio – Ymresymu Rhifyddol (Cynradd ac Uwchradd) - 133 ysgol


Roedd adborth yr holl hyfforddiant yn gadarnhaol dros ben.

Arfarniadau'r Hyfforddiant Cynradd 2014/15


7. Rwy'n teimlo'n fwy hyderus i gefnogi staff gyda marcio'r profion / I feel more able to support staff in the marking of numerical reasoning tests




6. Bydd yr hyfforddiant hwn yn ddefnyddiol yn fy ngwaith - This training will be useful in my work




6. Bydd yr hyfforddiant hwn yn ddefnyddiol yn fy ngwaith - This training will be useful in my work




6. Bydd yr hyfforddiant hwn yn ddefnyddiol yn fy ngwaith - This training will be useful in my work



6. Bydd yr hyfforddiant hwn yn ddefnyddiol yn fy ngwaith - This training will be useful in my work




6. Bydd yr hyfforddiant hwn yn ddefnyddiol yn fy ngwaith - This training will be useful in my work




Arfarniadau'r Hyfforddiant Uwchradd 2014/2015

6. Bydd yr hyfforddiant hwn yn ddefnyddiol yn fy ngwaith - This training will be useful in my work



6. Bydd yr hyfforddiant hwn yn ddefnyddiol yn fy ngwaith - This training will be useful in my work




Uwchradd – Datblygu Llythrennedd Ysgol
Gyfan
Secondary - Developing Whole School Literacy

Cefnogaeth ar gyfer Cam 1 y MD a'r RhA diwygiedig

	Cytuno'n gryf Strongly Agree	Cytuno Agree	Di-duedd Neutral	Anghytuno Disagree	Anghytuno'n gryf Strongly disagree
Rwyf yn teimlo bod y gefnogaeth yr wyf wedi gael hyd yn hyn yn fy helpu i baratoi ar gyfer dechrau defnyddio'r Meysydd Dysgu/Rhaglenni Astudio newydd o fis Medi 2015 / I feel the support I have received will help me prepare to start using the new POS/AOL from September 2015	145	210	42	9	1

**Rwyf yn teimlo bod y gefnogaeth yr wyf
wedi gael hyd yn hyn yn fy helpu i baratoi
ar gyfer dechrau defnyddio'r Meysydd
Dysgu/Rhaglenni Astudio newydd o fis
Medi 2015 / *I feel the support I have
received will help me prepare to start using
the new POS/A***



Trwy gyfrwng y RhGG, cafodd bob ysgol gyfle i gael cefnogaeth i ddadansoddi data profion trwy gynnwys hyn fel un o'u pum blaenoriaeth cymorth. Ar ddiwedd y tymor hwn, bydd y RhGG yn trosglwyddo'r holl wybodaeth am eu cefnogaeth i ysgolion i GwE; yn dilyn hyn, bydd cyfle i ddadansoddi yn union pa hyfforddiant a gafodd pob ysgol yn ystod cyfnod y RhGG.

Rhannodd yr UYH negeseuon rhanbarthol allweddol am ddata profion cenedlaethol ag YH mewn cyfarfod llawn; fel hyn, gwnaed pob YH yn ymwybodol o'r blaenoriaethau gwella rhanbarthol ar gyfer 2015.

Yn ystod tymor yr haf 2015, cynhaliwyd sesiynau ar gyfer Penaethiaid Gwynedd ar fonitro a rheoli rhaglenni ymyriad. Bydd mewnbwn tebyg yn rhan o'r hyfforddiant ar gyfer arweinwyr llythrennedd a rhifedd yn ystod tymor yr hydref.

Yn gyffredinol, daeth y rhan fwyaf o geisiadau am gymorth i ysgolion unigol trwy law'r YH yn hytrach na'r RhGG.

Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwydweithio llythrennedd a rhifedd uwchradd ym mhob ALI yn ystod tymor yr hydref. Rhannwyd arfer effeithiol a datblygiadau allweddol. Cyhoeddwyd bwletin llythrennedd a rhifedd bob hanner tymor yn ystod y flwyddyn. Maent oll bellach ar gael ar wefan GwE.

Ym mis Tachwedd, mynychodd cydlynwyr rhifedd o 243 o ysgolion cynradd hyfforddiant Ymresymu Rhifyddol a ddarparwyd gan dîm PC GwE. Sesiwn 'hyfforddi'r hyfforddwr' oedd hwn. Ceisiadau gan ysgolion am gefnogaeth gydag ymresymu rhifyddol oedd y prif angen a adnabwyd gan y RhGG. Cafodd cydlynwyr rhifedd ysgolion uwchradd Gwynedd ac Ynys Môn hefyd hyfforddiant yn y maes hwn.

Roedd lefel y boddhad yn uchel ar gyfer y cwrs hwn, gyda 96% yn datgan eu bod yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' y byddai'r hyfforddiant yn ddefnyddiol iddynt ar gyfer datblygu ymresymu rhifyddol yn eu hysgol.

Ym mis Tachwedd, mynychodd cydlynwyr llythrennedd o 40 o ysgolion cynradd Sir Y Fflint hyfforddiant ar Ysgrifennu Estynedig ar draws y cwricwlwm dan arweiniad tîm PC GwE. Roedd canran uwch o ysgolion cynradd Sir Y Fflint wedi gwneud cais am gefnogaeth llythrennedd nag unrhyw ALL arall o fewn GwE.

Roedd lefel y boddhad yn uchel ar gyfer y cwrs hwn, gyda 98% yn datgan eu bod yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' y byddai'r hyfforddiant yn ddefnyddiol iddynt ar gyfer datblygu ysgrifennu estynedig yn eu hysgol.

Ym mis Tachwedd/Rhagfyr, hwylusodd GwE hyfforddiant *Premier League Reading Stars* y National Literacy Trust yn ogystal â chyflwyno'r hyfforddiant. Ariennir y peilot hwn gan LC ac mae wedi bod yn llwyddiannus yn Lloegr o ran gwella cymhelliad bechgyn a'u safonau darllen. Mynychodd oddeutu 120 o ysgolion yr hyfforddiant hwn. Ym mhob ALL o fewn GwE, mae merched yn perfformio yn well na bechgyn ar SS115+ yn y profion darllen Cymraeg a Saesneg. Mae'r PC a gyflwynodd yr hyfforddiant hwn ar ran y National Literacy Trust yn cefnogi ysgolion sydd wedi gofyn am weithgarwch dilynol ar ôl yr hyfforddiant.

Mae PC unigol wedi cefnogi dros 100 o ysgolion yn ystod tymor yr hydref. Mae'r rhain wedi'u targedu yn ôl angen a nodwyd gan yr YH, neu trwy gais ysgolion unigol i'r RhGG.

Mae ysgolion y rhanbarth sydd â'r perfformiad gwanaf yn y profion cenedlaethol wedi'u hadnabod; cafodd yr ysgolion hynny nad oeddent eisoes yn derbyn cymorth gan y PC gynnig hyfforddiant a chymorth yn ystod tymor y gwanwyn.

Cynhaliwyd hyfforddiant uwch sgiliau darllen i ysgolion 5 ALL yn ystod tymor y gwanwyn (2 ddiwrnod cyfrwng Saesneg a 3 diwrnod cyfrwng Cymraeg).

Cynhaliwyd hyfforddiant rhifedd gweithdrefnol i ysgolion 3 ALL yn ystod tymor y gwanwyn (2 ddiwrnod cyfrwng Saesneg ac 1 diwrnod cyfrwng Cymraeg).

Cynhyrchwyd taenlen o holl ysgolion y rhanbarth, sy'n nodi pa gefnogaeth llythrennedd a rhifedd a gafodd pob ysgol yn ystod y flwyddyn. Rhannwyd hon â swyddogion ALL ac UDRh GwE. Mae 7 ysgol yn y rhanbarth nad ydynt wedi derbyn unrhyw gefnogaeth na hyfforddiant.

Cynhaliwyd 3 sesiwn hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr i gefnogi disgyblion gyda sgiliau darllen a rhif sylfaenol – lleolwyd 24 gwirfoddolwr yn eu hysgolion lleol yn ystod y flwyddyn newydd.



Hyfforddwyd 75 o athrawon a chymorthyddion mewn naill ai Catch Up Literacy/Dyfal Donc Llythrennedd neu Catch Up Numeracy/Dyfal Donc Rhifedd yn ystod tymor yr hydref.



Cynhaliwyd sesiynau dilynol yn ystod tymor yr haf 2015. Mynychodd 38 aelodau o staff y sesiynau rhifedd a mynychodd 52 y sesiynau llythrennedd. Roedd y sesiynau hyn yn gyfle i'r rhai hynny sydd eisoes yn gweithredu'r rhaglen ymyriad i atgyfnerthu ac arfarnu.

Cafodd yr ysgolion hynny sydd am gael hyfforddiant yn ystod tymor yr hydref gyfle i fynegi diddordeb erbyn 26 Mehefin. Trefnir hwn yn ôl yr angen.

4. Cynyddu niferoedd mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ar draws y rhanbarth, yn ogystal â chodi safonau.

Mae GwE wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru i ddatblygu setiau data cenedlaethol a rhanbarthol er mwyn gallu tracio cynnydd y Gymraeg [gan gynnwys adnabod a herio'r garfan lai o ddisgyblion sy'n astudio Cymraeg fel Iaith Gyntaf fel cyfran o garfan gyfan pob pwnc craidd arall]. Yn ogystal, rhaid adnabod safonau cyflawniad y garfan lai hon a'u herio.





Penodwyd aelod UDRh llawn amser ar secondiad am ddau dymor i arwain y flaenoriaeth hon (Ionawr 2015) a chafwyd trafodaethau cychwynnol gyda Llywodraeth Cymru (2.12.14)

Mae Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg AuLl wedi'u coladu a'u dadansoddi (Chwefror 2015).

Cynhyrchwyd adroddiad ar safonau'r Gymraeg fel Iaith Gyntaf yn CA4, sy'n cynnwys argymhellion sy'n canolbwyntio ar godi safonau a gwella dilynant a pharhad rhwng cyfnodau allweddol.

Roedd cynrychiolaeth o GwE ar weithgor LLC a oedd yn trafod defnydd anffurfiol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg.

Is-grŵp Meithrin Capasiti Cyfrwng Cymraeg CCAC gogledd Cymru sy'n darparu arweiniad rhanbarthol strategol ar y Gymraeg, yn ogystal â dyrannu Grant y Gymraeg mewn Addysg, ac ALL Gwynedd sy'n cadeirio hwn. Mae cynrychiolaeth o GwE ar y grŵp hwn.

Cafodd y Gymraeg ei hadnabod fel blaenoriaeth i'w thrafod yn ystod ymweliad cefnogi a monitro tymor y gwanwyn 2015. Roedd hyn yn cynnwys trafod:

- safonau a darpariaeth Gymraeg a chasglu gwybodaeth ac arfer dda ranbarthol.
- camau gweithredu'r ysgol i ddatblygu'r Gymraeg fel pwnc a chyfrwng
- i ba raddau y mae'r ysgol yn ymateb i bolisi'r Awdurdod ac i'w Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- i ba raddau y mae'r ysgol yn ymateb i bolisiau, amcanion a chanllawiau Llywodraeth Cymru
- hunanarfarniad yr ysgol ar ddangosyddion perfformiad 1.1.5 (Safonau yr iaith Gymraeg) a 2.1.3 (Darpariaeth Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig).

Hysbyswyd pob YH a'u briffio am ffocws ymweliad cefnogi a monitro tymor y gwanwyn.

Hysbyswyd Penaethiaid am ffocws yr ymweliadau cefnogi a monitro tymhorol. Bu trafodaethau hefyd mewn cyfarfodydd fforwm strategol a chyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr.


Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod ymweliad cefnogi a monitro tymor y gwanwyn wedi'i choladu a'i rhannu.

Mae ymarferwyr arweiniol wedi cynhyrchu proffiliau dysgwr enghreifftiol i gefnogi cymedroli Asesiad Athro ar ddiwedd CA2 a CA3 ac wedi cynnal hyfforddiant i ysgolion.

Cafwyd trafodaethau gyda'r Athrawon Bro (Conwy, Sir Ddinbych a Sir Y Fflint) ar ddatblygu proffiliau dysgwr enghreifftiol ar gyfer Cymraeg Ail Iaith.

Mae ysgolion arweiniol wedi cynnal gweithdai ar y TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf newydd (mis Chwefror a Gorffennaf 2015). Mae'r gweithdai yn canolbwyntio ar y fethodoleg sy'n ofynnol i weithredu'r fanyleb newydd yn llwyddiannus.

5. Cynyddu cyfran y dysgwyr 16-oed sy'n ennill o leiaf 5 gradd A* neu A erbyn diwedd CA4 [gan gynnwys iaith a mathemateg]



Yn dilyn trafodaethau rhwng LIC a'r 4 consortiwm, mae dangosydd newydd yn rhan o'r system genedlaethol ar gyfer categoraiddio yn seiliedig ar 5+ gradd A*/A neu gyfwerth. Fodd bynnag, nid yw'r mesur hwn yn cynnwys iaith/mathemateg. O ganlyniad i godi ymwybyddiaeth, mae'r mesur hwn yn hysbys i bawb.

Rhannwyd arfer effeithiol trwy gyfrwng gweithgarwch ysgol-i-ysgol ac ymarferwyr arweiniol a bu trafodaethau i herio perfformiad A*/A ym mhob ymweliad monitro uwchradd.

Yn flaenorol, yn y mwyafrif o Awdurdodau Lleol, roedd y dangosydd A*/A wedi'i gynnwys yn y prosesau gosod targedau, ond mae bellach wedi'i gynnwys yn y prosesau gosod targedau diwygiedig a ddarperir gan GwE i bob ysgol uwchradd.

6. Sefydlu a hyrwyddo model rhanbarthol effeithiol ar gyfer cefnogaeth ysgol>ysgol

Mae GwE wedi sefydlu strategaeth ranbarthol ar gyfer cefnogaeth ysgol-i-ysgol sydd wedi'i datblygu a'i rhannu â'r holl randdeiliaid. Mae pob Ymgynghorydd Her GwE wedi'u briffio a'u diweddarau.

Cafodd cydweithio rhwng ysgolion ei drafod a'i herio yn ystod Ymweliad 1

Cynigiwyd cymhelliad ariannol i bob ysgol yn rhanbarth GwE yn seiliedig ar fformiwla y cytunodd bob ALL arno, ac anfonwyd gwybodaeth a manylion ymgeisio i bob ysgol ynghyd â dyddiad cau.

Bellach, mae 9 prosiect cydweithio trawsawdurdod effeithiol ar waith ar draws rhanbarth GwE. Eir i'r afael â llawer o feysydd allweddol. Cyflwynwyd gweithdai yn y Gynhadledd Ysgol-i-Ysgol i rannu arfer dda.

Hysbyswyd ysgolion hefyd am fwriad GwE i greu Ysgolion Cyd-arweiniol ar draws y rhanbarth. Roedd cyfeiriad at y rhain yn wreiddiol yn strategaeth ysgol-i-ysgol GwE. Cafodd Ymgynghorwyr Her eu briffio hefyd am y bwriad o greu ysgolion cyd-arweiniol a gofynnwyd iddynt ddechrau adnabod ysgolion, adrannau, ymarferwyr arweiniol ac arweinwyr posib.

Cafodd Penaethiaid hefyd eu briffio o fwriad GwE mewn fforymau a chyfarfodydd Penaethiaid, ac anfonwyd gwybodaeth a manylion ymgeisio i bob ysgol ynghyd â dyddiad cau.

Mae Rhan 1 o Strategaeth Gyd-arweiniol GwE ar waith, ac mae 19 o Ysgolion Cyd-arweiniol Llythrennedd/Rhifedd/ITM wedi'u hadnabod.

Yn ogystal, mae GwE yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r rhaglen Ysgolion Cyd-arweiniol yn y Celfyddydau.

Cynhaliwyd Cynhadledd Ysgol-i-Ysgol Genedlaethol ar 2 Mehefin 2015, a drefnwyd gan GwE, a'r Athro Mel Ainscow oedd y prif siaradwr. Roedd y gynhadledd yn arddangos cydweithio effeithiol a mynychodd dros 300. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn.



Mae GwE hefyd wrthi yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i hyrwyddo Ysgolion Arloesi Y Fargen Newydd, Ysgolion Arloesi Dyfodol Llwyddiannus ac Ysgolion Arloesi Digidol, o ganlyniad i adroddiadau Donaldson a Furlong

7. Datblygu arweinyddiaeth ac addysgu a dysgu o safon ar bob lefel

Gwnaed archwiliad ar y ddarpariaeth ar hyn o bryd ar gyfer datblygu arweinyddiaeth ar draws gogledd Cymru, a lluniwyd adroddiad yn manylu ar y ddarpariaeth hon ar draws y chwe awdurdod lleol.

Mae nodweddion allweddol y rhaglenni sy'n ofynnol wedi'u pennu a'u cyflwyno mewn adroddiad i UDA GwE. Mae'r adroddiad yn cynnwys 'egwyddorion lefel uchel' ar gyfer rhaglenni arfaethedig. Yn dilyn hyn, lluniwyd drafft o **Brosiectws Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol** a'i drafod â'r holl randdeiliaid. Mae'r brosiectws yn cynnwys yr weledigaeth, nod ac amcanion, bwriad strategol, manylion ynghylch y gynulleidfa darged, gwybodaeth am ariannu, y broses, amserlen a chynnwys y rhaglen. O ganlyniad, mae Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol GwE yn datblygu yn effeithiol. Mae 60 unigolyn wedi cwblhau'r hyfforddiant ac mae 32 arall yn rhan o ddatblygu Arweinyddiaeth Ganol/Llythrennedd Corfforol ar hyn o bryd. Bydd 60 arall yn dechrau ar y rhaglen ddiwedd mis Medi 2015. Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen yn cael ei harfarnu yn allanol ar ôl derbyniad gwresog gan yr aelodau a'u Penaethiaid.



Mae **Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol** hefyd ar waith – mae 19 unigolyn wedi cymryd rhan yn y rhaglen yn llwyddiannus ac yn cynorthwyo GwE i ddiwygio'r rhaglen ar gyfer mis Medi 2015 ymlaen.

Dyma enghreifftiau isod o beth ddywed rhai o'r aelodau:

Wythnos ddiwethaf oedd y profiad mwyaf pleserus i mi gael ers amser, ac rwy'n falch i mi gymryd rhan yn agored o'r dechrau. Roedd yn agoriad llygad, ac mae wedi newid fy agwedd at lawer o bethau. Roedd y diwrnod cyntaf yn ôl ddoe yn un o'r dyddiau gorau yn fy swydd hyd yma.

Am bedwar diwrnod gwych! Gresyn nad oedd profiad fel hyn ar gael 10 mlynedd yn ôl. Roedd rhaglen y pedwar diwrnod wedi'i chynllunio yn ofalus iawn. Roeddwn yn teimlo yn emosiynol iawn ar ddiwedd y profiad ac ni feddyliais erioed y byddai'r pedwar diwrnod yn cael cymaint o effaith ar fy rôl fel arweinydd ysgol. Rwyf bellach yn meddwl am fy staff mewn ffordd wahanol. A ydw i wedi rheoli yn effeithiol rai aelodau o staff sy'n tanberfformio? A ydw i wedi dirprwyo'r targedau cywir i aelodau priodol y tîm? O ganlyniad i'r profiad, rwyf eisoes wedi meddwl am ffyrdd gwahanol o fynd i'r afael â rhai meysydd i'w datblygu yn yr ysgol. Rwy'n gyffrous am y dyfodol. Rwy'n gwerthfawrogi'r profiad gwerthfawr hwn yn fawr.

Cefais brofiad gwych dros y pedwar diwrnod yr wythnos diwethaf, ac mi wnes i gyfarfod â rhai pobl anhygoel (gan gynnwys chi). Rydym mewn cyswllt yn aml ac mae rhai prosiectau cydweithio ar y gweill, sy'n isgynnyrch cadarnhaol arall o brofiad yr wythnos ddiwethaf. Rydym am gyfarfod eto cyn hanner tymor. Dydi'r staff ddim yn f'adnabod, gan fy mod yn cerdded ar ysgafn droed ac yn cydio yn bawb. Maen nhw i gyd yn gwenu ac yn chwerthin, yn afreolus bron. Mae pawb am gael yr hyfforddiant rŵan!!

Rwyf am ddiolch yn bersonol am yr wythnos ddiwethaf. Gallaf ddweud yn onest fy mod yn teimlo fel pysgodyn allan o ddŵr am y rhan fwyaf o'r amser, ond dyna beth wnes i fwynhau am y profiad. Rwyf wir yn credu i mi wneud ffrindiau am oes. Diolch am gamu i mewn a f'arwain i yn y dasg olaf yn enwedig... eich ymarweddiant tawel helpodd y tîm!

Mae **Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth** GwE yn cynnwys Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer pob rhan o'r llwybr datblygu arweinyddiaeth i ymarferwyr yng ngogledd Cymru. Mae'r rhaglen wedi'i thrafod â Llywodraeth Cymru ac fe'i cymeradwywyd fel arfer dda.

Mae gan Lywodraeth Cymru a'r 3 consortiwm arall ddiddordeb mewn mabwysiadu elfennau penodol o raglen GwE. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd ynghylch GwE yn ymgymryd â rôl genedlaethol mewn datblygu arweinyddiaeth ar bob lefel.

Mae trafodaethau ac arfarniadau yn mynd rhagddynt hefyd ynghylch darparwyr allanol y gellid eu comisiynu i ddarparu hyfforddiant mewn nifer o feysydd.

Mae darparwyr allanol effeithiol wedi'u hadnabod a'u comisiynu i ddarparu dwy raglen fel rhan o Raglen Datblygu Arweinyddiaeth GwE.

Bu cais GwE i gyflwyno'r CPCP yn rhanbarthol yn llwyddiannus, ac mae wedi trefnu a hwyluso'r broses dewis ymgeiswyr ar gyfer 2014/15. Mae GwE hefyd yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a'r tri chonsortiwm arall ar gynllunio'r CPCP newydd a'i weithredu.


Mae **hyfforddiant addysgeg** wedi'i weithredu hefyd gyda ffocws cychwynnol ar weithdrefnau asesu a chymedroli effeithiol.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau hyfforddiant yn yr hybiau yn ystod tymor yr hydref e.e. beth sy'n gweithio orau yn y dosbarth, hyfforddiant ar fentora cadarnhaol, symud dysgwyr i'r lefel nesaf, TGCh ac ati.

Mae hyfforddiant cymedroli ar waith trwy'r Gweithgor Asesiad Athro

Yn ystod mis Mawrth, cynhaliwyd hyfforddiant ar asesu a chymedroli Asesiad Athro ar ddiwedd CA2 a CA3 mewn Cymraeg Iaith Gyntaf, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Gwahoddwyd pob clwstwr i anfon un cynrychiolydd cynradd ac uwchradd ar gyfer pob pwnc i'r sesiynau hyfforddiant. Cynhaliwyd 11 sesiwn ar draws y 3 hwb. Er y mynegwyd pryder na fu digon o rybudd am ddyddiadau'r hyfforddiant, roedd yr adborth ar gynnwys y cwrs ac ar ansawdd y deunydd hyfforddiant yn galonogol iawn. Sicrhodd 91% o glystyrau gynrychiolaeth ym mhob un o'r sesiynau pwnc.

Cyhoeddwyd y deunydd hyfforddiant i gyd ar wefan GwE, gan gynnwys y Proffiliau Dysgwr enghreifftiol.



Cafwyd adroddiadau ar gyfarfodydd cymedroli clwstwr. Yn dilyn yr hyfforddiant, ymddengys bod y broses cymedroli wedi cryfhau, a bod clystyrau nad oedd wedi arfer sicrhau bod cyfarfodydd cymedroli yn digwydd yn gyson yn sicrhau hyn bellach.

8. Cefnogi ysgolion i ddatblygu prosesau asesu, safoni a chymedroli mwy cadarn ac effeithiol

Cynrychiolir GwE bellach ar lefel genedlaethol mewn gweithgorau LIC ar sicrhau cysondeb mewn Asesiad Athro ar hyd a lled Cymru. Mae cynrychiolydd GwE yn arwain gweithgor rhanbarthol sy'n cynnwys Ymgynghorwyr Her sydd ag arbenigedd yn y maes hwn.

Mae GwE wedi adnabod wyth ymarferwr arbenigol (un cynrychiolydd cynradd ac un cynrychiolydd uwchradd o bob pwnc craidd) i lunio portffolio rhanbarthol o waith wedi'i safoni ar gyfer pob pwnc yn y tri Chyfnod Allweddol. Dosbarthwyd portffolios o safon uchel i bob ysgol ar hyd a lled y rhanbarth i'w defnyddio fel rhan o DPP yr ysgol ar asesiad athro. Mae staff GwE wedi sicrhau ansawdd yr adnoddau a chyhoeddwyd deunyddiau ar wefan GwE.

Mae GwE hefyd wedi adnabod 16 'dirprwy' ymarferwr arbenigol (2 fesul pwnc fesul cyfnod allweddol). Mae'r ymarferwyr arbenigol wedi hyfforddi'r ymarferwyr ar gyflwyno'r deunyddiau hyfforddiant. Mae staff GwE wedi sicrhau ansawdd yr hyfforddiant.

Mae ymarferwyr arweiniol wedi mynychu fforymau Penaethiaid i gyflwyno canllawiau a phroffiliau. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant ym mis Mawrth. Cafwyd sylwadau cadarnhaol ar gynnwys y cwrs ac ar ansawdd y deunyddiau hyfforddiant, gan gynnwys y proffiliau dysgwr, er bod peth pryder na roddwyd fawr o rybudd o'r sesiynau a bod yr amserlen ar gyfer cymedroli yn dynn. Mae'r deunyddiau hyfforddiant i gyd ar gael ar wefan GwE.

Cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant clwstwr gan hyfforddwyr, gydag un cynrychiolydd uwchradd ac un cynrychiolydd cynradd o bob clwstwr yn mynychu. Roedd disgwyl i arweinwyr clwstwr rannu'r adnoddau â bob ysgol mewn cyfarfodydd clwstwr. Cofnodwyd enwau'r rhai hynny oedd yn bresennol, ac roedd disgwyl i'r rhai hynny nad oedd yn bresennol fynychu sesiwn hyfforddiant dilynol. Roedd Ymgynghorwyr Her yn samplu detholiad o'r sesiynau hyn. Yn dilyn hyn, mae clystyrau wedi anfon cofnodion, ac mae Ymgynghorwyr Her wedi cwblhau adroddiadau ar gyfarfodydd cymedroli yr aethant iddyn nhw.

Cynhaliwyd cyfarfodydd clwstwr yn nhymor y gwanwyn i gymedroli ar draws cyfnodau allweddol. Hyfforddiant rhanbarthol oedd yn llywio safonau. Roedd gofyn i Bennaeth o'r clwstwr gymeradwyo gwaith ysgolion y clwstwr. Roedd disgwyl i Ymgynghorwyr Her yr hybiau fynychu o leiaf un cyfarfod cymedroli o fewn yr hwb i sicrhau ansawdd y broses. Roedd yn fwriad cynnal cyfarfodydd cymedroli clwstwr yn ystod tymor yr haf i gadarnhau barn ar broffiliau dysgwyr Blwyddyn 2, 6 a 9 ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch; fodd bynnag, ni chafodd y cyfarfodydd hyn eu hamserlennu yn y rhan fwyaf o glystyrau, ond mae'r broses cymedroli wedi'i chryfhau yn sylweddol ar hyd a lled y rhanbarth eleni.

Mae pob ysgol yn ymwybodol o ganllawiau LLC ar Gryfhau Asesiad Athro ac wedi'i chynghori i gynllunio rhaglen ar gyfer safoni a chymedroli ar gyfer y flwyddyn nesaf.


Roedd sampl o ysgolion ar draws y rhanbarth yn rhan o'r **Rhaglen Ddilysu Genedlaethol** i gryfhau asesiad athro. Bu GwE, mewn partneriaeth â'r 3 chonsortium arall, yn llwyddiannus i sicrhau'r contract cenedlaethol hwn. Mae tîm o ddilyswyr o fewn GwE wedi bod yn rhan o ddilysu asesiad athro mewn rhanbarthau eraill (ERW yn bennaf). Bydd y tîm yn cyfarfod â'r gweithgor cenedlaethol i drafod deilliannau'r broses eleni ac i adnabod blaenoriaethau ar gyfer flwyddyn nesaf. Bydd sesiwn briffio i Benaethiaid ar ddeilliannau'r rhaglen ddilysu allanol eleni ac i gynllunio ar gyfer bodloni gofynion statudol 2016.

Adran 2: Blaenoriaethau allweddol ar gyfer datblygu cynhwysedd busnes a swyddogaethau GwE fel sefydliad

1. Datblygu arweinyddiaeth a chynhwysedd busnes er mwyn cyflawni swyddogaethau allweddol yn effeithiol

Er mis Medi 2014, mae Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Cefnogaeth a Broceru) ac Uwch Ymgynghorydd Her Llythrennedd a Rhifedd llawn amser. Rydym hefyd wedi penodi Pennaeth ar secondiad i arwain ar brosiectau cenedlaethol [Her Ysgolion Cymru/Prosiect PISA] ac wedi cynyddu capasiti o ran Penaethiaid sydd ar secondiad o fewn pob hwb. Mae hyn wedi cynyddu capasiti yn sylweddol ac wedi

galluogi GwE i ymateb yn llawer mwy effeithiol i ystod eang y cyfrifoldebau a'r disgwyliadau. Mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Safonau) wedi bod yn ei swydd yn llawn amser er mis Ebrill 2015, sy'n cwblhau'r Uwch Dîm Arwain.



Mae Rheolwr Data a Gwybodaeth y consortiwm rhanbarthol wedi trosglwyddo i GwE ym mis Ebrill 2015 a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Safonau) yw ei reolwr llinell. Mae data hanesyddol AauLl yn cael ei goladu ar lefel ranbarthol a chytunwyd ar brotocolau rhannu data. Bydd hyn yn caniatáu system fwy effeithiol ac effeithlon ar gyfer dadansoddi data a thargedu adnoddau.

Mae GwE yn datblygu ac yn cyhoeddi adroddiadau ar lefel ranbarthol, awdurdod ac ysgol yn ogystal â datblygu'r gallu i'w cyhoeddi fel y gall defnyddwyr wasanaethu eu hunain.

Mae GwE hefyd yn buddsoddi mewn data Fisher Family Trust (FFT) ar lefel consortiwm.

Mae staff cefnogi'r consortiwm cynharach wedi trosglwyddo i GwE ac mae rolau a strwythurau rheoli llinell wedi eu cadarnhau. Mae'r cynnydd hwn mewn cynhwysedd busnes yn caniatáu dull mwy cydlynol o gynllunio a monitro'r gyllideb. Yn ogystal, gweithredwyd systemau a threfniadau fwy grymus o ran monitro ariannol rhwng Rheolwr Busnes GwE ac Adran Cyllid yr ALI lletyol. Mae UDA GwE yn monitro unrhyw danwariant/gorwariant yn ystod cyfarfodydd UDA ac yn ystod cyfarfodydd priodol y Bwrdd Rheoli.

Roedd pob Ymgynghorydd Her yn rhan o'r hyfforddiant cenedlaethol a ddarparwyd gan LC [Hydref 2014]. Mae gweithdrefnau Rheoli Perfformiad effeithiol a grymus ar waith ar draws y 3 hwb. Mae disgwyl i bob Ymgynghorydd Her fod yn rhan o hyfforddiant Estyn penodol.

Mae gweithdrefnau Sicrhau Ansawdd grymus ar waith ar gyfer ymweliadau tymhorol.

Mae **Rhaglen Datblygu Ymgynghorwyr Her GwE** yn weithredol bellach, sydd â ffocws penodol ar elfennau craidd y swydd. Mae Ymgynghorwyr Her wedi mynychu hyfforddiant penodol:

- tridiau yn datblygu sgiliau hyfforddi
- hyfforddiant ar ddefnyddio systemau tracio a gosod targedau yn effeithiol

Bydd y Rhaglen Datblygu yn parhau, a'r cam nesaf fydd canolbwyntio ar y sgiliau penodol a fyddir ar gyfer ymateb i anghenion ysgolion mewn gwahanol gategorïau lliw.

Mae Ymgynghorwyr Her yn cael ei briffio a'u diweddarau yn rheolaidd ar ddatblygiadau a disgwyliadau rhanbarthol ynglŷn â hyrwyddo a hwyluso cydweithio mwy effeithiol rhwng ysgolion. Mae amcanion Rheoli Perfformiad YH yn gydnaws â'r flaenoriaeth allweddol hon.

Bydd dull newydd GwE o weithredu gydag ysgolion o 2015-2016 hefyd yn sicrhau rhaglen aeddfed o gefnogaeth ysgol-i-ysgol. Mae hyfforddiant penodol wedi'i ddatblygu ar gyfer YH a chynhelir hwn yn fuan ym mis Medi 2015.

2. *Sicrhau bod GwE yn cael ei lywodraethu yn effeithiol*

Mae aelodaeth/cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor a'r Grŵp Defnyddwyr yn unol â disgwyliadau'r MC.

Mae cytundeb mewn lle i sefydlu Bwrdd Ymgynghorol Gweithredol gydag aelodaeth gychwynnol a chylch gorchwyl. Bydd gan y grŵp hwn bwerau ymgynghorol ac adrodd, sy'n cyfateb i'r swyddogaethau a amlinellir yn y Model Cenedlaethol, ynghyd â phwerau dirprwyedig i wneud penderfyniadau. Bydd gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE fynediad i'r Bwrdd Ymgynghorol Gweithredol ynghyd â'r 6 Prif Swyddog Addysg. Mae'r aelodaeth wedi'i chadarnhau a chynhaliwyd 2 gyfarfod o'r Bwrdd Ymgynghorol (cysgodol) ym mis Ebrill a Gorffennaf.

Mae crynodeb o benderfyniadau/trafodaethau'r Bwrdd Ymgynghorol Gweithredol i'w rannu â'r Cyd-bwyllgor, er gwybodaeth.

Cytunwyd ar fodel llywodraethu, sy'n amlinellu yn glir hyd a lled awdurdod dirprwyedig y cyfarwyddwyr a/neu'r RhG a'i dîm.

Cyflwynwyd adroddiad i'r 6 awdurdod a'r Cyd-bwyllgor yn amlinellu'r newidiadau i strwythur llywodraethu GwE (mewn ymateb i'r Model Cenedlaethol), ac fe'i cymeradwywyd. Mae'r adroddiad yn cynnwys aelodaeth/cylch gorchwyl y grwpiau amrywiol ynghyd â'r lefelau dirprwyo awdurdodedig ar gyfer yr haenau amrywiol.

Mae'n fwriad gan y chwe Awdurdod Lleol i edrych eto ar y Cytundeb Rhyng-Awdurdod a'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gwreiddiol yn ystod tymor yr hydref er mwyn cynnwys ychwanegiadau o ganlyniad i'r Model Cenedlaethol.

3. *Sicrhau ansawdd, atebolrwydd a chraffu grymus ar bob lefel*

Mae gweithdrefnau Rheoli Perfformiad grymus yn cael eu gweithredu yn gyson bellach, ac mae cefnogaeth ranbarthol yn sail i ac yn atgyfnerthu rhaglenni hyfforddiant cenedlaethol i uwchsgilio Ymgynghorwyr Her.

Ar gyfer arolygiad thematig Estyn, cwblhawyd hunanarfarniad llawn o berfformiad rhanbarthol, agweddau ar arweinyddiaeth a llywodraethu ac ansawdd y ddarpariaeth a'r gefnogaeth a gynigir gan GwE. Cwblhawyd 5 arolwg rhanddeiliaid rhwng mis Ebrill 2013 a Rhagfyr 2014. Adnabuwyd cryfderau allweddol a meysydd i'w datblygu ymhellach ac maent wedi'u cynnwys yn y Cynllun Busnes diwygiedig.

Mae GwE bellach yn sicrhau bod Uwch Ymgynghorwyr Her (UYH) yn mynychu cyfarfodydd UDA tîm cartref yr ALL i adrodd am gynnydd yn erbyn blaenoriaethau allweddol [gan gynnwys perfformiad ysgolion a dargedwyd].

Mae UYH yn arfarnu perfformiad eu gwahanol ALL yn ystod tymor yr hydref ac yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r pwyllgor craffu a'r Uwch Swyddogion ALL. Mae Aelodau Arweiniol ALL/Deilydd Portffolio/Aelod Cabinet yn adrodd am ganfyddiadau prosesau craffu unigol i'r Cyd-bwyllgor.

Mae'r RhG yn arfarnu perfformiad rhanbarthol GwE yn nhymor yr hydref ac yn cyflwyno:

- i. adroddiad blynyddol i'r Bwrdd Ymgynghorol a'r Cyd-bwyllgor ar gyfer craffu; a
- ii. diweddariadau ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau allweddol mewn cyfarfodydd wedi'u hamserlennu

4. *Sicrhau bod GwE yn dod yn bartner arweiniol cynaliadwy ac effeithiol o fewn y gymuned addysg*

Mae GwE wedi datblygu lefel uchel o ddull adnabod trwy frand ar draws y rhanbarth, fel y bydd gweithwyr proffesiynol yn gwybod yr hyn all/fydd GwE yn gyflawni. Comisiynwyd cwmni brandio allanol i gynorthwyo, cynghori a gweithredu datblygiadau



Mae Ymgynghorwyr Her a rhanddeiliaid allweddol wedi'u briffio a'u diweddarau ar ddatblygiadau.

Mae prospectws o weithgareddau cefnogi, hyfforddiant penodol a hyfforddiant generig yn cael ei ddatblygu a bydd ar gael i ysgolion.

Yn ogystal, mae gwefan GwE/moodle/platfform Rhith-amgylchedd Dysgu (VLE) yn datblygu fel y gellir rhannu gwybodaeth ac arfer orau ar draws y rhanbarth. Bu Grŵp Defnyddwyr GwE yn cynghori, cynorthwyo a gwerthuso datblygiadau.

Adroddiad i Gyd-bwyllgor GwE

Deilliannau Disgyblion 2015

Tachwedd 2015

Arfarniad o Berfformiad 2014-15

Codi safonau a gwella ansawdd addysg ein disgyblion yw'r flaenoriaeth bwysicaf i GwE a'i bartneriaid, er mwyn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau a chanlyniadau i blant a phobl ifanc.

Barn GwE yw bod safonau ar draws y CS, CA2, CA3 a CA5 yn gyffredinol gadarn a bod y tueddiadau diweddar yn awgrymu bod pethau wedi cyrraedd gwastatir yn y CS a CA2, gyda gwelliannau pellach yn CA3. Fodd bynnag, perfformiad digonol yn unig a welwyd yn CA4 yn 2015.

Mae mwy o gynnydd ar lefel genedlaethol wedi'i wneud rhwng 2013>2015 ar draws y prif ddangosyddion ym mhob cyfnod allweddol [ac eithrio CA3] ac mae amrywiadau o hyd mewn perfformiad rhwng ysgolion yn y ddau sector, ar draws y rhanbarth. Mae gormod o ysgolion unigol gyda pherfformiad treigl yn y prif ddangosyddion sy'n is na'r canolrif o ran meincnodau PYD cenedlaethol. Mae strategaethau penodol wedi eu gweithredu gyda sefydliadau sydd â hanes o danberfformio [gan gynnwys mabwysiadu cynlluniau gwella ansawdd a chytuno ar amserlen dynn a rheolaidd o fonitro a herio] sydd wedi arwain at welliannau da i ganran sylweddol ohonynt. Gyda lleiafrif o'r ysgolion hynny'n gwneud cynnydd anfoddhaol mae'r Awdurdodau, mewn cydweithrediad llawn â GwE, wedi gweithredu'n unol â'r pwerau a'r cyfrifoldebau a ddiffinnir yn y Cytundeb Partneriaeth rhwng Ysgolion a'r Awdurdod Lleol [Adran 197 Deddf Addysg 2007].

Yr her fwyaf o hyd yw gwella perfformiad mewn nifer o ysgolion uwchradd targed, ac atgyfnerthu'r gwelliant diweddar a fu mewn nifer o ysgolion eraill yn ogystal â sicrhau bod safonau ac arweinyddiaeth yn gwella ar draws yr ysgolion cynradd sy'n tanberfformio. Mae'r gweithredu dwys a phwrpasol yn yr ysgolion hyn ers 2013 yn adlewyrchu ymrwymiad yr awdurdodau ac Uwch Dîm Rheoli GwE i sicrhau gwelliannau ar gyfer pob dysgwr, ble bynnag y lleolir hwynt yn y rhanbarth.

Perfformiad yn y prif ddangosydd ar ddiwedd pob cyfnod allweddol:

Dangosydd	2014		+/-	2015		+/-	Cynnydd 2013>2015		Cynnydd 2014>2015	
	GwE	Cymru		GwE	Cymru		GwE	Cymru	GwE	Cymru
DCS	84.5	85.2	-0.7	85.9	86.8	-0.9	2.4	3.8	1.4	1.6
DPC CA2	85.7	86.1	-0.4	88.2	87.7	0.5	0.1	1.8	2.5	1.6
DPC CA3	83.8	81	2.8	86.1	83.9	2.2	5.1	4	2.3	2.9
TL2+	57.1	55.4	1.7	57.1	58	0.7	1	2.4	0	2.6

Ar sail yr ystadegau uchod, a'r gymhariaeth a'r sefyllfa genedlaethol, mae perfformiad rhanbarth GwE yn y prif ddangosydd yn dda yn CA2 a CA3, ond yn ddigonol yn unig yn y CS a CA4. Erbyn 2015, mae'r prif ddangosydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn CA2 a CA3 ac mae'r cynnydd 2014>2015 yn dda. Mae'r prif ddangosydd CS yn parhau yn is na chyfartaledd Cymru ac yn CA4 mae'r perfformiad yn is na Chymru am y tro cyntaf mewn tair blynedd. Yn ogystal mae'r cynnydd ar lefel cenedlaethol yn rhagori ar gyfraddau gwella lleol.

Fodd bynnag, amlygodd gyfeiriad cenedlaethol yr angen am gyfnod lle nad oes fawr ddim newid mewn Asesiadau Athrawon ar draws Cymru a phroses cymedroli a dilysu mwy grymus. Erys manwl gywirdeb asesiad athro yn bryder cenedlaethol ac mae hyn yn faes sy'n parhau i fod angen sylw ar draws y rhanbarth.

CYFNOD SYLFAEN

[ASESIADAU ATHRAWON]

Barn Gryno CS:

Mae'r ystadegau yn awgrymu perfformiad digonol yn unig yn y Cyfnod Sylfaen gan fod y ganran llwyddiant yn parhau yn is na'r ganran genedlaethol. Mae'r cyfraddau gwella lleol hefyd yn is na'r cynnydd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae pryder yn genedlaethol am gywirdeb asesiadau athrawon ac mae angen gwneud gwaith pellach i gryfhau trefniadau asesu, safoni a chymedroli yn lleol ac yn genedlaethol.

DANGOSYDD CYFNOD SYLFAEN (DCS)

DCS	2013	2014	2015	2013-15 [+/-]	2014-15 [+/-]
GwE	83.5%	84.5%	85.9%	2.4%	1.4%
CSC	81.9%	84.1%	87.6%	5.7%	3.5%
EAS	86.2%	88.2%	88.0%	1.8%	-0.2%
ERW	82.4%	85.7%	87.1%	4.7%	1.4%
Cymru	83.0%	85.2%	86.8%	3.8%	1.6%

DCS	2013	2014	2015	2013-15 [+/-]	2014-15 [+/-]
Gwynedd	82.8%	85.2%	86.8%	4.0%	1.5%
Môn	85.8%	84.6%	86.2%	0.4%	1.6%
Conwy	80.4%	84.5%	82.9%	2.5%	-1.6%
Dinbych	84.9%	86.1%	86.4%	1.5%	0.3%
Fflint	84.4%	84.5%	87.0%	2.6%	2.5%
Wrecsam	83.4%	82.9%	85.5%	2.1%	2.6%
GwE	83.5%	84.5%	85.9%	2.4%	1.4%
Cymru	83.0%	85.2%	86.8%	3.8%	1.6%

DCS : DISGYBLION PYD

DCS - PYD	2013	2014	2015	2013-15 [+/-]	2014-15 [+/-]
Gwynedd	70.2%	71.0%	75.4%	5.2%	4.4%
Môn	71.3%	67.4%	77.1%	5.8%	9.7%
Conwy	67.3%	71.7%	69.0%	1.7%	-2.7%
Dinbych	74.7%	75.9%	73.4%	-1.3%	-2.5%
Fflint	67.8%	69.3%	71.2%	3.4%	1.9%
Wrecsam	67.4%	68.9%	69.2%	1.8%	0.2%
GwE	69.5%	70.8%	72.0%	2.5%	1.2%
Cymru	69.2%	72.4%	x	x	x

Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS)

- Gwelwyd cynnydd pellach yn y ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r DCS yn 2015 (85.9% - sef cynnydd o 2.4% ers 2013) ond mae'r ganran yn parhau i fod yr isaf ymhlith y consortia rhanbarthol (amrediad 85.9% i 88.0%). Gwelwyd cynnydd ar draws pob Awdurdod Lleol (+0.4% i +4.0%) yn ystod y cyfnod 2013>2014 ond, ymhob achos, ac eithrio Gwynedd, mae'r cynnydd hwn yn is na chyfartaledd Cymru.
- Rhwng 2013>2015, roedd cynnydd sylweddol yn y ganran o ddisgyblion PYD sy'n cyflawni'r dangosydd yng Ngwynedd (+5.2%) a Môn (+5.8%) ond anghyson yw'r cynnydd ar draws y rhanbarth, gyda 4 ALL yn dangos cynnydd a 2 yn dangos gostyngiad rhwng 2014>2015.
- Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y Lefel disgwylidig (Deilliant 5+) mewn Cymraeg, Saesneg a Datblygiad Mathemategol yn parhau i wella ac mae cynnydd positif ym mhob un o'r dangosyddion rhwng 2014 a 2015. Mae'r cynnydd hwn yn debyg i'r hyn a welir ar draws y consortia rhanbarthol.
- Lefelau uwch (Deilliant 6+) – gwelwyd cynnydd pellach ar draws y dangosyddion yn rhanbarthol o'i gymharu â 2014, er bod y cynnydd mewn Cymraeg a Saesneg ychydig yn is na chyfartaledd Cymru. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y ganran Deilliant 5+ mewn Saesneg yng Ngwynedd (+13.5%) ond gostyngiad yn y ganran Deilliant 6+ (-8.7%).
- Mae perfformiad y genethod yn rhagori ar y bechgyn ar draws yr holl ddangosyddion er bod y bwlch yn llai mewn Datblygiad Mathemategol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae'r bwlch ar gyfer y DCS (8.3% yn 2015) yn adlewyrchu'r sefyllfa yn genedlaethol (8.5% yn y cyfnod 2013-2015). Mae'r bwlch cynnar yma yn parhau yn destun pryder.
- O safbwynt y prif ddangosyddion a'r meincnodau PYD, mae sawl ysgol yn gyson yn chwarteli 3 a 4. Mae angen eu herio, eu cefnogi a'u monitro yn rheolaidd er mwyn sicrhau gwelliannau.

CYFNOD ALLWEDDOL 2

[ASESIADAU ATHRAWON]

Barn Gryno CA2:

Mae'r cynnydd yn y ganran rhanbarthol ar gyfer y DPC, sy'n bron i 2% yn uwch na chyfartaledd Cymru yn 2015, yn cynrychioli perfformiad da yn CA2. Mae'r cynnydd yn gyson ar draws awdurdodau'r rhanbarth ac mae'r ystadegau ar gyfer y disgyblion PYD hefyd yn dda mewn cymhariaeth a'r rhanbarthau eraill a chyfartaledd Cymru. Yr un yw'r negesuon bositif sy'n deillio o'r canrannau llwyddiant yn y pynciau craidd yn CA2. Fodd bynnag, fel gyda'r Cyfnod Sylfaen mae pryder yn genedlaethol am gywirdeb asesiadau athrawon ac mae angen gwneud gwaith pellach i gryfhau trefniadau asesu, safoni a chymedroli yn lleol ac yn genedlaethol.

CA2: DANGOSYDD PYNCIAU CRAIDD (DPC)

DPC	2013	2014	2015	2013-15 [+/-]	2014-15 [+/-]
GwE	85.5%	85.7%	88.2%	2.7%	2.5%
CSC	83.3%	85.8%	87.8%	4.5%	2.0%
EAS	85.7%	87.0%	88.1%	2.4%	1.1%
ERW	84.5%	87.3%	88.3%	3.8%	1.0%
Cymru	84.3%	86.1%	87.7%	3.4%	1.6%

DPC	2013	2014	2015	2013-15 [+/-]	2014-15 [+/-]
Gwynedd	86.6%	86.0%	89.5%	2.9%	3.5%
Môn	88.0%	87.8%	91.8%	3.8%	4.0%
Conwy	83.1%	84.3%	85.8%	2.7%	1.6%
Dinbych	86.0%	86.6%	87.9%	1.9%	1.3%
Fflint	85.0%	86.1%	87.9%	2.9%	1.8%
Wrecsam	85.4%	84.2%	87.7%	2.3%	3.5%
GwE	85.5%	85.7%	88.2%	2.7%	2.5%
Cymru	84.3%	86.1%	87.7%	3.4%	1.6%

CA2: DPC : DISGYBLION PYD

DPC - PYD	2013	2014	2015	2013-15 [+/-]	2014-15 [+/-]
Gwynedd	70.4%	76.6%	75.7%	5.3%	-0.9%
Môn	78.5%	79.3%	78.7%	-0.6%	-0.7%
Conwy	68.9%	66.7%	69.9%	1.0%	3.3%
Dinbych	77.1%	73.0%	79.0%	1.9%	6.0%
Fflint	71.5%	71.6%	72.0%	0.5%	0.4%
Wrecsam	68.5%	65.8%	74.3%	5.8%	8.6%
GwE	72.2%	71.1%	74.6%	2.4%	3.5%
Cymru	69.8%	71.9%	x	x	x

Dangosydd Pynciau Craidd

- Gwelwyd cynnydd pellach yn y ganran sy'n cyflawni'r DPC o 2.5% rhwng 2014>2015 yn sicrhau bod y ganran llwyddiant rhanbarthol (GwE) o 88.2% yn uwch na chyfartaledd Cymru (87.7%) a'r ail orau ymysg rhanbarthau Cymru. Cynnydd o 2.7% yn ystod y cyfnod 2013>2015 (Cymru 3.4%)
- Cynnydd arwyddocaol ar draws pob un o Awdurdodau'r rhanbarth rhwng 2014 a 2015, yn amrywio o 1.3% (Dinbych) i 4.0% (Môn). Mae'r cynnydd hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru ymhob Awdurdod ac eithrio Dinbych.
- DPC ar gyfer disgyblion PYD wedi cynyddu i 74.6% yn 2015, sy'n cymharu'n ffafriol gyda chyfartaledd Cymru (71.9% yn 2014). Mae'r cynnydd sylweddol yn Awdurdodau Wrecsam (+8.6%) a Dinbych (+6.0%) yn dda.
- Mae'r bwlch rhwng perfformiad y genethod a'r bechgyn (5.6%) yn is na chyfartaledd Cymru (5.8%) a'r isaf ond un ymysg y rhanbarthau.

Pynciau Craidd

Yn gyffredinol, mae'r canrannau llwyddiant ar L4+ a L5+ wedi gwella ar gyfer pob pwnc craidd yn ystod y cyfnod 2013-2015 ac mae'r cynnydd hwn yn cymharu'n eithaf ffafriol gyda'r sefyllfa'n genedlaethol. Mae angen parhau gyda'r her briodol i'r ysgolion unigol sy'n gyson yn perfformio islaw'r canolrif o ran meincnodau PYD cenedlaethol.

- Cymraeg** - mae'r ganran sy'n cyrraedd L4+ erbyn diwedd CA2 wedi cynyddu i 89.7% erbyn 2015 (Cymru-90.5%), sef cynnydd o 6.8% ers 2013 (Cymru - 7.6%). Ymysg yr Awdurdodau eleni mae'r cynnydd fwyaf ym Môn (+6.2%) a Dinbych (+5.5%) a'r gostyngiad fwyaf yn Fflint (-3.6%). Ar lefel 5+ mae'r ganran llwyddiant o 38.4% yn cynrychioli cynnydd o 6.8% ers 2013 ac mae'r canrannau L5+ wedi bod yn uwch na chyfartaleddau Cymru am y tair blynedd diwethaf.
- Saesneg** - mae'r ganran L4+ wedi cynyddu i 90.0% erbyn 2015 ac mae'r canlyniad yma yn uwch na chyfartaledd Cymru am y drydedd flwyddyn yn olynol. Mae'r cynnydd hwn yn eithaf cyson ar draws Awdurdodau'r rhanbarth, gyda phob Awdurdod yn dangos cynnydd yn ystod y cyfnod 2013-2015. Ar lefel 5+ mae'r ganran yn parhau i gynyddu ym mhob awdurdod ac mae'r cynnydd rhanbarthol yn 2014-2015 (+3.6%) yn well na chyfartaledd Cymru (+2.8%). Serch hynny, mae'r ganran L5+ (40.2%) yn is na chanran Cymru (40.8%). Mae cynnydd arwyddocaol yng nghanlyniadau Gwynedd a Môn eleni.
- Mathemateg** - mae'r ganran L4+ wedi cynyddu i 90.8% yn 2015 (cynnydd o +2.4% ers 2014), sef yr uchaf ymysg rhanbarthau Cymru. Mae'r cynnydd hwn yn gyson ar draws Awdurdodau'r Gogledd, ac mae cynnydd

arwyddocaol hefyd yn y niferoedd sy'n cyrraedd lefel 5+ erbyn diwedd CA2 (+2.8% ers 2004 a +4.2% yn ystod y cyfnod 2013-2015). Mae'r bwlch rhwng perfformiad y merched a bechgyn yn llai mewn mathemateg, sef 3.3% yn 2015 (3.7% - Cymru gyfan).

- **Gwyddoniaeth** - 92.1% o ddisgyblion CA2 yn cyrraedd L4+ yn 2015, sef yr uchaf ymysg rhanbarthau Cymru. Cynnydd cyson ar draws yr Awdurdodau, er bod mwy o amrywiaeth yn y niferoedd sy'n llwyddo i gyrraedd L5+. Mae'r ganran ar gyfer y rhanbarth (40.8%) ychydig yn is na chyfartaledd Cymru (41.1%). Mae'r bwlch rhwng perfformiad y merched a'r bechgyn ar L4+ a L5+ yn debyg iawn i Fathemateg ac yn is na chyfartaledd Cymru.

CYFNOD ALLWEDDOL 3

[ASESIADAU ATHRAWON]

Barn Gryno CA3:

Mae'r ystadegau yn gadarn iawn ac yn awgrymu perfformiad da ar draws y rhanbarth. Mae'r DPC yn uwch na chyfartaledd Cymru ym mhob awdurdod yn rhanbarth GwE am y drydedd flwyddyn yn olynol. Fodd bynnag, yn sgil y deilliannau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, mae pryder am ddibynadwydd yr asesiadau diwedd cyfnod allweddol.

DANGOSYDD PYNCIAU CRAIDD (DPC)

DPC	2013	2014	2015	2013-15 [+/-]	2014-15 [+/-]
GwE	78.60%	83.80%	86.10%	7.50%	2.30%
CSC	76.10%	80.30%	83.60%	7.50%	3.30%
EAS	75.70%	79.00%	82.20%	6.50%	3.20%
ERW	78.10%	81.70%	84.30%	6.20%	2.60%
Cymru	77.00%	81.00%	83.90%	6.90%	2.90%

DPC	2013	2014	2015	2013-15 [+/-]	2014-15 [+/-]
Gwynedd	85.4%	89.1%	91.3%	5.9%	2.2%
Môn	81.5%	83.6%	84.5%	3.0%	0.9%
Conwy	78.5%	83.7%	87.2%	8.7%	3.5%
Dinbych	75.0%	83.2%	84.3%	9.3%	1.1%
Fflint	80.0%	84.3%	87.1%	7.1%	2.8%
Wrecsam	72.2%	78.4%	80.9%	8.7%	2.5%
GwE	78.6%	83.8%	86.1%	7.5%	2.3%
Cymru	77.0%	81.0%	83.9%	6.9%	2.9%

CA3: DPC : DISGYBLION PYD

DPC - PYD	2013	2014	2015	2013-15 [+/-]	2014-15 [+/-]
Gwynedd	65.4%	74.6%	78.3%	12.9%	3.6%
Môn	61.2%	70.2%	71.3%	10.1%	1.1%
Conwy	56.0%	70.5%	70.1%	14.1%	-0.4%
Dinbych	47.7%	66.3%	63.2%	15.5%	-3.1%
Fflint	58.2%	65.1%	71.6%	13.4%	6.5%
Wrecsam	45.2%	50.5%	56.0%	10.8%	5.5%
GwE	54.4%	65.2%	67.7%	13.3%	2.5%
Cymru	53.8%	61.3%	x	x	x

Dangosydd Pynciau Craidd

- Gwelwyd canlyniadau da ar draws rhanbarth GwE yn 2015 ac, am y drydedd flwyddyn yn olynol, mae canran llwyddiant DPC (86.1%) yr uchaf ymysg rhanbarthau Cymru. Mae'r cynnydd yn ystod y cyfnod treigl 2013-2015 (+7.5%) hefyd yr uchaf yng Nghymru.
- Mae'r canrannau ar gyfer y DPC yn amrywio o fewn y rhanbarth o Wrecsam (80.9% yn 2015) i Wynedd (91.3%) ond, yn ddieithriad, mae'r cynnydd ar draws y rhanbarth, sy'n amrywio o +3.0% ym Môn i 9.3% yn Ninbych, yn gadarn iawn.
- Mae cynnydd da hefyd yn y ganran o ddisgyblion PYD sydd wedi cyflawni'r dangosydd yn ystod y cyfnod 2013-2015; yn amrywio o +10.1% ym Môn i 15.5% yn Ninbych. Mae'r canrannau llwyddiant erbyn 2015 yn uwch na chyfartaledd Cymru ym mhob un o Awdurdodau'r rhanbarth.
- Mae'r bwlch rhwng perfformiad y merched a'r bechgyn yn 8.2% erbyn 2015, ac er bod hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yn genedlaethol, mae'r cynnydd yn y bwlch rhwng CA2 a CA3 yn parhau yn destun pryder.

Pynciau Craidd

Mae'r canrannau llwyddiant ar L5+ a L6+ wedi gwella ar gyfer pob pwnc craidd yn ystod y cyfnod 2013-2015 ac mae'r cynnydd hwn yn cymharu'n ffafriol gyda'r sefyllfa'n genedlaethol. Mae angen parhau gyda'r sialens briodol i'r ysgolion unigol sy'n gyson yn perfformio islaw'r canolrif o ran meincnodau PYD cenedlaethol.

- Cymraeg** - Canran L5+ yn rhanbarth GwE yn 2015 (92.3%) ydi'r uchaf yng Nghymru ac mae'r cynnydd o 3.7% ers 2013 yr ail uchaf. Mae'r ganran llwyddiant ymysg Awdurdodau'r Gogledd yn uwch na chyfartaledd Cymru ym mhob achos, ac eithrio Fflint (80.0% o'i gymharu â 90.9% yng Nghymru a 92.3% yn rhanbarth GwE). Serch hynny, mae'r cynnydd o +24.0% eleni yn Fflint yn galonogol er fod niferoedd yn isel ac mae cynnydd arwyddocaol ym mhob un o'r Awdurdodau yn ystod y cyfnod treigl 2013-2015 (ac eithrio Conwy). Ar L6+ mae'r ganran llwyddiant rhanbarth GwE (59.8%) yn rhagori ar gyfartaledd Cymru (56.1%) ac mae'r cynnydd o 12.2% ers 2013 hefyd uwchlaw Cymru. Yn 2015 mae'r bwlch rhwng y merched a'r bechgyn yn 4.9% o'i gymharu â 7.0% ar draws Cymru.
- Saesneg** - Canran L5+ (89.5%) eto'r uchaf ymysg rhanbarthau Cymru a'r cynnydd yn ystod y cyfnod 2013-2015 yn eithaf cyson ar draws awdurdodau'r Gogledd. Erbyn 2015 mae'r ganran L5+ yn uwch na chyfartaledd Cymru ym mhob Awdurdod ac eithrio Wrecsam. Serch hynny, mae'r cynnydd o +7.0% yn Wrecsam yn ystod y cyfnod 2013-2015 yn uwch na chyfartaledd Cymru (+5%). Ar L6+ mae'r ganran yn rhanbarth GwE yn 54.5%, sef cynnydd o 11.1% ers 2013, o'i gymharu â 52.6% ar draws Cymru. Mae'r

cynnydd hwn yn gyson ar draws yr Awdurdodau gyda'r cynnydd fwyaf yng Nghonwy (+14.6%) a'r lleiaf yng Ngwynedd (+5%) yn ystod y cyfnod treigl 2013-2015. Yn 2015 mae'r bwlch rhwng y genethod a'r bechgyn yn 8.8%, sydd ychydig yn uwch na Chymru (8.2%) ac yn destun pryder.

- **Mathemateg** – Ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf mae'r ganran sydd wedi cyflawni L5+ mewn Mathemateg yn rhanbarth GwE wedi bod yn uwch na phob rhanbarth arall yng Nghymru. Dyma'r darlun ar L6+ hefyd (GwE- 62.1% a Chymru - 59.5% erbyn 2015). Mae'r cynnydd ar L5+ a L6+ yn sylweddol ym mhob un o Awdurdodau'r Gogledd ers 2013 e.e. cynnydd ar L6+ yn amrywio o +4.8% (Conwy) i +8.0% (Gwynedd). Mae'r bwlch rhwng y merched a'r bechgyn ar L5+ yn llai mewn mathemateg ac yn debyg iawn i'r darlun yn genedlaethol.
- **Gwyddoniaeth** - mae'r sefyllfa yn debyg iawn i Fathemateg gyda 93.7% o ddisgyblion yn cyflawni L5+ erbyn 2015 (Cymru - 91.8%), sef yr uchaf ymysg y rhanbarthau am 3 blynedd yn olynol. L6+ hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru yn ystod y cyfnod 2013-2015. Perfformiad yn gyson dda ar draws Awdurdodau'r Gogledd a chynnydd arwyddocaol ar L5+ a L6+ ym mhob awdurdod yn ystod y cyfnod 2013-2015. Bwlch rhwng y merched a'r bechgyn (4%) yn debyg iawn i weddill Cymru.

CYFNOD ALLWEDDOL 4 [CANLYNIADAU DROS DRO]

Barn Gryno CA4:

Yn gyffredinol, digonol yw'r perfformiad yn CA4. Ni welwyd cynnydd yn y prif ddangosydd (TL2+) 2014>2015. Nid yw hyn yn cyd-fynd a'r gwelliant cenedlaethol a'r cynnydd ym mhob un o'r rhanbarthau eraill ac mae hyn yn annerbyniol.

- Ar gyfartaledd, mae ysgolion categori oren/coch wedi gwella +3.5% ers 2014 ac mae gwelliant sylweddol yng nghanlyniadau rhai ysgolion unigol. Mae hyn yn adlewyrchu effeithiolrwydd y rhaglenni ymyrraeth sydd ar waith yn yr ysgolion perthnasol. Serch hynny, ni welwyd y cynnydd disgwyledig mewn canran bychan o'r ysgolion hynny.
- Siomedig ar y cyfan oedd perfformiad nifer o ysgolion categori gwyrdd a melyn. Roedd tanberfformio mewn nifer o ysgolion unigol, hyn yn annisgwyl o ystyried eu perfformiad a chynnydd hanesyddol.
- Gwelwyd amrywiaeth sylweddol ym mherfformiad nifer sylweddol o ysgolion dros gyfnod o dair blynedd. Mae hyn yn destun pryder, yn enwedig mewn ysgolion gymharol fawr.
- Mae gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y targedau/amcangyfrifon terfynol a'r gwir berfformiad mewn nifer o ysgolion. Mae hyn yn annerbyniol.
- Mae gwahaniaethau sylweddol mewn perfformiad yr Awdurdodau o fewn rhanbarth GwE, gan gynnwys amrywiaethau o safbwynt y cynnydd rhwng 2013>2015 a 2014>2015. Mae'r perfformiad uchaf TL2+ yng Ngwynedd (63.1% yn 2015) a'r cynnydd fwyaf 2014>2015 ym Môn (+2.8%). Serch hynny, mae perfformiad rhai ysgolion unigol yng Ngwynedd a Môn yn destun pryder. Yn Sir Ddinbych ni welwyd fawr ddim cynnydd yn y TL2+ rhwng 2014 a 2015 ac, er bod rhai ysgolion unigol o fewn yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd da, siomedig ydi'r canlyniadau ar gyfer y sir yn ei gyfanrwydd. Mae rhai ysgolion wedi tanberfformio yn 2015, yn enwedig o ystyried y gwelliant a welwyd yn 2014. Mae Sir Fflint wedi perfformio'n dda yn hanesyddol ond, yn 2015, gwelwyd gostyngiad arwyddocaol ym mherfformiad nifer o ysgolion y sir. Yng Nghonwy, mae'r TL2+ wedi gostwng -1.6% o ganlyniad i berfformiad siomedig mwyafrif ysgolion y sir. Er bod ychydig o gynnydd pellach yn y TL2+ (0.5%) yn Wrecsam yn 2015, mae perfformiad rhai ysgolion unigol yn parhau yn destun pryder mawr.
- Mae perfformiad disgyblion PYD yn 2015 yn siomedig ym mwyafrif Awdurdodau'r Gogledd a dim ond yng Nghonwy (5%) a Dinbych (4%) y gwelwyd unrhyw gynnydd yn y TL2+ rhwng 2014 a 2015. Mae hyn yn codi cwestiwn ynglŷn â'r defnydd a wneir o'r Grant Amddifadedd.
- Mae'r pryder yn parhau ynglŷn â chanlyniadau Saesneg a Mathemateg TGAU mewn nifer o ysgolion ar draws rhanbarth GwE. Nid yw nifer sylweddol o ddisgyblion yn llwyddo i ennill graddau A*-C yn y ddau bwnc craidd yma.
- Mae cynnwys cymhwyster BTEC wedi arwain at ganrannau llwyddiant sy'n ymddangos yn dda iawn mewn Gwyddoniaeth. Serch hynny, nid yw'r canrannau llwyddiant mewn Gwyddoniaeth TGAU'r un mor bositif mewn nifer o ysgolion ar draws Awdurdodau'r Gogledd. O 2017 ymlaen ni fydd y cymhwyster BTEC yn cyfrannu i'r dangosyddion allweddol - mae hyn yn debygol o greu sialens enfawr i nifer o ysgolion os am gynnal y perfformiad ymddangosiadol presennol.

CA4 – CRYNODEB

	2012/13					2013/14					2014/15					CYNNYDD					
	Nifer	% L1	% L2	% L2+	% DPC	Nifer	% L1	% L2	% L2+	% DPC	N	% L1	% L2	% L2+	% DPC	TL2+		TL2		TL1	
																2013 >15	2014 >15	2013 >15	2014 >15	2013 >15	2014 >15
CYMRU	36617	93	78	52.7	49.2	35168	94	82	55.4	52.6	X	94	83	58	54	5.3%	2.6%	5.2%	0.7%	0.8%	0.0%
GwE	7747	95	81	56	52.9	7450	95	84	57.1	54.8	X	96	81	57.1	54.9	1.1%	0.0%	-0.4%	-3.2%	1.1%	0.6%
Ynys Môn	727	97	83	54.2	50.6	653	96	86	53.8	52.5	X	97	83	56.6	54	2.4%	2.8%	-0.2%	-2.6%	-0.9%	0.5%
Gwynedd	1409	97	82	58	57.3	1329	97	88	61.1	60.5	X	98	89	63.1	62	5.1%	2.0%	7.5%	1.3%	0.9%	0.8%
Conwy	1267	95	85	56	52.6	1208	96	86	55.5	52.7	X	96	83	53.9	51	-2.1%	-1.6%	-1.6%	-2.8%	0.7%	0.4%
Dinbych	1254	94	86	53.4	49	1251	95	89	55.6	54	X	95	86	55.7	52	2.3%	0.1%	0.3%	-2.8%	1.4%	-0.2%
Fflint	1810	94	80	62.2	59	1736	94	83	61.9	58.3	X	94	81	60	58	-2.2%	-1.9%	1.4%	-1.7%	0.0%	0.2%
Wrecsam	1280	91	73	48.4	44.8	1273	93	74	51	47.8	X	93	71	51.5	48	3.1%	0.5%	-2.4%	-2.9%	2.1%	-0.1%
ERW	10102	95	81	55.6	52.4	9770	96	86	57.9	55.1	X	X	X	60.7	X	5.1%	2.8%				
CSC	10646	93	76	49.4	46.8	10212	94	81	54.1	52.2	X	X	X	58.2	X	8.8%	4.1%				
EAS	7119	92	73	49	45.8	6712	94	80	52.2	50	X	X	X	54.7	X	5.7%	2.5%				

CA4 – TL2+

Rhanbarth	TL2+ 2014	TL2+ 2015	+/-
GwE	57.1%	57.1%	0%
CSC	54.1%	58.2%	4.1%
EAS	52.2%	54.7%	2.5%
ERW	58.0%	60.7%	2.7%

ALI	TL2+ 2014	TL2+ 2015	+/-
Môn	53.8%	56.6%	2.8%
Gwynedd	61.10%	63.1%	2.0%
Conwy	55.5%	53.9%	1.6%
Dinbych	55.6%	55.7%	0.1%
Fflint	61.9%	60.0%	1.9%
Wrecsam	51.0%	51.5%	0.5%

CA4 DISGYBLION PYD

ALI	PYD L2+ 2014	PYD L2+ 2015	+/-
Môn	41.40%	35.90%	-5.50%
Gwynedd	32.00%	31.80%	-0.20%
Conwy	25.30%	30.30%	5.00%
Dinbych	25.90%	29.90%	4.00%
Fflint	37.30%	35.20%	-2.10%
Wrecsam	26.70%	19.60%	-7.10%
GwE	30.50%	29.60%	-0.90%
Cymru	27.20%	X	X

Trothwy Lefel 2+ (TL2+)

- Gwelwyd cynnydd o 1.1% yn rhanbarth GwE yn ystod y cyfnod 2013>2015 (i 57.1%) ond dim cynnydd rhwng 2014 a 2015. Mae'r cynnydd yn y consortia eraill yn sylweddol uwch ac mae'r cyfartaledd ar draws Cymru yn +5.2% (2013>2015) a +2.6% (2014>2015). Mae'r ganran sy'n cyflawni'r dangosydd allweddol hwn yn rhanbarth GwE (57.1% yn 2015) yn gosod GwE yn drydedd ymysg y 4 rhanbarth a hefyd yn is na chyfartaledd Cymru (58%) am y tro cyntaf ers 3 blynedd. Digonol yn unig yw'r safonau o safbwynt TL2+.
- Awdurdodau Rhanbarth GwE** - Mae'r cynnydd o +2.8% (2014>2015) ym Môn i 56.6% yn gadarn, gyda chynnydd i'w weld hefyd yng Ngwynedd (+2.0% i 63.1%) ac i raddau llai yn Wrecsam (+0.5% i 52.4%). Yn Ninbych yn 2015 mae'r TL2+ (55.7%) yn debyg iawn i'r hyn welwyd yn 2014. Mae'r gostyngiad yng Nghonwy (-1.6% i 53.9%) ac yn Fflint (-1.9% i 60.0%) yn siomedig iawn. Yn ystod y cyfnod treigl 2013>2015, mae'r cynnydd/gostyngiad yn amrywio o -2.2% (Fflint) i +5.1% (Gwynedd) ond nid yw'r cynnydd mewn unrhyw Awdurdod yn rhanbarth GwE yn uwch na chyfartaledd Cymru (+5.3%).
- Mae canran y merched sy'n cyrraedd y Trothwy Lefel 2+ yn sylweddol uwch na'r bechgyn ac, o fewn rhanbarth GwE yn 2015, mae'r bwlch yn amrywio o 2% yng Ngwynedd i 12% yng Nghonwy. Yn 2015, roedd y bwlch yng Nghymru gyfan yn 7%.
- Mae gostyngiad o 0.9% yn y ganran o ddisgyblion PYD sy'n cyflawni TL2+ (2014>2015) yn rhanbarth GwE. Mae'r ganran hwn is na chyfartaledd Cymru. Roedd y cynnydd fwyaf yng Nghonwy (+5.0% i 30.3%) a'r gostyngiad fwyaf yn Wrecsam (-7.1% i 19.6%). Dim ond yn awdurdodau Conwy a Dinbych y gwelwyd cynnydd ym mherfformiad dysgwyr PYD yn y TL2+ rhwng 2014>2015.
- Mae'r ystadegau ar gyfer y Dangosydd Pynciau Craidd yn dangos yr un tueddiadau a TL2+. Mae'r canrannau ar gyfer y DPC 2-3% yn is na TL2+ ar draws y rhanbarth.

Trothwy Lefel 2 (TL2)

- Yn ystod y cyfnod treigl 2013>2015, dim ond yng Ngwynedd y gwelwyd cynnydd sylweddol yn y ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni gofynion Trothwy Lefel 2 (+7.5% i 89.0%) o'i gymharu â'r cynnydd yng Nghymru (+5.2% i 83.0%). Ac eithrio Gwynedd a Dinbych (cynnydd +0.3% i 86.0%) mae'r ganran TL2 ym mhob awdurdod arall yn y Gogledd yn gyfartal neu'n is na chyfartaledd Cymru. Mae'r gostyngiad yn 2014>2015 ym Môn (-2.6%), Fflint (-1.7%), Conwy (-2.8%) a Wrecsam (-2.9%) yn siomedig.
- Mae'r bwlch rhwng perfformiad y merched a'r bechgyn yn adlewyrchu'r bwlch cenedlaethol yn 2015 (7% o blaid y merched).

Trothwy Lefel (TL1)

- Erbyn 2015 mae'r ganran sy'n cyflawni Trothwy Lefel 1 yn uwch na chyfartaledd Cymru (94.0%) ym mhob un o Awdurdodau'r Gogledd ac eithrio Wrecsam (cynnydd o +2.1% yn 2013>2015 i 93.0%). Mae'r cynnydd hwn yn dda ac yn adlewyrchu natur gynhwysol ysgolion y rhanbarth yn ogystal â'r ffaith bod dros 99% o ddisgyblion y rhanbarth wedi eu cofrestru am o leiaf un cymhwyster yn 2015.

Sgôr Pwyntiau wedi'i Gapio

SPC	2013	2014	2015	2013-15 [+/-]	2014-15 [+/-]
Gwynedd	353.4	362.2	362.0	8.6	-0.2
Môn	358.5	357.2	351.0	-7.5	-6.2
Conwy	339.9	346.0	339.0	-0.9	-7.0
Dinbych	345.3	351.8	344.0	-1.3	-7.8
Fflint	337.1	341.5	338.0	0.9	-3.5
Wrecsam	323.5	329.3	325.0	1.5	-4.3
GwE				0.0	0.0
Cymru	333.1	340.8	342.0	8.9	1.2

- Ac eithrio Wrecsam, mae sgôr cyfartalog pob Awdurdod yn Rhanbarth GwE wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru yn 2013 a 2014. Bu gostyngiad ym mhob Awdurdod yn 2015 ac erbyn hyn dim ond Gwynedd, Môn a Dinbych sy'n uwch na chyfartaledd Cymru.
- Mae'r gostyngiad ym Môn, Conwy a Dinbych yn 2015 yn siomedig ac mae'r data yn adlewyrchu perfformiad digonol ar draws rhanbarth GwE yn 2015.
- Yn 2015, mae'r bwlch rhwng perfformiad y merched a'r bechgyn yn amrywio o 13 pwynt (Môn) i 27 pwynt (Wrecsam). Mae'r bwlch ar draws Cymru yn 23 pwynt yn 2015.

Pynciau Craidd - Cyfnod Allweddol 4

Cymraeg Iaith Gyntaf

	CYMRAEG A*-C				
	2013	2014	2015	CYNNYDD	
				2013>2015	2014>2015
Ynys Môn	66.4%	71.6%	72.0%	5.6%	0.4%
Gwynedd	72.8%	73.3%	79.0%	6.2%	5.7%
Conwy	71.2%	79.0%	72.0%	0.8%	-7.0%
Dinbych	69.7%	73.0%	72.0%	2.3%	-1.0%
Fflint	71.3%	59.7%	72.0%	0.7%	12.3%
Wrecsam	80.0%	69.0%	77.0%	-3.0%	8.0%
GwE	71.2%	72.7%	x	x	x
Cymru	73.5%	73.7%	75.0%	1.5%	1.3%
ERW	74.7%	73.2%	x	X	X
CSC	76.1%	75.4%	x	X	X
EAS	74.0%	76.1%	x	X	X

% YN SEFYLL CYMRAEG IAITH GYNTAF			
	2013	2014	2015
Ynys Môn	68%	70%	x
Gwynedd	80%	84%	x
Conwy	16%	16%	x
Dinbych	20%	18%	x
Fflint	6%	4%	x
Wrecsam	8%	10%	x
GwE	29%	29%	x
Cymru	15%	16%	x
ERW	18%	19%	x
CSC	10%	11%	x
EAS	5%	6%	x

- Mae'r ystadegau ar gyfer y Gymraeg yn seiliedig ar nifer yr ymgeiswyr yn hytrach na'r holl ddisgyblion o'r oedran perthnasol. Mae amrywiaeth mawr yn y ganran sy'n sefyll TGAU mewn Cymraeg Iaith Gyntaf (yn hytrach nag ail-iaith) oddi fewn i ranbarth GwE yn ogystal ag ar draws Cymru gyfan. Mae'r ganran sy'n sefyll yr arholiad iaith Gyntaf yn rhanbarth GwE wedi aros yn weddol sefydlog yn ystod y cyfnod 2013 i 2015.

- Yn ystod y cyfnod 2013>2015 mae'r ganran o ddisgyblion sy'n llwyddo i ennill cymhwyster A*-C mewn Cymraeg Iaith Gyntaf wedi cynyddu 6.2% yng Ngwynedd i 79% ac wedi cynyddu 5.6% ym Môn i 72%. Mae'r ganran llwyddiant yng Nghymru wedi cynyddu 1.5% dros yr un cyfnod i 75%. Mae nifer yr ymgeiswyr o siroedd eraill y Gogledd yn llawer llai ac, yn 2014, yn amrywio o 4% o'r disgyblion yn Fflint i 18% yn Ninbych. Mae cynnydd o 8% yn y nifer o ymgeiswyr sy'n ennill A*-C yn ardal Wrecsam rhwng 2014>2015, a chynnydd o 12.3% yn Fflint.
- Mae'r bwlch rhwng perfformiad y merched a'r bechgyn yn 2015 yn amrywio o 12% yn Wrecsam a Chonwy i 25% yn Ninbych. Bwlch Cymru yn 2015 -17%.
- Mae angen parhau i gynnal y safonau yn y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4 a chynyddu nifer y disgyblion, yn enwedig y bechgyn, sy'n ennill cymhwyster Iaith Gyntaf.**

Saesneg

	SAESNEG A*-C				
	2013	2014	2015	CYNNYDD	
				2013>2015	2014>2015
Ynys Môn	61.5%	65.2%	63.0%	1.5%	-2.2%
Gwynedd	66.6%	69.2%	72.0%	5.4%	2.8%
Conwy	64.1%	65.5%	66.0%	1.9%	0.5%
Dinbych	64.4%	66.6%	66.0%	1.6%	-0.6%
Fflint	72.7%	73.3%	72.0%	-0.7%	-1.3%
Wrecsam	58.4%	61.8%	64.0%	5.6%	2.2%
GwE	65.4%	67.5%	x	x	x
Cymru	62.9%	66.1%	68.0%	5.1%	1.9%
ERW	64.7%	67.6%	x	X	X
CSC	60.5%	65.2%	x	X	X
EAS	60.1%	64.7%	x	X	X

- Yn 2015, mae'r ganran A*-C mewn Saesneg yn uwch na chyfartaledd Cymru (68%) mewn dau awdurdod yn rhanbarth GwE, sef Gwynedd (72%) a Fflint (72%) ac yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn yr awdurdodau eraill.
- Yn ystod y cyfnod 2013>2015 mae'r cynnydd o +5.6% yn Wrecsam a + 5.4% yng Ngwynedd yn dda mewn cymhariaeth a'r cynnydd o +5.1% yng Nghymru dros yr un cyfnod. Mae'r cynnydd yn yr Awdurdodau eraill yn rhanbarth GwE yn llai na chyfartaledd Cymru.
- Mae'r merched yn perfformio llawer gwell na'r bechgyn erbyn diwedd CA4 ac, yn rhanbarth GwE, mae'r bwlch yn amrywio o 14% ym Môn i 25% yng Nghonwy. Bwlch yng Nghymru yn 2015 - 17%.
- Mae angen parhau gyda'r flaenoriaeth a roddir i safonau Saesneg yn rhanbarth GwE. Mae tystiolaeth o welliant mewn nifer o ysgolion yn Wrecsam a Gwynedd ond anghyson yw'r safonau yn rhanbarth GwE. Mae'r bwlch rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched yn parhau yn gonsyrn. Digonol yw'r safonau mewn Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 4.**

Mathemateg

	MATHEMATEG A*-C				
	2013	2014	2015	CYNNYDD	
				2013>2015	2014>2015
Ynys Môn	62.2%	60.1%	64.0%	1.8%	3.9%
Gwynedd	62.2%	65.0%	67.0%	4.8%	2.0%
Conwy	66.4%	63.0%	62.0%	-4.4%	-1.0%
Dinbych	61.5%	62.8%	63.0%	1.5%	0.2%
Fflint	68.5%	68.4%	69.0%	0.5%	0.6%
Wrecsam	57.7%	57.3%	57.0%	-0.7%	-0.3%
GwE	63.5%	63.4%	x	x	x
Cymru	60.3%	61.7%	64.0%	3.7%	2.3%
ERW	63.5%	64.4%	x	X	X
CSC	56.3%	60.2%	x	X	X
EAS	56.6%	57.7%	x	X	X

- Yn 2015 mae'r ganran sy'n ennill cymhwyster A*-C mewn mathemateg yn uwch na chyfartaledd Cymru (64%) yn Fflint (69%), Gwynedd (67%), ac Ynys Môn (64.5%) ond yn is na Chymru yn Dinbych (63%), Conwy (62%) a Wrecsam (57%).
- Yn ystod y cyfnod treigl 2013>2015 gwelwyd cynnydd yn Fflint (+0.5%), Dinbych (+1.5%), Ynys Môn (+1.8%) a Gwynedd (+4.8%). Roedd gostyngiad yn Wrecsam (-0.7%) a Conwy (-4.4%). Mae'r ganran A*-C yng Nghymru yn 2015 yn 64% (cynnydd o 3.7% ers 2013).
- Nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad y merched a'r bechgyn mewn mathemateg ar draws rhanbarth GwE.
- Dengys yr ystadegau uchod bod perfformiad rhanbarth GwE mewn mathemateg yn ddigonol yn unig a bod angen cynnig her, a darparu cefnogaeth ddwys i nifer o ysgolion yn y maes allweddol hwn.

Gwyddoniaeth

	GWYDDONIAETH LEFEL 2				
	2013	2014	2015	CYNNYDD	
				2013>2015	2014>2015
Ynys Môn	79.2%	88.2%	91.0%	11.8%	2.8%
Gwynedd	84.7%	93.7%	94.0%	9.3%	0.3%
Conwy	81.4%	85.1%	84.0%	2.6%	-1.1%
Dinbych	77.3%	88.1%	81.0%	3.7%	-7.1%
Fflint	78.0%	84.0%	83.0%	5.0%	-1.0%
Wrecsam	66.9%	77.8%	76.0%	9.1%	-1.8%
GwE	77.9%	85.9%	X	X	X
Cymru	74.8%	82.3%	83.0%	8.2%	0.7%
ERW	74.7%	81.5%	X	X	X
CSC	75.0%	83.3%	X	X	X
EAS	74.4%	82.5%	X	X	X

- Yn 2015 mae'r ganran sy'n ennill cymhwyster Lefel 2 mewn gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaledd Cymru (83%) ym mhob Awdurdod yn rhanbarth GwE ac eithrio Wrecsam (76%) a Dinbych (81%).
- Yn ystod y cyfnod treigl 2013>2015 gwelwyd cynnydd da ym mhob un o awdurdodau'r Gogledd, yn amrywio o +2.6% yng Nghonwy i +11.8% yn Ynys Môn. Mae'r cynnydd yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod yn +8.2%.
- Mae'r merched yn perfformio ychydig yn well na'r bechgyn (1-3%) yn Awdurdodau'r Gogledd. 'Roedd y bwlch cenedlaethol yn 3% yn 2015.
- Mae'r cynnydd sylweddol yn y ganran sydd wedi ennill cymhwyster Lefel 2 yn lleol ac yn genedlaethol, ac yn ystadegol, gellir barnu bod y safonau yn y pwnc yn dda. Serch hynny, dylid cydnabod bod nifer fawr o ddisgyblion wedi ennill cymwysterau lefel 2 mewn cyrsiau galwedigaethol yn hytrach na chysiau TGAU traddodiadol, ac mae pryder ynglŷn â pherfformiad mewn TGAU Gwyddoniaeth mewn nifer o ysgolion o fewn pob ALL.

MATERION AR GYFER GWEITHREDU

Herio yn rymus pob ysgol sy'n perfformio yn gyson islaw canolrif meincnodau PYD mewn dangosyddion perfformiad allweddol. Cytuno ar gamau gweithredu penodol:

- ar lefel ranbarthol i dargedu agweddau cyffredin [gyda ffocws penodol ar Fathemateg a Saesneg yng nghyfnod allweddol 4 - gweler isod hefyd].
- o fewn pob ALI i dargedu ysgolion ac adrannau sy'n sefyll yn eu hunfan ac yn tanberfformio [gyda ffocws penodol ar Fathemateg a Saesneg yng nghyfnod allweddol 4 - gweler isod hefyd].

Sicrhau bod gan bob ysgol uwchradd fynediad i gefnogaeth pwnc arbenigol mewn Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 4. Bydd hyn yn golygu secondiadau pwnc/comisiynu er mwyn:

- llunio a gweithredu strategaeth ranbarthol i wella safonau cyflawniad yn y pynciau craidd
- gwella sgiliau arweinyddiaeth mewn adrannau sy'n sefyll yn eu hunfan ac yn tanberfformio
- gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu
- gwella a miniogi dealltwriaeth adrannau o asesu ac asesu ar gyfer dysgu
- gwella strategaethau tracio ac ymyriad cynnar a dulliau effeithiol o baratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau
- cydlynu rhwydwaith o Benaethiaid Adrannau er mwyn mynd i'r afael â materion cyffredin a rhannu arfer dda
- sicrhau bod pob pwnc craidd yn gweithredu'r manylebau TGAU newydd yn effeithiol

Gwella systemau a gweithdrefnau tracio ac ymyriad cynnar mewn ysgolion uwchradd i fynd i'r afael â thanberfformiad yng nghyfnod allweddol 4 trwy glustnodi rôl portffolio ar gyfer Ymgynghorydd Her arweiniol i:

- archwilio pa mor rymus yw gweithdrefnau gosod targedau, asesu a thracio, yn enwedig yn yr ysgolion hynny ble mae bwlch sylweddol rhwng targedau, amcangyfrifon perfformiad terfynol a pherfformiad gwirioneddol.
- herio a chefnogi ysgolion er sicrhau bod gweithdrefnau ymyriad cynnar yn cael eu defnyddio yn effeithiol.
- sicrhau bod pob Pennaeth, yn enwedig Penaethiaid ysgolion sy'n sefyll yn eu hunfan ac yn tanberfformio, yn herio perfformiad ac asesiadau yn rymus.

Sicrhau bod pob ysgol yn defnyddio eu Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) yn briodol er mwyn gwella perfformiad disgyblion PYD ac yn benodol ar y lefelau uchaf trwy:

- herio a monitro ysgolion ar eu defnydd o'r GAD a'i effaith ar berfformiad disgyblion PYD.
- adnabod a rhannu arfer dda er mwyn gwella perfformiad disgyblion PYD

Gwella ansawdd yr her a'r gefnogaeth a gynigir i ysgolion gan Ymgynghorwyr Her ac, o'r herwydd, sicrhau gwell cysondeb o ran ansawdd ac effaith ar draws yr hybiau trwy:

- sicrhau Rheoli Perfformiad mewnol grymus a gweithdrefnau sicrhau ansawdd ac atebolrwydd, a'u bod yn cael eu gweithredu yn gyson o fewn ac ar draws hybiau.
- asesu lefel bresennol y sefydliad o ran sgiliau a gwybodaeth a phenderfynu pa hyfforddiant/datblygiad ychwanegol sydd angen i feithrin a chynnal y sgiliau hyn.
- cynllunio a datblygu rhaglen hyfforddiant a datblygu strategol i Ymgynghorwyr Her ar gyfer 2015>2018.
- cyflwyno rhaglen ddatblygiadol i gyfoethogi dysgu a datblygiad proffesiynol grŵp targed o Ymgynghorwyr Her o fewn GwE sy'n herio a chefnogi ysgolion uwchradd.
- hyrwyddo rhannu arfer orau gyfredol yn fwy effeithiol ar draws hybiau
- defnyddio Penaethiaid uwchradd profiadol, sydd â hanes llwyddiannus mewn ysgolion uwchradd sy'n tanberfformio, i dargedu gwelliant yng nghyfnod allweddol 4.

Adolygu'r strategaeth recriwtio er sicrhau bod y gwasanaeth rhanbarthol yn gallu denu ymarferwyr uwchradd effeithiol o ansawdd uchel i rolau allweddol.

Datblygu ymhellach y system rheoli data ysgolion ranbarthol i ganiatáu defnydd cynnar ac effeithiol o ddata perfformiad a targedau o fewn ysgolion/AauLL a'r consortia rhanbarthol i:

- herio ysgolion yn rymus ar eu targedau a'u perfformiad
- casglu amcangyfrifon dangosyddion perfformiad allweddol yn dymhorol yn erbyn targedau
- herio a chefnogi ysgolion o ran dadansoddi data ac arfarnu

Sicrhau bod y model gweithredu diwygiedig rhwng GwE ac ysgolion rhanbarthol yn creu capasiti i:

- weithredu ar lefel o her a chefnogaeth sy'n briodol fanwl ar gyfer ysgolion categori melyngoch/coch er mwyn atal unrhyw ysgol rhag cael ei gosod mewn categori statudol Estyn o 2016 ymlaen.
- sicrhau her a chefnogaeth briodol i bob ysgol o fewn system hunan-wella fwy grymus.

Cryfhau gweithdrefnau i wella cysondeb a dibynadwyedd asesiad athro yn y CS, CA2 a CA3 trwy:

- ddarparu hyfforddiant a pharhau i hyrwyddo Proffiliau Dysgwr enghreifftiol
- parhau i sicrhau ansawdd cymedroli clwstwr, adolygu deilliannau prosesau dilysu allanol a briffio ysgolion i fynd i'r afael â:
 - chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Atgyfnerthu Hyder yn Asesiadau Athrawon.
 - argymhellion yr adroddiad rhanbarthol ar ddeilliannau'r broses dilysu allanol a'r enghreifftiau o arfer dda sydd wedi'u hadnabod.
- sefydlu grŵp o ymarferwyr arweiniol CS i lunio proffiliau CS enghreifftiol ar gyfer Deilliant 5 a Deilliant 6, cynhyrchu arweiniad ar gymedroli a rhannu gwybodaeth ag ysgolion.

Archwilio'r gydberthynas rhwng asesiad athro a chanlyniadau profion darllen/rhifedd er mwyn gallu targedu cefnogaeth llythrennedd a rhifedd yn well.

Penodi Uwch Ymgynghorydd Her gyda chyfrifoldeb penodol dros arwain datblygiadau a chodi safonau yn y Cyfnod Sylfaen.



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

12 TACHWEDD 2015

Adroddiad gan: Cyfarwyddwr Arweiniol GwE / Cadeirydd y Bwrdd Rheoli a'r Rheolwr Gyfarwyddwr

Pwnc: Argymhellion Estyn 2015 – Adroddiad Diweddariad ar Gynnydd (Mehefin – Hydref 2015)

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Diweddarau aelodau'r Cyd-bwyllgor ar gynnydd yn erbyn argymhellion Estyn (Mehefin 2015)

2.0 Cefndir

2.1 Ym mis Mehefin 2015, ar gais Llywodraeth Cymru, cyhoeddodd Estyn adroddiad ar y cynnydd wnaed gan gonsortia addysg rhanbarthol o ran darparu gwasanaethau gwella ysgolion. Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r ddogfen ganllaw Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, sy'n amlinellu gweledigaeth y llywodraeth o gonsortia rhanbarthol.

2.2 Cynhaliwyd ymweliadau gwaith maes gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru ym mhob consortiwm rhanbarthol mewn partneriaeth a rhannwyd tystiolaeth rhwng y ddau sefydliad. Roedd yr ymweliadau gwaith maes yn cynnwys cyfweithio â staff allweddol pob consortiwm a'r awdurdodau lleol cysylltiedig. Cynhaliwyd yr ymweliad â GwE ym mis Ionawr 2015. Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys craffu ar ystod eang o dystiolaeth o ysgolion, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru.

2.3 Gwnaed yr argymhellion a ganlyn:

- A1 Gwella trefniadau rheoli perfformiad trwy:
 - o gynllunio ar gyfer y tymor canolig i sicrhau dull strategol o wella ysgolion
 - o sicrhau bod cynlluniau'n cynnwys camau gweithredu sy'n benodol a mesuradwy, gyda thargedau, costau a cherrig milltir priodol ar gyfer cyflawni
 - o cofnodi, rhannu a defnyddio data (o lefel disgybl i fyny) yn effeithlon ac yn effeithiol
-

- o monitro cynnydd disgyblion ac ysgolion yn rheolaidd
 - o defnyddio dull mwy trylwyr o nodi risgiau a'u rheoli
 - o hunanarfarnu eu cryfderau a'u diffygion yn realistig
 - o rheoli perfformiad unigol eu staff yn dynn
- A2 Sicrhau cysondeb gwell yn ansawdd arfarniadau ymgynghorwyr her o ysgolion, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu ac arweinyddiaeth
- A3 Datblygu strategaethau cliriach i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysg a sicrhau bod yr holl gamau gweithredu yn gydlynus i'r perwyl hwn
- A4 Gwella ansawdd ac ystod y cymorth ar gyfer ysgolion, ac yn benodol:
 - o datblygu strategaethau cliriach ar gyfer gwneud y mwyaf o botensial cymorth o un ysgol i'r llall; a
 - o darparu neu frocera cymorth gwell ar gyfer addysgu a dysgu mewn meysydd pwnc nad ydynt yn rhai craidd
- A5 Cynnwys awdurdodau esgobaethol yn effeithiol wrth gynllunio ac arfarnu gwasanaethau rhanbarthol yn strategol

Dylai awdurdodau lleol:

- A6 Gefnogi eu consortïwm rhanbarthol i ddatblygu cynlluniau busnes tymor canolig a sicrhau bod yr holl gynlluniau'n ystyried anghenion eu hysgolion lleol
- A7 Datblygu perthnasoedd gweithio ffurfiol rhwng pwyllgorau craffu yn eu consortïwm er mwyn craffu ar waith ac effaith eu consortïwm rhanbarthol

3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Mae'r adroddiad Diweddariad ar Gynnydd yn manylu fel a ganlyn yn erbyn pob argymhelliad:

- Gweithredu;
- Tystiolaeth o effaith
- Camau pellach (yn cynnwys gan bwy a phryd);
- Asesiad risg yn seiliedig ar y dangosyddion lliw a ganlyn

 wedi'i gwblhau/yn gynt na'r disgwyl	 angen sylw	 angen sylw brys
---	--	---

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad

5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn

8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE a Bwrdd Ymgynghorol GwE yn ystod datblygu'r ddogfen hon

9.0 Atodiadau

9.1 Argymhellion Estyn 2015 – Diweddariad ar Gynnydd (Mehefin – Hydref 2015)

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

Swyddog Cyllid Statudol:

Yn gyffredinol, rwy'n cefnogi'r camau gweithredu pellach arfaethedig, megis gosod blaenoriaethau'r Cynllun Busnes mewn cofrestr risg ffurfiol ddiwygiedig a'u monitro'n briodol, sy'n synhwyrol.

Argymhellion Estyn 2015

Diweddariad Cynnydd: Mehedin-Hydref 2015

Argymhellion Estyn i'r Consortia

A1 Gwella trefniadau rheoli perfformiad trwy:

- gynllunio ar gyfer y tymor canolig i sicrhau dull strategol o wella ysgolion
- sicrhau bod cynlluniau'n cynnwys camau gweithredu sy'n benodol a mesuradwy, gyda thargedau, costau a cherrig milltir priodol ar gyfer cyflawni
- cofnodi, rhannu a defnyddio data (o lefel disgybl i fyny) yn effeithlon ac yn effeithiol
- monitro cynnydd disgyblion ac ysgolion yn rheolaidd
- defnyddio dull mwy trylwyr o nodi risgiau a'u rheoli
- hunan arfarnu eu cryfderau a'u diffygion yn realistig
- rheoli'n dynn berfformiad unigol eu staff

Cynnydd yn erbyn yr argymhelliad:

Camau gweithredu a gymerwyd:

- Mae'r cynllun busnes newydd yn cynnwys cerrig milltir 3 bl, gyda chamau gweithredu, deilliannau a chostau manwl wedi'u hadnabod ar gyfer pob blaenoriaeth.
- Gwell cipio data drwy Uned Ddata, ac SMS yn ei le gyda mynediad llawn i'r holl YH a Swyddogion ALL. SMS yn cipio targedau dangosyddion allweddol o bob ysgol ac yn eu cronni ar sail ranbarthol ac awdurdod unigol. Bydd targedau yn cael eu monitro a'u herio yn ystod Tymor yr Hydref ar sail ranbarthol, awdurdod ac ysgol unigol. System nawr ar waith yn caniatáu monitro data cynnydd yn erbyn targedau yn dymhorol. Bydd data yn cael ei gasglu ar lefel macro gydag Ymgynghorwyr Her unigol yn gwybod am ddata ar lefel disgyblion a thracio. SMS hefyd yn hwyluso rheoli a dadansoddi data ar draws ysgolion yn fwy effeithiol.
- Mae strwythurau a chanllawiau clir ar gyfer rheoli perfformiad staff yn eu lle. Mae hierarchaeth rheoli perfformiad gyda'r holl staff yn derbyn cyfarfod PM yn ystod tymor yr hydref, ac mae'r cynnydd yn erbyn yr amcanion yn cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn. Mae gan bob Ymgynghorydd Her gynnwys yr UDA amcanion cyfredol. Mae'r amcanion hyn yn perthyn i dri chategori:-
 - Amcan Rhanbarthol sy'n deillio o'r Cynllun Busnes
 - Amcan sy'n deillio o un o ysgolion neu grŵp o ysgolion yr YH
 - Amcan sy'n deillio o hunanasesiad yr YH/ asesiad cymheiriaid

Bydd amcanion Rheoli Perfformiad ar gyfer 2015-16 yn cael eu halinio'n agos â blaenoriaethau'r Cynllun Busnes. Bydd yr holl Ymgynghorwyr Her yn derbyn amcanion a gaiff eu halinio gyda thargedau gwella meintiol ar gyfer ysgolion cyswllt.
- Mae rhaglenni hyfforddiant a datblygu yn eu lle ar gyfer yr holl Ymgynghorwyr Her [gweler Argymhelliad 2 isod]. Mae'r rhaglen gyfredol wedi cynnwys:
 - 4 diwrnod o sesiynau datblygu hyfforddi a thîm [George Telfer];
 - Gwersi a ddysgwyd o Her Ysgolion Cymru [David Mountfort Ymgynghorydd Her Ysgolion Cymru];
 - Gweithio gydag ysgolion sydd angen cefnogaeth ddwys [Andy Hawkins cyn AEM];
 - Gweithio gydag ysgolion i'w symud o dda i ragorol; Gwerthoedd ac ymddygiad; Cwestiynu effeithiol [Helen Morgan Rees ERW].
- Gweithio mewn paru/cysgodi yn weithredol.
- Gweithdrefnau monitro wedi eu diweddarau gyda strwythurau cadarnach ar waith i fonitro ansawdd, effaith a chysondeb yr her a'r gefnogaeth a gynigir i ysgolion [gweler Argymhelliad 2 isod].
- Cytuno ar weithdrefnau gallu a darparu hyfforddiant i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.
- Mae model adeiladu capasiti diwygiedig ar gyfer system hunan-wella yn weithredol. Model yn caniatáu ar gyfer her cymheiriaid, cefnogaeth a gwerthuso a mwy o ymreolaeth i'r ysgolion gorau, gan ryddhau capasiti Ymgynghorydd Her ychwanegol at weithredu ar lefel fanylach gydag ysgolion sy'n tanberfformio.

Tystiolaeth o'r Effaith:

- Mae'r cynllun busnes newydd yn cynnwys cerrig milltir 3 bl, gyda chamau gweithredu, deilliannau a chostau manwl yn cael eu hadnabod i bob blaenoriaeth, gan sicrhau ymagwedd fwy strategol at wella

ysgolion ar draws y rhanbarth. Fodd bynnag, mae angen i'r blaenoriaethau a nodwyd gael eu hasesu yn fwy ffurfiol am risg i'w fonitro gan yr UDA, y Bwrdd Rheoli, y Cyd-bwyllgor a'r Bwrdd Cynghori ar sail cylchdro.

- Mae'r gwell data a gipiwyd drwy'r Uned Ddata ac SMS wedi sicrhau y gall targedau a data cynnydd gael eu herio yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, mae'n llawer rhy gynnar i asesu effaith y system newydd ar ddangosyddion perfformiad rhanbarthol. Mae angen i'r gwasanaeth rhanbarthol sicrhau bod gan yr Uned Ddata y capasiti i reoli'r holl ofynion data rhanbarthol yn effeithiol ac i nodi'n llwyddiannus yr holl feysydd lle mae angen gwelliannau.
- Mae cynnydd ysgolion yn y categorïau oren a choch yn cael eu monitro'n gadarn ac yn rheolaidd. Bu'r her a chefnogaeth a dargedwyd ar yr ysgolion hyn yn effeithiol. Yn 2015, gwelwyd gwelliant yn yr ysgolion uwchradd yn y categorïau oren/coch ar gyfartaledd o 3.5% yn Lefel 2 yn gynwysedig. Diwygiwyd yr her a chefnogaeth i ysgolion gwyrdd a melyn cryf i sicrhau bod y cymorth yn fwy trylwyr gyda her a gwerthuso cymheiriaid yn canolbwyntio ar wella. Fodd bynnag, mae'n llawer rhy gynnar i fesur ei effaith ar ddarpariaeth a pherfformiad.
- Mae prosesau hunanarfarnu yn nodi'n glir y cryfderau a'r meysydd allweddol sydd i'w gwella. Fodd bynnag, mae angen hogi'r prosesau hunan arfarnu ymhellach i wneud defnydd mwy effeithiol o ddata perfformiad i dargedu adnoddau a gwelliant.
- Yr Uwch Ymgynghorwyr Her a Chefnogaeth i bob hwb yn fwy effeithiol o ran sicrhau gwaith pob un o'u Hymgynghorwyr Her gyda gweithdrefnau mwy cadarn bellach yn eu lle i fonitro ansawdd yr adroddiadau ac ymweliadau. Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd ac atebolrwydd mewnol mwy cadarn wedi arwain at lefel uwch o gysondeb yng ngwaith yr Ymgynghorwyr Her. Fodd bynnag, mae lleiafrif o Ymgynghorwyr Her sydd angen gwella eu sgiliau ymhellach ac mae rhaglenni cymorth yn eu lle i ddelio â hyn [gweler Argymhelliad 2].
- Mae rheoli perfformiad yn cyd-fynd yn glir â blaenoriaethau rhanbarthol GwE ac anghenion unigol staff. Mae'r rhan fwyaf o Ymgynghorwyr Her yn llwyddiannus yn defnyddio rheolaeth perfformiad i hogi eu sgiliau a'u gwybodaeth [enghreiffiau ar gael]. Mae Briffiau Portffolio [megis ar gyfer asesiadau cymedrol athrawon, Llythrennedd a Rhifedd, datblygu arweinyddiaeth, ANG, digidol, ayb] yn caniatáu i Ymgynghorwyr Her ddefnyddio a datblygu arbenigedd sydd hefyd yn cael ei ledaenu i'r timau GwE ehangach gan roi gwell cymorth i ysgolion mewn meysydd penodol. Fodd bynnag, mae angen i'r UDA sicrhau bod gweithdrefnau Rheoli Perfformiad mewnol yn cael eu gweithredu'n gadarn a'u bod yn effeithio ar berfformiad yr holl staff ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Angen camau gweithredu pellach	Pwy	Pryd
• Sicrhau bod y blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo i mewn gofrestr risg ffurfiol ddiwygiedig a'u monitro gan yr UDA, y Bwrdd Rheoli, y Cyd-bwyllgor a'r Bwrdd Cynghori ar sail cylchdro	RhG Bwrdd Cynghori Bwrdd Rheoli'r Cyd-bwyllgor	Hydref
• Sicrhau llinellau effeithiol o adrodd ac atebolrwydd ar gyfer prosesau SA rhwng RhG/Cyfarwyddwr Cynorthwyol [Safonau] a Chyd-bwyllgor a Bwrdd Rheoli GwE.	RhG/CC Bwrdd Rheoli'r Cyd-bwyllgor	Hydref
• Parhau i hogi'r prosesau hunan arfarnu a sicrhau defnydd mwy effeithiol o ddata perfformiad.	UDA GwE	Hydref
• Sicrhau bod yr Uned Ddata â chapasiti i reoli'r holl ofynion data rhanbarthol yn effeithiol.	UDA GwE Bwrdd Rheoli	Hydref
• Sicrhau bod gweithdrefnau Rheoli Perfformiad mewnol yn cael eu rhoi ar waith yn gadarn.	UDA GwE	Hydref / Gwanwyn

A2 Sicrhau cysondeb gwell yn ansawdd arfarniadau ymgynghorwyr her o ysgolion, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu ac arweinyddiaeth

Cynnydd yn erbyn yr argymhellad:

Camau gweithredu a gymerwyd:

- Lefel bresennol o sgiliau a gwybodaeth o fewn y sefydliad yn cael ei gynnal a chytuno ar hyfforddiant a datblygiadau ychwanegol.
- Rhaglen hyfforddi yn cael ei chyflwyno ar weithdrefnau categorieddio er mwyn sicrhau aliniad gyda disgwyliadau cenedlaethol a dulliau cyson ar draws hybiau.
- Rhaglen Monitro yn ei lle i wirio barn categorieddio, gydag Uwch Ymgynghorwyr Her a Chefnogaeth yn samplu adroddiadau categorieddio ar gyfer pob Ymgynghorydd Her a samplu ansawdd ymweliadau/ cyfarfodydd ysgol yn unol â disgwyliadau cenedlaethol.
- Trefniadau ar waith ar gyfer cymedroli categorieddio ar sail ranbarthol [17-19 Tachwedd 2015] i gael ei wneud gan Fwrdd Cymedroli Rhanbarthol yn cynnwys uwch arweinwyr yn y consortiwm yn goruchwyllo'r gwaith gyda phob awdurdod lleol, cynrychiolydd Cyfarwyddwr/Prif Swyddog Addysg o fewn y rhanbarth a chynrychiolydd pennaeth ysgol gynradd, babanod, iau ac ysgolion uwchradd.
- Gweithdrefnau monitro'n cael eu diweddarau gyda strwythurau cadarnach ar waith i fonitro ansawdd, effaith a chysondeb yr her a'r gefnogaeth a gynigir i ysgolion.
- Adroddiadau Ymgynghorwyr Her yn cael eu harchwilio trwy drefniadau rheoli llinell hwb a chyfarfodydd tîm rhanbarthol/UDA.
- Pob Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth yn monitro hyd at 6 chyfarfod/ymweliad y tymor i werthuso trylwyrdd a chysondeb yr her a chefnogaeth a ddarperir gan yr Ymgynghorwyr Her.
- Pob Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth yn cael 3 cyfarfod ffurfiol bob tymor gydag Ymgynghorwyr Her i sicrhau ansawdd y broses adrodd a natur ac effaith yr her/cefnogaeth a nodwyd. Cyfarfodydd hefyd yn hwyluso rhaeadru a rhannu arfer gorau. Cyfarfodydd yn blaenoriaethu:
 - Ysgolion gwyrdd/melyn cryf
 - Ysgolion melyn
 - Ysgolion Oren/Coch
- Pob Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth i lunio adroddiadau tymhorol yn lledaenu meysydd o arfer gorau ac agweddau sydd angen sylw. Dulliau ar waith i sicrhau bod arfer gorau yn cael ei raeadru yn rhanbarthol.
- Ymgynghorwyr Her yn rhannu astudiaethau achos arferion gorau a'r effaith mewn cyfarfodydd hybiau a thîm llawn [e.e. cyflwyniadau Medi 2015 ar: *Ysgogi a chydlynw gwaith ysgolion i ddarparu cefnogaeth i'w gilydd; Hyrwyddo cydweithio effeithiol rhwng ysgolion sy'n cyfuno i sefydlu ysgol newydd; Cefnogi a monitro cynnydd yn erbyn argymhellion CGOA, gan gynnwys datblygu addysgu a dysgu a chymorth ysgol i ysgol*].
- Cyfarfodydd tymhorol ffurfiol yn cael eu cynnal rhwng yr Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth a Chyfarwyddwr Cynorthwyol (Safonau) i:
 - sicrhau atebolrwydd llawn ar gyfer perfformiad Uwch Ymgynghorwyr Her a Chefnogaeth unigol ac Ymgynghorwyr Her;
 - herio barn a chanfyddiadau;
 - sicrhau bod arfer gorau yn cael ei fabwysiadu a'i ailadrodd ar draws hybiau;
 - cytuno ar uwchsgilio/ gofynion hyfforddiant pellach Ymgynghorwyr Her unigol.
- Rheolwr-gyfarwyddwr yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Safonau) i herio canfyddiadau a pherfformiad.
- Gwell cipio data drwy Uned Ddata, ac SMS yn ei le gyda mynediad llawn i'r holl YH a Swyddogion ALL.
- Gall yr Ymgynghorwyr Her gael mynediad at yr holl adroddiadau, gydag arfer rhagorol yn cael ei dagio.
- Uwch arweinwyr llwyddiannus o ysgolion sy'n perfformio'n dda yn cael eu secondio a'u defnyddio'n effeithiol fel Ymgynghorwyr Her.
- Briffiau Portffolio yn cael eu datblygu ac Ymgynghorwyr Her yn cael eu hyfforddi mewn rolau arbenigol a fydd yn cynnwys datblygu arfer gorau mewn addysgeg ac arweinyddiaeth.

- Mae rhaglenni hyfforddiant a datblygu yn eu lle ar gyfer yr holl Ymgynghorwyr Her. Mae'r rhaglen gyfredol yn cynnwys:
 - 4 diwrnod o sesiynau datblygu hyfforddi a thîm [George Telfer];
 - Gwersi a ddysgwyd o Her Ysgolion Cymru [David Mountfort Ymgynghorydd Her Ysgolion Cymru];
 - Gweithio gydag ysgolion sydd angen cefnogaeth ddwys [Andy Hawkins cyn AEM];
 - Gweithio gydag ysgolion i'w symud o dda i ardderchog; Gwerthoedd ac ymddygiad; Cwestiynu effeithiol [Helen Morgan Rees ERW].
- Ymgynghorydd Arweiniol Hyfforddiant a Datblygiadol Allanol wedi ei benodi i weithio gydag UDA GwE:
 - i asesu'r lefel bresennol o sgiliau a gwybodaeth o fewn y sefydliad a phenderfynu pa hyfforddiant/datblygiad ychwanegol sydd ei angen i dyfu a chadw'r sgiliau hyn;
 - cydlynu, darparu a gwerthuso effaith rhaglen beilot ar gyfer 2015-16 i wella dysgu a datblygiad proffesiynol grŵp targed o Ymgynghorwyr Her o fewn GwE sy'n herio a chefnogi ysgolion uwchradd oren/ coch.
- Rhaglen yn ei lle ar gyfer 2015-16 i wella dysgu a datblygiad proffesiynol grŵp targed o Ymgynghorwyr Her o fewn GwE sy'n herio a chefnogi ysgolion uwchradd oren/ coch.
- Rhaglen yn cynnwys pecyn *hyfforddi'r hyfforddwyr* ar gyfer YH dynodedig i ddatblygu pecyn cymorth ar gyfer Ymgynghorwyr Her sy'n gweithio yn y sector cynradd.

Tystiolaeth o'r Effaith:

- Gweithdrefnau monitro mwy cadarn wedi sicrhau mwy o gysondeb mewn categorïddio ysgolion. Bydd effaith lawn y gweithdrefnau hyn yn cael eu gwerthuso ar ôl cymedroli categorïddio yn rhanbarthol ganol mis Tachwedd.
- Uwch Ymgynghorwyr Her a Chefnogaeth ar gyfer pob hwb yn fwy effeithiol o ran sicrhau gwaith pob un o'u Hymgynghorwyr Her gyda gweithdrefnau cadarn yn awr ar waith i fonitro ansawdd yr adroddiadau ac ymweliadau. Gweithdrefnau sicrhau ansawdd ac atebolrwydd mewnol mwy cadarn wedi arwain at lefel uwch o gysondeb yng ngwaith Ymgynghorwyr Her fewn ac ar draws hybiau yn enwedig yn y sector cynradd. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i asesu'n llawn ei effaith ar berfformiad Ymgynghorwyr Her unigol ac mae canfyddiadau diweddar gan UYH wedi tynnu sylw at rai meysydd y mae angen eu gwella. Mae'r rhan fwyaf o'r Ymgynghorwyr Her sy'n gweithio yn y sector cynradd wedi'u paratoi yn dda gyda'r wybodaeth, y sgiliau ymarferol a'r hyder i gyflawni eu gwaith yn effeithiol ac mae rhaglenni hyfforddi yn ymdrin ag anghenion lle mae angen gwelliannau. Mae rhai materion yn parhau o ran lefel sgiliau a gallu lleiafrif o Ymgynghorwyr Her sy'n gweithio yn y sector uwchradd i ymdrin â'r holl welliannau sydd eu hangen. Mae angen i'r gwasanaeth rhanbarthol adolygu ei strategaeth recriwtio er mwyn sicrhau ei fod yn gallu denu ymarferwyr uwchradd effeithiol o ansawdd uchel i rolau allweddol. Mae angen hefyd i'r gwasanaeth sicrhau bod pob ysgol uwchradd yn cael mynediad at gefnogaeth pwnc arbenigol ar gyfer Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4, yn arbennig mewn perthynas â gwella addysgu ac arweinyddiaeth o fewn yr adrannau allweddol ar draws y rhanbarth.
- Defnyddir uwch arweinwyr llwyddiannus wedi'u secondio o ysgolion sy'n perfformio'n uchel yn effeithiol fel Ymgynghorwyr Her. Mae hyn wedi sicrhau capasiti ac effeithiolrwydd gwell o fewn y tîm rhanbarthol ar gyfer herio a chefnogi pob ysgol. Mae pob ysgol oren/coch yn derbyn lefel uwch o her a chefnogaeth gyda mwy o wytnwch o fewn pob Hwb i symud yr ysgolion hyn ymlaen. Fodd bynnag, mae angen i'r gwasanaeth ddefnyddio mwy o Benaethiaid Uwchradd gyda hanes profedig mewn ysgolion uwchradd sy'n tangyflawni i dargedu gwelliant yng Nghyfnod Allweddol 4.
- Mae rhaglenni cymorth i Ymgynghorwyr Her ar gyfer sicrhau gwelliant sgiliau a gwybodaeth yn y tymor byr a chanol yn eu lle. Bydd Ymgynghorwyr Her sy'n gweithio yn y sector uwchradd yn cael mynediad o Dymor yr Hydref ymlaen at gefnogaeth ac ymgynghori mentora cyson gan Ymgynghorydd Arweiniol Hyfforddiant a Datblygiad. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i werthuso ei effaith ar welliant unigolion neu ysgolion.
- Rhennir yr arfer gorau a mwyaf effeithiol ar draws y 3 hwb ac mae tystiolaeth ddiweddar yn awgrymu bod ansawdd yr her a chefnogaeth i ysgolion oren/coch, gan gynnwys y rhai mewn categorïau Estyn,

yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar allu'r ysgolion hyn i wella. Mae hefyd dystiolaeth o lefel uwch o gysondeb yn y gefnogaeth a gynigir ar draws y rhanbarth. [% o ysgolion a dynnir allan o gategori ayb]

- Mae Briffiau Portffolio [megis ar gyfer asesiadau cymedroli athrawon, Llythrennedd a Rhifedd, datblygu arweinyddiaeth, ANG, digidol, ayb] yn caniatáu i Ymgynghorwyr Her ddefnyddio a datblygu arbenigedd sydd hefyd yn cael ei ledaenu i'r timau GwE ehangach gan roi gwell cymorth i ysgolion mewn meysydd penodol. Fodd bynnag, mae angen datblygu'r elfen hon ymhellach i sicrhau bod ysgolion yn cael mynediad i arfer gorau ym maes addysgeg.
- Bu gostyngiad o 12% yn nifer yr ysgolion cynradd yng Ngrwpiau Categori Data 3 a 4 yn 2015 a gostyngiad o xx% o'r rhai yn y categori cefnogaeth coch ac oren.

Angen camau gweithredu pellach	Pwy	Pryd
• Gwerthusiad annibynnol o ansawdd o her a chefnogaeth i gael ei wneud gyda sampl o ysgolion ym mhob categori cefnogaeth.	Ymgynghorydd Annibynnol	Rhagfyr 2015
• Cynnal arolwg rhanddeiliaid gyda phob ysgol i asesu cysondeb darpariaeth.	UDA GwE	Rhagfyr 2015
• Sicrhau llinellau effeithiol o adrodd ac atebolrwydd ar gyfer prosesau SA rhwng RhG/Cyfarwyddwr Cynorthwyol [Safonau] a Chyd-bwyllgor a Bwrdd Rheoli GwE.	RhG/CC Bwrdd Rheoli'r Cyd-bwyllgor	Hydref
• Llunio a chyflwyno rhaglen datblygu tair blynedd strategol ar gyfer y gwasanaeth, i wella ymhellach yr her a chefnogaeth a ddarperir gan Ymgynghorwyr Her.	UDA GwE	Hydref / Gwanwyn
• Sicrhau bod gweithdrefnau Rheoli Perfformiad mewnol yn cael eu rhoi ar waith yn gadarn	UDA GwE	Hydref
• Sicrhau bod gweithdrefnau sicrhau ansawdd ac atebolrwydd yn cael eu cymhwyso'n gyson ac yn gadarn ar draws pob un o'r tri hwb	UYH a CC	Hydref
• Defnyddio Penaethiaid Uwchradd profiadol gyda hanes profedig o weithio mewn ysgolion uwchradd sy'n tanberfformio.	UDA GwE	Hydref / Gwanwyn
• Adolygu'r strategaeth recriwtio i sicrhau bod y gwasanaeth rhanbarthol yn gallu denu ymarferwyr uwchradd effeithiol o ansawdd uchel i rolau allweddol.	RhG/CC Bwrdd Rheoli'r Cyd-bwyllgor	Hydref / Gwanwyn

A3 Datblygu strategaethau cliriach i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysg a sicrhau bod yr holl gamau gweithredu yn gydlynol i'r perwyl hwn

Cynnydd yn erbyn yr argymhelliad:

Camau gweithredu a gymerwyd:

- **Mae GwE wedi datblygu strategaeth ranbarthol ar gyfer lleihau effaith tlodi**, sydd wedi'i seilio ar 'Ailysgrifennu'r Dyfodol' (LIC 2014) ac 'Ailysgrifennu'r Dyfodol – blwyddyn ymlaen' (LIC 2015). Mae'r strategaeth yn amlinellu'r camau y bydd GwE a'r ysgolion yn eu cymryd i gael gwared ar y rhwystrau i lwyddiant ein dysgwyr mwyaf agored i niwed, a sut y byddwn yn cofleidio'r her a osodwyd gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes a Llywodraeth Cymru. Bydd y ddogfen strategaeth yn cael ei chwblhau yn dilyn ymgynghoriad â Bwrdd Rheoli GwE a grwpiau o ddefnyddwyr yn ystod yr wythnosau nesaf. Adolygir y cynnydd yn erbyn camau gweithredu'r strategaeth a'u graddio yn ôl COG bob tymor gan UDA GwE, gyda'r adroddiad yn cael ei gyflwyno wedyn i'r Bwrdd Rheoli.
- **Derbyniodd yr Ymgynghorwyr Her (YH) hyfforddiant** yn Ebrill 2015 gan yr Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth (UYHCh) sy'n gyfrifol am amddifadedd ar ganllawiau LIC ar y GAD ar ei newydd wedd.
- **Bydd grŵp ffocws o Ymgynghorwyr Her yn cael ei sefydlu.** Byddant yn cwrdd bob hanner tymor gyda'r UYHCh ac arweinydd LAC Rhanbarthol i gael eu diweddarau am wybodaeth, digwyddiadau a hyfforddiant, a gaiff ei ledaenu i gydweithwyr mewn cyfarfodydd hwb. Mae sefydlu'r grŵp hwn yn anelu at sicrhau neges a dull mwy cyson o gefnogi ysgolion ar draws y rhanbarth.
- **Datblygwyd rhan o wefan GwE sy'n canolbwyntio ar amddifadedd.** Mae'n cynnwys dogfennau allweddol gan Estyn, LIC a Chanolfan Cymru ar gyfer Tegwch mewn Addysg, ac mae'n cysylltu ag astudiaethau achos ac adnoddau.
- Yn ystod eu hymweliadau ag ysgolion unigol **mae'r Ymgynghorwyr Her yn parhau i drafod y defnydd o'r PDG, perfformiad PYDD/LAC** a grwpiau eraill o ddysgwyr sy'n agored i niwed, gan gyfeirio penaethiaid ac uwch arweinwyr at enghreifftiau o arfer da ac adnoddau a chysylltiadau defnyddiol.
- **Nodwyd ysgolion lle ceir arfer effeithiol**, a gydnabyddir gan yr Ymgynghorwyr Her, Estyn a'r tîm Cynhwysiant ALL, (4 ysgol hyd yn hyn) **a'u gwahodd i wneud cais am statws Ysgol Cydarweiniol (CLS).**
- **Bydd cynhadledd ranbarthol GwE** ar gael gwared ar y rhwystrau amddifadedd yn cael ei chynnal ar 9^{fed} o Dachwedd yn Venue Cymru, Llandudno. Gwahoddwyd y Gweinidog i roi'r brif araith ond yn anffodus mae ymrwymadau eraill yn golygu na all fod yn bresennol. Yn dilyn cyflwyniad gan Syr John Jones, bydd 16 o sesiynau gweithdy, 13 gan ysgolion GwE, 2 gan ysgolion CSC ac 1 gan ysgol ERW, ar eu gwaith gyda dysgwyr sy'n agored i niwed a'u defnydd effeithiol o'r GAD i godi cyrhaeddiad disgyblion PYDD. Bydd y cyflwyniadau o'r ysgolion ar gael ar wefan GwE yn dilyn y gynhadledd i'r rhai nad oeddynt yn gallu bod yn bresennol.
- Yn ychwanegol at waith rheolaidd yr Ymgynghorwyr Her, mae **GwE wedi comisiynu dau o benaethiaid uwchradd llwyddiannus y rhanbarth i ymgymryd â darn o waith cylch gwaith, gan ymweld â 14 ysgol uwchradd a nodwyd ar sail eu perfformiad cryf/gwael yn L2+ gyda disgyblion PYDD.** Bydd un yn canolbwyntio ar yr ysgolion effeithiol, gan lunio astudiaeth achos arfer gorau a gaiff ei rhannu'n eang o fewn a thu hwnt i'r rhanbarth. Bydd y llall yn canolbwyntio ar yr ysgolion â'r ganran isaf o ddisgyblion PYDD llwyddiannus, gan archwilio cynlluniau'r ysgolion hynny ar gyfer y defnydd o'u GAD, eu monitro o'r ymyriadau cyflenwi a'u gwerthusiadau. Bydd y gwaith cylch gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd.
- **Mae cynllun LAC Rhanbarthol wedi cael ei ddatblygu** ar y cyd â chydlynwyr LAC o bob un o'r 6 ALL. Rhannwyd a chymeradwywyd y cynllun gan Fwrdd Rheoli GwE. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob mis i adolygu cynnydd.
- **Mae arweinydd LAC rhanbarthol wedi cael ei secondio** a dechreuodd yn ei swydd ym mis Mehefin.
- **Cynhaliwyd sesiynau gwybodaeth i ysgolion ym mis Gorffennaf**, lle cawsant y cyfle i nodi a blaenoriaethu anghenion hyfforddiant ysgol gyfan.
- **Datblygwyd maes LAC ar wefan GwE.** Mae digwyddiadau hyfforddi a dogfennaeth cymorth allweddol

ar gael i ysgolion, rhieni maeth, rhieni sy'n mabwysiadu a llywodraethwyr.

- **Dechreuodd hyfforddiant ym mis Medi a bydd yn cael ei gyflwyno ar draws y 6 All .** Mae'r meysydd a drafodir yn cynnwys: cymorth ymddygiad; iechyd meddwl mewn ysgolion; ymlyniad; Stonewall; a'r 'Unearthing Box'. Bydd y rhaglenni hyn, unwaith y byddant wedi eu sefydlu mewn ysgolion, yn cefnogi athrawon a staff eraill i ddatblygu potensial pob dysgwr sy'n agored i niwed, ac felly byddant yn fuddiol nid yn unig i LAC, ond hefyd i LAC blaenorol neu ddarpar LAC.

Tystiolaeth o'r Effaith:

- Mae'n rhy gynnar i gael effaith hyd yma, gan fod yr holl ddatblygiadau uchod yn rhai diweddar iawn ac mae'n annhebygol y byddant yn fesuradwy tan dymor yr haf a thu hwnt.
- Bydd cynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn Strategaeth Tlodi GwE yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y RhG, RhGG a'r UDA llawn, yn ogystal â'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor. Mae hefyd yn ffurfio rhan o dargedau PM yr UYH.
- Bydd cynnydd ysgolion yn erbyn y camau gweithredu yn eu CDY yn cael ei fonitro yn ystod ymweliadau YH.

Angen camau gweithredu pellach

- I gwblhau a rhannu'r strategaeth ranbarthol gyda rhanddeiliaid, ac i'w rhoi ar waith yn unol â'r cynlluniau gweithredu a thargedau a gynhwysir ynddi.

Pwy

Y prif gyfrifoldeb yn aros gyda'r UYHCh, sy'n adrodd i'r CCwyr a RhG.

Pryd

Cwblhawyd a rhannwyd erbyn cyfnod gweithredu Tachwedd tan fis Gorffennaf 2016

A4 Datblygu strategaethau cliriach ar gyfer gwneud y mwyaf o botensial cymorth o un ysgol i'r llall

Cynnydd yn erbyn yr argymhelliad:

Camau gweithredu a gymerwyd:

- Mae'r cynllun busnes newydd yn cynnwys cerrig milltir 3 bl, gyda chamau gweithredu, deilliannau a chostau manwl wedi'u hadnabod.
- Gweithredwyd y Strategaeth Ddiwygiedig.
- Dyrannu Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth i gymryd rôl arweiniol strategol er mwyn sicrhau cysondeb a gweithredu effeithiol.
- Cymorth ariannol i ysgolion er mwyn hybu a datblygu cydweithio effeithiol.
- Wedi datblygu rôl Ymgynghorydd Her i gefnogi/hwyluso/monitro/ gwerthuso cydweithredu effeithiol.
- Arddangosfa arfer da/effeithiol yn cael ei datblygu ar wefan GwE.
- Cydweithredu Traws-Awdurdod yn datblygu'n effeithiol (rhoi cymorth ariannol i hyrwyddo cydweithio effeithiol ar draws yr awdurdod). Naw ysgol arweiniol gyda nifer o ysgolion partner yn ffocysu ar amrywiaeth o feysydd. Astudiaethau achos yn cael eu datblygu i'w rhoi ar wefan GwE er mwyn rhannu arfer effeithiol. Gweithdai effeithiol hefyd wedi cael eu cyflwyno yng ngynhadledd Ysgol i Ysgol GwE ym Mehefin 2015.
- Menter Ysgolion Cydarweiniol - Roedd hyn yn cynnwys gwahodd ysgolion i wneud cais am statws ysgol gydarweiniol mewn tri maes - Llythrennedd a Rhifedd ar draws y cwricwlwm ac leithoedd Tramor Modern
- Gwahoddodd GwE geisiadau am statws ysgol gydarweiniol ar gyfer Llythrennedd, ymgeisiodd nifer o ysgolion, penodwyd x17 ysgol (x10 Cynradd / x6 Uwchradd / x1 Arbennig).
- Gwahoddodd GwE geisiadau am statws ysgol gydarweiniol ar gyfer Rhifedd, ymgeisiodd nifer o ysgolion, penodwyd x9 ysgol (x7 Cynradd / x2 Uwchradd).
- Gwahoddodd GwE geisiadau am statws ysgol gydarweiniol ar gyfer ITM, roedd nifer o ysgolion â diddordeb, penodwyd un (Ysgol Eirias) – i arwain ar brosiect penodol sy'n rhan o fenter Dyfodol Byd Eang gyda LIC.
- Cynhadledd Genedlaethol Cydweithio Ysgol i Ysgol Effeithiol – 2^{il} Mehefin 2015 gyda'r Athro Mel Ainscow fel y prif siaradwr. Arddangoswyd y prosiectau a chydweithio effeithiol niferus sy'n digwydd ar hyn o bryd yn rhanbarth GwE. Hefyd yn gyfle i rannu arfer effeithiol gyda chonsortia eraill.
- Rhaglen Her a Chefnogaeth GwE. Mae model adeiladu capasiti diwygiedig ar gyfer system hunan-wella ysgol yn weithredol yn canolbwyntio ar ddatblygu cydweithio ysgol i ysgol. Mae'r model yn caniatáu ar gyfer her cymheiriad, cefnogaeth a gwerthuso a mwy o ymreolaeth i'r ysgolion gorau, gan ryddhau capasiti Ymgynghorydd Her ychwanegol i weithredu ar lefel fanylach gydag ysgolion sy'n tanberfformio.
- Sefydlwyd is-grŵp er mwyn sicrhau cydweithio rhannu effeithiol/ arferion da rhwng Ymgynghorwyr Her Her Ysgolion Cymru a GwE.
- Bydd Mel Ainscow yn cynnal Dosbarth Meistr - Hyrwyddo arferion cynhwysol mewn ysgolion, gan ganolbwyntio ar gydweithio er mwyn gwella ymarfer - Tachwedd 2015.
- Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth yn weithredol ar draws y rhanbarth yn cynnig DPP effeithiol i ymarferwyr. Yn adlewyrchu cyfeiriad NLDB a LIC. Cydweithredu gyda Consortia eraill mewn perthynas â datblygu DPP effeithiol ar gyfer pob cam o'r Llwybr Arweinyddiaeth.
- Mentrau TGAU/ BAC ysgolion - Ysgolion arweiniol yw Eirias - Mathemateg - Bryn Elian - Saesneg- Yr Alun ac ysgolion Môn Gwyddoniaeth - Dyffryn Ogwen/ Botwnnog/Tryfan - Cymraeg. Mae'r holl adnoddau ayb. wedi'u rhoi ar wefan GwE. Sefydlwyd VLE hefyd er mwyn rhannu'r arfer effeithiol.
- Unigolyn wedi'i secondio i GwE er mwyn arwain mentrau BAC
- GwE wedi llwyr ymgysylltu ac wedi ymrwymo i weithredu'r mentrau Ysgolion Arloesi ac Arweiniol gyda'r Consortia eraill a LIC:
- Ysgolion arweiniol Celfyddydau a Chreadigol
- Ysgolion Arloesi Digidol
- Ysgolion Arloesi Dyfodol Llwyddiannus

- Ysgolion Arloesi y Fargen Newydd
- Rheolwr-gyfarwyddwr yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Cymorth a Brocra) i herio canfyddiadau a pherfformiad.

Tystiolaeth o'r Effaith:

- Amrywiaeth o dystiolaeth ar gael ynghylch effaith effeithiol gwahanol waith cydweithio ysgol i ysgol. Dangosodd y gynhadledd Ysgol i Ysgol hyn, e.e. ynghylch datblygiadau llythrennedd, datblygiadau amddifadedd, datblygiadau TG.
- Mae perfformiad ysgolion oren/coch wedi dangos gwelliant amlwg ar draws y rhanbarth o ganlyniad i waith a gomisiynwyd ar weithio ysgol i ysgol a oedd yn ymgorffori her a chefnogaeth i ysgolion unigol.
- Bu prosiectau cydweithio traws awdurdod yn llwyddiannus ac mae astudiaethau achos o arfer ragorol yn cael eu casglu a'u rhannu.
- Fodd bynnag, mae nifer o fentrau ar y camau cynnar o weithredu. Felly mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i fesur effaith lawn ar safonau a pherfformiad, e.e. – Rhaglen Her a Chefnogaeth GwE, a'r fenter Ysgolion Cydarweiniol.

Camau gweithredu pellach a gytunwyd

- Gweler A5
- Gwerthuso effaith gwahanol strategaethau ysgol i ysgol, a diwygio modelau fel y bo'n briodol.

Pwy

UDA GwE
Ymgynghorydd
allanol
annibynnol.

Pryd

Ionawr 2016
Gorffennaf 2016

A5 Darparu neu frocera cymorth gwell ar gyfer addysgu a dysgu mewn meysydd pwnc nad ydynt yn rhai craidd

Cynnydd yn erbyn yr argymhelliad:

Camau gweithredu a gymerwyd:

Y brif flaenoriaeth bresennol o ran pynciau nad ydynt yn rhai craidd yw sicrhau datblygiad Llythrennedd a Rhifedd ar draws y cwricwlwm, er mwyn codi ymwybyddiaeth aelodau'r UDRh, Cydlynwyr LI & Rh a Phenaethiaid pwnc (mewn ysgolion uwchradd) o bwysigrwydd ymgorffori Llythrennedd a Rhifedd i mewn i strategaethau Dysgu ac Addysgu, cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi.

Y prif ffocws yn ystod y misoedd diwethaf fu datblygu rhaglen gefnogaeth Ysgol i Ysgol GwE. Lanswyd y cam cyntaf ym Mehefin 2015. Roedd hyn yn cynnwys gwahodd ysgolion i wneud cais am statws Ysgol Gydarweiniol mewn tri maes - Llythrennedd a Rhifedd ar draws y cwricwlwm ac leithoedd Tramor Modern:

- Gwahoddodd GwE geisiadau am statws ysgol gydarweiniol ar gyfer Llythrennedd, ymgeisiodd nifer o ysgolion, penodwyd x17 ysgol (x10 Cynradd / x6 Uwchradd / x1 Arbennig).
- Gwahoddodd GwE geisiadau am statws ysgol gydarweiniol ar gyfer Rhifedd, ymgeisiodd nifer o ysgolion, penodwyd x9 ysgol (x7 Cynradd / x2 Uwchradd).
- Gwahoddodd GwE geisiadau am statws ysgol gydarweiniol ar gyfer ITM, roedd nifer o ysgolion â diddordeb, penodwyd un (Ysgol Eirias) – i arwain ar brosiect penodol sy'n rhan o fenter Dyfodol Byd Eang gyda LIC.

Un o nodweddion allweddol rhaglen gefnogaeth ysgol GwE yw codi ymwybyddiaeth am Lythrennedd a Rhifedd yn CA3 - yn benodol yn y pynciau nad ydynt yn rhai craidd. Mae dau o ymarferwyr arweiniol o ddwy ysgol (Ysgol John Bright ac Ysgol Dyffryn Conwy) wedi cael eu penodi i arwain yn y meysydd hyn.

Bu GwE hefyd yn weithgar yn gwahodd (a nodi a chefnogi) ysgolion i wneud cais am statws Ysgol Arloesi (Digidol, Creadigol a Chwricwlwm Dyfodol Llwyddiannus):

- Roedd x18 ysgol (x9 Cynradd / x9 Uwchradd) – wedi'u cefnogi gan GwE - yn llwyddiannus yn eu ceisiadau i ddod yn 'Ysgolion Arloesi Creadigol'
- Roedd x3 ysgol (x2 Cynradd / x1 Uwchradd) – wedi'u cefnogi gan GwE - yn llwyddiannus yn eu ceisiadau i ddod yn 'Ysgolion Arloesi Creadigol'
- Roedd x11 ysgol (x5 Cynradd / x5 Uwchradd / x1 Arbennig) – wedi'u cefnogi gan GwE – ar restr fer i fod yn 'Ysgolion Arloesi Cwricwlwm Dyfodol Llwyddiannus'

Tystiolaeth o'r Effaith:

Mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i fesur effaith y mentrau hyn, gyda llawer ohonynt ar y camau cynnar o weithredu.

Dim ond nawr mae ysgolion cydarweiniol ar gyfer Llythrennedd, Rhifedd ac ITM yn ymgysylltu ag ysgolion; dengys arwyddion cynnar barodrwydd gan ysgolion i gymryd rhan, ond nid oes tystiolaeth o effaith hyd yma.

Mae ymarferwyr arweiniol ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd ar draws CA3 wedi cynnal cyfarfodydd ar draws y rhanbarth. Bu presenoldeb yn y cyfarfodydd hyn yn rhagorol; fodd bynnag, er bod parodrwydd i ymgysylltu a bod adborth o'r cyfarfodydd hyn yn dda iawn, eto nid oes tystiolaeth 'caled' o effaith hyd yma.

Dim ond yn ddiweddar y mae Ysgolion Arloesi wedi eu penodi a gyda chefnogaeth gan GwE, byddant yn gweithio mewn "clystyrau" gydag ysgolion eraill. Ar hyn o bryd, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y rhaglen Ysgolion Arloesi.

Camau gweithredu pellach a gytunwyd	Pwy	Pryd
Parhau i ddatblygu rhaglen gefnogaeth Ysgol i Ysgol GwE. Cyflwyno'r ail gam i gynnwys meysydd cwricwlaidd penodol.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol – (Cefnogaeth a Brocera)	Parhaus
Monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y gwaith a wneir gan: - Ysgolion Cydarweiniol Llythrennedd, Rhifedd ac ITM - Ymarferydd Arweiniol Llythrennedd a Rhifedd CA3	SM	Gorffennaf 2016
Gweithredu'r fenter Ysgolion Arloesi.	PM	Ionawr 2016

DRAFT

A6 Cynnwys awdurdodau esgobaethol yn effeithiol wrth gynllunio ac arfarnu gwasanaethau rhanbarthol yn strategol

Cynnydd yn erbyn yr argymhelliad:

Camau gweithredu a gymerwyd:

- Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol yn mynychu Cyd-bwyllgor GwE ar rota cytunedig, gan adrodd yn ôl i'w gilydd rhwng cyfarfodydd.
- Cyfarwyddwyr esgobaethol yn herio gwaith GwE gydag ysgolion ar lefel Cyd-bwyllgor

Tystiolaeth o'r Effaith:

- Cofrestr presenoldeb, Cyfarfodydd Cyd-bwyllgor GwE
- Cofnodion, Cyfarfodydd Cyd-bwyllgor GwE.

Camau gweithredu pellach a gytunwyd

Camau gweithredu pellach a gytunwyd

Camau gweithredu pellach a gytunwyd

- Parhau i gynnwys cyfarwyddwyr esgobaethol ar lefel ranbarthol
- Ystyriaeth i'w rhoi i anghenion penodol ysgolion ffydd yng nghyd-destun cynllun busnes a chytundeb lefel gwasanaeth GwE.

RhG GwE gyda
Chyfarwyddwyr
Esgobaethol

Tachwedd 2015

Argymhellion Estyn i Awdurdodau Lleol

Dylai awdurdodau lleol:

A7 Gefnogi eu consortiwm rhanbarthol i ddatblygu cynlluniau busnes tymor canolig a sicrhau bod yr holl gynlluniau'n ystyried anghenion eu hysgolion lleol.

Cynnydd yn erbyn yr argymhelliad:

Camau gweithredu a gymerwyd:

- Mae'r cynllun busnes newydd yn cynnwys cerrig milltir 3 bl, gyda chamau gweithredu, deilliannau a chostau manwl wedi'u hadnabod.
- Cynllun busnes yn cynnwys atodiadau lle y dynodir camau gweithredu a deilliannau i bob awdurdod.
- Gwell cipio data drwy Uned Ddata, ac SMS yn ei le gyda mynediad llawn i'r holl YH a Swyddogion ALL. SMS yn cipio targedau dangosyddion allweddol o bob ysgol ac yn eu cronni ar sail ranbarthol ac awdurdod unigol. Caiff targedau eu monitro a'u herio yn ystod Tymor yr Hydref ar sail ranbarthol, awdurdod ac ysgol unigol. System bellach ar waith yn caniatáu monitro data cynnydd yn erbyn targedau yn dymhorol. Bydd data a gesglir ar lefel macro gydag Ymgynghorwyr Her unigol yn gwybod am ddata ar lefel disgyblion a thracio. SMS hefyd yn hwyluso rheoli a dadansoddi data ar draws ysgolion yn fwy effeithiol.
- Mae gan bob Ymgynghorydd Her amcanion cyfredol. Mae'r amcanion hyn yn perthyn i dri chategori:
- Amcan Rhanbarthol sy'n deillio o'r Cynllun Busnes
- Amcan sy'n deillio o un o ysgolion neu grŵp o ysgolion yr YH
- Amcan sy'n deillio o hunanasesu yr YH/asesu cymheiriaid
- Bydd amcanion Rheoli Perfformiad ar gyfer 2015-16 yn cael eu halinio'n agos â blaenoriaethau'r Cynllun Busnes. Bydd yr holl Ymgynghorwyr Her yn derbyn amcanion sydd wedi'u halinio gyda thargedau gwella meintiol ar gyfer ysgolion cyswllt.

Tystiolaeth o'r Effaith:

- Mae'r cynllun busnes newydd yn cynnwys cerrig milltir 3 bl, gyda chamau gweithredu, deilliannau a chostau manwl yn cael eu hadnabod i bob blaenoriaeth, gan sicrhau ymagwedd fwy strategol at wella ysgolion ar draws y rhanbarth. Fodd bynnag, mae angen i'r blaenoriaethau a nodwyd gael eu hasesu yn fwy ffurfiol am risg i'w fonitro gan yr UDA, y Bwrdd Rheoli, y Cyd-bwyllgor a'r Bwrdd Cyngori ar sail cylchdro.
- Mae'r gwell data a gipiwyd drwy'r Uned Ddata ac SMS wedi sicrhau y gall targedau a data cynnydd gael eu herio yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, mae'n llawer rhy gynnar i asesu effaith y system newydd ar ddangosyddion perfformiad rhanbarthol. Mae angen i'r gwasanaeth rhanbarthol sicrhau bod gan yr Uned Ddata y capasiti i reoli'r holl ofynion data rhanbarthol yn effeithiol ac i nodi'n llwyddiannus yr holl feysydd lle mae angen gwelliannau.
- Mae cynnydd ysgolion yn y categorïau oren a choch yn cael eu monitro'n gadarn ac yn rheolaidd. Bu'r her a chefnogaeth a dargedwyd ar yr ysgolion hyn yn effeithiol. Yn 2015, gwelwyd gwelliant yn yr ysgolion uwchradd yn y categorïau oren/coch ar gyfartaledd o 3.5% yn Lefel 2 yn gynywysedig. Diwygiwyd yr her a chefnogaeth i ysgolion gwyrdd a melyn cryf i sicrhau bod y cymorth yn fwy trylwyr gyda her a gwerthuso cymheiriaid yn canolbwyntio ar wella. Fodd bynnag, mae'n llawer rhy gynnar i fesur ei effaith ar ddarpariaeth a pherfformiad.
- Mae prosesau hunanarfarnu yn nodi'n glir y cryfderau a'r meysydd allweddol sydd i'w gwella. Fodd bynnag, mae angen hogan prosesau hunanarfarnu ymhellach i wneud defnydd mwy effeithiol o ddata perfformiad i dargedu adnoddau a gwelliant.

Camau gweithredu pellach a gytunwyd

- Cloriannu perfformiad ysgolion Awdurdod Unigol 2015
- Addasu Atodiadau Cynlluniau Busnes Awdurdodau Unigol

Pwy

Prif
Weithredwyr,
Cyfarwyddwyr
ac Arweinwyr
Hybiau.
Cyfarwyddwyr

Pryd

Tachwedd 2015

Rhagfyr 2015

Cloriannu perfformiad rhanbarthol gyda Phrif Weithredwyr	& Arweinwyr Hybiau Prif Weithredwyr, RhG & LD	Rhagfyr 2015
--	---	--------------

Dylai awdurdodau lleol::

A8 Ddatblygu perthnasoedd gweithio ffurfiol rhwng pwyllgorau craffu yn eu consortiwm er mwyn craffu ar waith ac effaith eu consortiwm rhanbarthol

Cynnydd yn erbyn yr argymhelliad:

Camau gweithredu a gymerwyd:

- Mae craffu yn ffurfio rhan annatod o waith y Pwyllgor Rheoli, Bwrdd Cynghori, y Cyd-bwyllgor, Bwrdd Arwain Rhanbarthol, Archwiliadau Gweinidogol yn ogystal â Threfniadau Craffu ffurfiol. Ochr yn ochr â'r gwaith arolygu, mae dadl gref dros symleiddio trefniadau atebolrwydd a chraffu dros gyfnod o amser.
- Gwnaed gwaith i gydlyn trefniadau craffu ffurfiol ar draws y rhanbarth, ac adroddwyd ar y rhain i'r Cyd-bwyllgor. Mae lle i fwy o ddysgu cyfunol ac arloesi ddigwydd ar draws y rhanbarth drwy ragor o gydlyn a rhannu rhaglenni gwaith craffu a chanlyniadau thematig.

Tystiolaeth o'r Effaith:

- Mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i fesur effaith y mentrau hyn, gyda llawer ohonynt ar y camau cynnar o weithredu.

Camau gweithredu pellach a gytunwyd

- Mabwysiadu Protocol Craffu ar y Cyd
- Cyfarfod Cadeiryddion Craffu Rhanbarthol
- Cychwyn y Cylch Craffu ar y Cyd Blynnyddol

Pwy

Cyd-bwyllgor
RhG, LD,
Cadeiryddion a
Swyddogion
Craffu
Cadeiryddion,
Swyddogion a
Chyfarwyddwyr
Craffu

Pryd

Tachwedd 2015
Rhagfyr 2015
Ionawr 2015



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

12 TACHWEDD 2015

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE & Cyfarwyddwr Arweiniol / Cadeirydd Bwrdd Rheoli
GwE

Pwnc: Cynllun Busnes 2015-18

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Cynllun Busnes 2015-18.

2.0 Cefndir

2.1 Mae'r cynllun busnes yn nodi ein gweledigaeth, ein nodau a'n blaenoriaethau gweithredu am dair blynedd ar draws y rhanbarth.

3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Manylir hefyd ar ddulliau mesur y deilliannau a'r cerrig milltir allweddol er mwyn mesur cynnydd.

3.2 Mae ffrydiau gwaith manwl ar waith ar gyfer pob blaenoriaeth yn 2015/16 ac yn atodiad i'r Cynllun Busnes. Mae'r ffrydiau gwaith yn adnabod y camau gweithredu, y cyfrifoldeb arweiniol a'r cyfrifoldeb monitro o fewn GwE.

3.3 Mae ffrydiau gwaith unigol hefyd ar waith ar gyfer y canlynol, a gydlynir yn rhanbarthol gan Gyfarwyddwyr yr AAL trwy gyfrwng y strwythur rhwydwaith rhanbarthol:

Cymorth AD Arbenigol

Y Cyfnod Sylfaen

Hyfforddiant a Chymorth Llywodraethwyr

Grant y Gymraeg mewn Addysg / Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Llwybrau Dysgu 14-19

Strategaeth TGCh Ranbarthol

3.4 Adroddir am gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes mewn cyfarfodydd Cyd-bwyllgor yn y dyfodol

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo Cynllun Busnes 2015-18.

5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn

8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli a Bwrdd Ymgynghorol GwE yn ystod datblygu'r ddogfen hon

9.0 Atodiadau

9.1 Cynllun Busnes GwE 2015-18

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Rhoddir unrhyw sylwadau yn y cyfarfod.

Swyddog Cyllid Statudol:

Deallaf bydd unrhyw oblygiadau ariannol a gynhwysir yn y Cynllun Busnes yn cael ei ariannu o adnoddau presennol a / neu grantiau penodol. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, dylai'r Cyd-Bwyllgor nodi gallasai'r awdurdodau lleol sy'n ariannu'r gwasanaethau ofyn i Gwe adnabod arbedion effeithlonrwydd yn ystod 2015/16 a thu hwnt, a dylai unrhyw effaith ar y cynllun busnes gael ei amlinellu.

Cynllun Busnes

2015-2018




CYNNWYS

	Tudalen
Rhagair	3
Cyflwyniad	4
Yr Weledigaeth	5
Amcanion - Addysgol	6
Amcanion – Strwythurau Trefniadaeth Fewnol	7
Blaenoriaethau	8
Strategaeth Gyflawni	9-16
Llywodraethu	17-18
Rhwydweithiau Rhanbarthol	19-22
Cyllideb 2015/16	23
Adrodd	24

GwE: Rhagair

GwE yw Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru sydd yn gweithio yn gwbl ddwyieithog ochr yn ochr â ac ar ran Awdurdodau Lleol Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn i ddatblygu ysgolion rhagorol ar hyd a lled y rhanbarth a gwella deilliannau i ddisgyblion drwy sicrhau arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel, a dysgu ac addysgu o safon ym mhob dosbarth. Nod sylfaenol GwE yw, trwy herio yn bwrpasol a chefnogol, datblygu cyfundrefn sydd yn hunan-wella ac yn dangos ffydd yn ein hysgolion a'u harweinwyr ar bob lefel i'n tywys ar hyd y daith honno. Ar ei orau, mae cydweithio agos rhwng ysgolion yn broses hynod heriol ac yn ein harwain at sylweddoli efallai nad ydy'r hyn yr oeddem ni yn ei ystyried yn arfer ragorol yn rhagorol wedi'r cyfan. Gwaith ysgolion yw gwella eu hunain er lles y dysgwyr yn eu gofal; tasg GwE yw sicrhau bod hynny'n digwydd.



GwE: Cyflwyniad

Mae'r cynllun busnes yn nodi ein gweledigaeth, ein nodau a'n blaenoriaethau gweithredu am dair blynedd. Manylir hefyd ar ddulliau mesur y deilliannau a'r cerrig milltir allweddol er mwyn mesur cynnydd.

Mae ffrydiau gwaith manwl ar waith ar gyfer pob blaenoriaeth yn 2015/16 ac yn atodiad i'r Cynllun Busnes.

GWELEDIGAETH

AMCANION

BLAENORIAETHAU

STRATEGAETH GYFLAWNI

GwE: Yr Weledigaeth

Ein gweledigaeth yw datblygu cyfundrefn addysg o'r radd flaenaf ble gall pob disgybl yn y rhanbarth elwa ar addysgu sy'n gyson safonol ym mhob dosbarth a ble mae pob ysgol, waeth beth eu lleoliad daearyddol, yn cael ei harwain gan arweinwyr rhagorol.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, bydd GwE yn gweithio gyda rhanddeiliaid i fynd ati i gefnogi, herio a monitro perfformiad yn gadarn ac yn effeithiol a sicrhau bod y fframwaith categoraidd yn cael ei ddefnyddio'n gyson i dargedu cynhaliaeth yn ôl yr angen.

Mae'r cynllun gwella cenedlaethol "Cymwys am Oes" yn arwydd o ymrwymiad i'r syniad o gyfundrefn addysg sy'n gwella ei hunan ac yn crisialu'r weledigaeth o arweinwyr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd, gan gymryd yr awenau o ran eu dyfodol a'u datblygiad. Tra bod rhaid i'r rhai o fewn ein hysgolion fod yn gyfrifol am godi safonau yn eu sefydliadau eu hunain, mae GwE yn ceisio magu meddylfryd o gyd-ddathlu llwyddiannau cyfundrefn gyfan.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd GwE yn gweithio tuag at set o amcanion addysgol, ac hefyd yn gwella ei strwythurau trefniadaethol mewnol er mwyn bod mewn gwell sefyllfa i gynnig cefnogaeth gynaliadwy i ysgolion y rhanbarth.

Amcanion Addysgol

Gwella deilliannau ar Lefel 2+ i 62% erbyn Haf 2016 ac yn uwch na 65% erbyn Haf 2017

Gwella deilliannau ar Lefel 2+ i ddysgwyr sydd â hawl i PYD i 36% erbyn Haf 2016

Codi safonau yn CA4 yn y pynciau craidd i gyrraedd 68% (Mathemateg), 77% (Cymraeg) a 72% (Saesneg) erbyn Haf 2016

Gwella deilliannau i blant a phobl ifanc yn y CS, CA2 a CA3 a sicrhau bod asesiad athro ar ddiwedd y cyfnod yn adlewyrchiad manwl gywir o safonau dysgwyr unigol yn 2016.

Gwella deilliannau i blant a phobl ifanc sydd â hawl i PYD yn y CS, CA2 a CA3 a sicrhau bod asesiad athro ar ddiwedd y cyfnod yn adlewyrchiad manwl gywir o safonau dysgwyr unigol yn 2016.

Amcanion - Gwella Strwythurau Trefniadaeth Fewnol



Blaenoriaethau

Mae'r chwe awdurdod lleol cyfansoddol wedi cytuno ar y deilliannau â blaenoriaeth yn y ddogfen hon. Maent yn adlewyrchu ymrwymiad y rhanbarth i roi sylw i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Byddant yn llywio gwaith GwE ac yn dangos sut fyddwn ni'n gweithredu disgwyliadau'r Model Cenedlaethol a gofynion Cytundeb Partneriaeth Gogledd Cymru. Adlewyrchant hefyd ganfyddiadau adroddiadau thematig SAC/Estyn a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015. Mae pwyslais amlwg yn ein dull gweithredu a'n methodoleg ar ddatblygu system hunan wella ble bydd Ymgynghorwyr Her, Swyddogion ALL, arweinwyr ac ysgolion yn mynd ati'n ddyfal i gefnogi, herio a rhannu'r arferion gorau. Rhoddir prosesau sicrhau ansawdd trylwyr ar waith i sicrhau bod y ddarpariaeth yn effeithiol o fewn ac ar draws y tri hwb daearyddol.

Codi safonau dysgu ac addysgu i bob dysgwr ar draws y rhanbarth, yn gyson ar draws pob cyfnod

•B1.1
•B1.2

Gwella ansawdd arweinyddiaeth a'i heffaith

•B2

Datblygu system ysgol sy'n hunan wella

•B3

Gwella gweithdrefnau mewnol i sicrhau gwasanaeth herio a chefnogi effeithiol a chyson ar draws y rhanbarth

•B4

Sicrhau bod trefniadau llywodraethu, arwain a rheoli GwE yn effeithiol

•B5

Strategaeth Gyflawni

Mae'r strategaeth gyflawni yn manylu ar ddulliau mesur y deilliannau a'r cerrig milltir allweddol er mwyn mesur y cynnydd tuag at gyflawni'r blaenoriaethau.

Mae ffrwd waith fanwl ar waith ar gyfer bob un o'r 5 maes â blaenoriaeth ar gyfer gwelliant.

Mae'r ffrydiau gwaith yn adnabod y camau gweithredu, y cyfrifoldeb arweiniol a'r cyfrifoldeb monitro o fewn GwE.

Mae ffrydiau gwaith unigol hefyd ar waith ar gyfer y canlynol, a gydlynir yn rhanbarthol gan Gyfarwyddwyr yr AAL trwy gyfrwng y strwythur rhwydwaith rhanbarthol:

- Cymorth AD Arbenigol
- Y Cyfnod Sylfaen
- Hyfforddiant a Chymorth Llywodraethwyr
- Grant y Gymraeg mewn Addysg / Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Llwybrau Dysgu 14-19
- Strategaeth TGCh Ranbarthol

Mae'r ffrydiau gwaith wedi'u cynnwys fel atodiad i'r Cynllun Busnes

Codi safonau dysgu ac addysgu i bob dysgwr ar draws y rhanbarth yn gyson yn y sector cynradd (B1.1)

Blaenoriaeth	Dulliau mesur y deiliant 2015-16
- Adnabod tanberfformiad trwy ddadansoddi data diwedd cyfnod a data cynyddol yn fanwl er mwyn targedu adnoddau ac arbenigedd yn briodol - Sicrhau dogfennaeth strategol effeithiol sy'n amlinellu yn glir sut y bydd ysgolion yn defnyddio adnoddau yn effeithiol i godi safonau - Gwella tracio a gweithdrefnau mewnol er mwyn sicrhau ymyriad priodol ac effeithiol ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr - Datblygu'r prosesau sy'n arwain at well sylfaen dystiolaeth ac a fydd, o ganlyniad, yn sicrhau asesiad athro ar ddiwedd cyfnod allweddol sy'n fwy dibynadwy	- Gwell deilliannau mewn asesu ar ddiwedd cyfnod allweddol ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr - Gwell canlyniadau yn y profion darllen a rhifedd ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr - Mae asesiad athro ar ddiwedd cyfnod allweddol yn adlewyrchiad manwl gywir o safonau dysgwyr unigol

CERRIG MILLTIR 2015-16

Mae gan bob ysgol ddogfennaeth strategol sy'n canolbwyntio ar godi safonau

Tanberfformiad yn cael ei adnabod ac mae adnoddau yn cael eu neilltuo i dargedu ysgolion

Mae pob ysgol yn rhan o weithdrefnau grymus ar gyfer cymedroli asesiad athro

2016-17

Mae gan bob ysgol systemau tracio a thargedu effeithiol ac maent yn defnyddio ymyriadau sydd â hanes o fod yn llwyddiannus

Ysgolion i ymateb i newidiadau yn y disgwyliadau o ddysgwyr sy'n cyflawni'r lefelau uwch

2017-18

Mae deilliannau haf 2017 yn llywio cynllunio pellach ar gyfer eleni

Codi safonau dysgu ac addysgu i bob dysgwr ar draws y rhanbarth yn gyson yn y sector uwchradd (B1.2)

Blaenoriaeth	Dulliau mesur y deilliant 2015-16
- Cynyddu cyfran y dysgwyr [gan gynnwys y rhai hynny sydd â hawl i PYD] sy'n cyflawni Trothwy Lefel 2+ ar ddiwedd CA4 - Gwella hyd yr eithaf gyflawniad pob dysgwr yng nghyfnod allweddol 4 ar draws pob pwnc ar bob lefel - Gwella cysondeb a dibynadwyedd asesu, gosod targedau, tracio ac ymyriad a defnyddio data yn effeithiol i dargedu gwelliant - Sicrhau cefnogaeth i'r pynciau craidd a Bagloriaeth Cymru ar gyfer cyflwyno'r manylebau newydd, yn enwedig ar gyfer targedu gwelliant mewn Saesneg a Mathemateg - Cryfhau gweithdrefnau i wella cysondeb a dibynadwyedd asesiad athro yng nghyfnod allweddol 3	- Cynyddu'r ganran sy'n cyflawni L2+ i 62% yn 2016 - Cynyddu canran y disgyblion hPYD sy'n cyflawni L2+ i 36% yn 2016 - Cynyddu'r ganran sy'n cyflawni L2: ➢ Mathemateg i 68% yn 2016 ➢ Saesneg i 72% yn 2016 - Gwell dibynadwyedd a dealltwriaeth o Lefelau Asesiad Athro yng nghyfnod allweddol 3

CERRIG MILLTIR 2015-16

Mae'r cwricwlwm a'r modelau asesu yn addas i'r diben

Mae gan ysgolion fynediad i rwydweithiau cefnogaeth addas ar gyfer y pynciau craidd, gan gynnwys ysgolion Arweiniol ac ysgolion Cyd-arweiniol

2016-17

Cefnogaeth bwrpasol ar gael ar gyfer Saesneg a Mathemateg ar draws y rhanbarth

Rhwydweithiau hunangynhaliol wedi hen sefydlu ac yn weithredol ar draws y rhanbarth

2017-18

Mae deilliannau Dangosyddion Perfformiad diwygiedig 2017 yn llywio cynllunio pellach

Gwella ansawdd arweinyddiaeth a'i heffaith (B2)

Blaenoriaeth

Gwella arweinyddiaeth – gwella ansawdd yr arweinyddiaeth a'i heffaith ar wella deilliannau ar draws y rhanbarth

- Mae gan ymarferwyr ysgolion, ar bob lefel ar draws rhanbarth GwE, sgiliau arwain effeithiol perthnasol
- Mae'r meddylfryd arweinyddiaeth wasgaredig wedi cydio ym mhob ysgol yn y rhanbarth i gryfhau'r cynhwysedd ar gyfer rhoi ymyrraeth gadarn a chyflym ar waith mewn ysgolion sy'n achosi'r pryder mwyaf.
- Mae gan bob ymarferydd ym mhob ysgol yn rhanbarth GwE hawl i ddatblygiad arweinyddiaeth effeithiol perthnasol.
- Mae gan bob Ymgynghorydd Her sgiliau arweinyddiaeth effeithiol perthnasol.
- Diwellir y nodau yn Cymwys am Oes yn llawn i bob dysgwr ym mhob sefydliad.

Dulliau Mesur y Deilliant 2015-16

CERRIG MILLTIR 2015-16

Carfan gyntaf, ail a thrydydd arweinwyr canol, a charfan gyntaf Arweinwyr Canol Llythrennedd Corfforol, wedi cymryd rhan yn y rhaglen ddatblygu berthnasol (cyfanswm o 182)

Carfan gyntaf Penaethiaid Profiadol (cyfanswm o 20) wedi cymryd rhan yn y rhaglen ddatblygu berthnasol

- YCA penodol wedi'u hadnabod ac wrthi'n datblygu arweinyddiaeth ar draws y rhanbarth
- GwE i barhau i weithio gyda LIC a'r Consortia i ddatblygu Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Genedlaethol effeithiol
- Pob Ymgynghorydd Her wedi cymryd rhan yn y rhaglen ddatblygu unigryw (grŵp ac unigol yn ôl yr angen).

2016-17

Bydd RhDA GwE ar gael i bob ysgol ar draws rhanbarth GwE.

Yn unol â pholisi LIC, GwE i ddatblygu Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer Darpar Benaethiaid ac Arweinwyr Canol, Penaethiaid mewn swydd / Profiadol / Gweithredol, ac Arweinwyr Ymgynghorol, i'w rhannu'n genedlaethol.

2017-18

Ymestyn RhDA GwE yn lleol ac yn genedlaethol yn ôl yr angen.

GwE i gynnwys Datblygiad Arweinyddiaeth effeithiol a ddatblygir gan Gonsortia eraill.

Datblygu system ysgol sy'n hunan-wella (B3)

Blaenoriaeth	Dulliau Mesur y Deilliant 2015-16
Datblygu system ysgol sy'n hunan-wella	- Gwella perfformiad yn y prif ddangosyddion ym mhob cyfnod allweddol, gan gynnwys disgyblion PYD a'r rheiny o gefndiroedd sydd dan anfantais economaidd. - Gwella perfformiad yn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol. - Lleihau nifer yr ysgolion sy'n mynd i gategorïau statudol Estyn. - Cynnydd dros 2014-2017 yn nifer yr ysgolion categori gwyrdd a melyn ar draws y rhanbarth. - Symud tuag at ddiwylliant ac ethos cadarn a chynaliadwy o gyd herio a chefnogi ar draws y rhanbarth.

CERRIG MILLTIR 2015-16

Arweinwyr ysgolion yn chwarae rhan fwy sylweddol mewn llunio a chydlynu strategaethau i hybu system hunan wella.

Model gweithio wedi gwreiddio ar draws y rhanbarth sy'n datblygu cynhwysedd yn ein hysgolion i symud tuag at system ysgol sy'n hunan wella o fewn y ddwy flynedd nesaf.

Mae gan GwE fwy o gynhwysedd i ddarparu mwy o gefnogaeth ddwys i ysgolion melyngoch a choch.

2016-17

Diwylliant o gyd herio a chyd gefnogi yn gwreiddio ar draws y rhanbarth.

Gwasanaeth mwy effeithiol sy'n manteisio'n llawn ar arbenigedd ei Ymgynghorwyr Her o fewn y tîm craidd ac yn darparu lefel uchel o her a chefnogaeth i ysgolion.

2017-18

Diwylliant cadarn a chynaliadwy o gyd herio a chefnogi ar draws y rhanbarth.

System ysgol sy'n hunan wella, ac sy'n gynaliadwy, wedi gwreiddio ar draws y rhanbarth.

Cryn hyder yn ansawdd y gwasanaeth ar draws yr holl randdeiliaid allweddol.

Gwella gweithdrefnau mewnol er mwyn sicrhau gwasanaeth herio a chefnogi effeithiol a chyson ar draws y Rhanbarth (B4)

Blaenoriaeth	Dulliau Mesur y Deilliant 2015-16
Sicrhau mwy o gysondeb yn ansawdd yr her a'r gefnogaeth i ysgolion drwy ddatblygu rôl yr Ymgynghorydd Her o fewn y gwasanaeth rhanbarthol	- Gweithdrefnau sicrhau ansawdd ac atebolrwydd mewnol cadarn ar waith sy'n arwain at fwy o gysondeb o fewn yr hybiau, ac ar draws yr hybiau. - Gweithdrefnau Rheoli Perfformiad cadarn yn gyson a gweithdrefnau i Ymgynghorwyr Her unigol yn hybu datblygiad proffesiynol personol. - Gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer cymedroli categoreiddio rhanbarthol. - Aelodau UDRh ar secondiad o ysgolion yn cael eu defnyddio'n effeithiol i fod yn Ymgynghorwyr Her. - Rhaglenni rhanbarthol i uwch sgilio Ymgynghorwyr Her ac aelodau UDRh ar secondiad yn cael eu cyflwyno'n effeithiol. - Dim ysgol sydd mewn categori melyn neu well yn mynd i gategori monitro Estyn. - Codi'r ganran o ysgolion melyn a gwyrdd yn y rhanbarth. - Uwch Ymgynghorwyr Her pob hwb yn sicrhau ansawdd gwaith eu Hymgyngorwyr Her i sicrhau cysondeb o fewn hybiau, ac ar draws hybiau. - Rhaglenni hyfforddiant GwE yn cael eu llunio a'u darparu i greu mwy o gynhwysedd o fewn timau. - Briffiau portffolio ar draws rhanbarth GwE yn galluogi Ymgynghorwyr Her i gael eu hyfforddi mewn rolau arbenigol a rhannu'u harbenigedd efo timau ehangach GwE. - Uwch Ymgynghorwyr Her pob hwb yn comisiynu unigolion efo'r cymwysterau priodol i wneud gwaith Ymgynghorydd Her, sydd felly'n creu cynhwysedd ar draws y system.

CERRIG MILLTIR

2015-16

Fframwaith perfformiad ac atebolrwydd yn weithredol.

Cyfarwyddwr Cynorthwyol [Safonau] yn monitro'r fframwaith i ddatblygu ar yr arferion gorau a sicrhau datblygiad parhaus y model.

Uwch Ymgynghorwyr Her yn rhoi mwy o her ac atebolrwydd i Ymgynghorwyr Her.

Cyfarwyddwr Cynorthwyol [Safonau] yn ymwneud â gwaith traws-ranbarthol cenedlaethol i sicrhau bod timau GwE yn perfformio yn unol â disgwyliadau'r model cenedlaethol.

Uwch Ymgynghorwyr Her yn sicrhau ansawdd y cynnydd a wneir yn erbyn gwaith a gomisiynir a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol [Safonau] yn monitro.

Gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer cymedroli categoraiddio rhanbarthol.

Gweithdrefnau Rheoli Perfformiad cadarn yn llawn weithredol ar draws yr hybiau.

Rhaglen hyfforddi YH berthnasol yn cael ei chyflwyno a'i heffaith yn cael ei harfarnu.

Aelodau UDRh ar secondiad o'n hysgolion yn cael eu huwch sgiliau a'u lleoli a'u defnyddio'n effeithiol fel YH.

Model gweithio newydd o adolygu cymheiriaid ar waith ac yn cael ei arfarnu.

2016-17

Mwy o gysondeb yn ansawdd cefnogaeth a her gan YH.

Mwy o hyder yng nghysondeb y broses gategoreiddio genedlaethol.

Gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer archwilio ac atebolrwydd YH.

Model adolygu cymheiriaid, cyd herio a chyd gefnogi yn gwreiddio ar draws y rhanbarth.

Adolygiad o raglen datblygu Ymgynghorwyr Her 2015-16 yn bwydo i gynlluniau presennol ac i'r dyfodol.

2017-18

Cryn hyder yn ansawdd y gwasanaeth ar draws yr holl randdeiliaid allweddol.

Cryn hyder yn ansawdd y broses gategoreiddio genedlaethol.

Prosesau clir ac effeithlon ar gyfer atebolrwydd ac adrodd wedi gwreiddio ac yn llwyr weithredol.

Arweinwyr addysg ar bob lefel yn cydweithio mewn system hunan wella, gan herio a chefnogi'i gilydd i godi safonau ym mhob ysgol.

Adolygu rôl yr Ymgynghorydd Her ar lefel uchel i sicrhau eu bod yn dal yn addas i'r swydd.

Sicrhau bod trefniadau llywodraethu, arwain a rheoli GwE yn effeithiol (B5)

Blaenoriaeth

Sicrhau bod trefniadau llywodraethu, arwain a rheoli GwE yn effeithiol.

- Trefniadau llywodraethu ac arwain effeithiol sydd yn unol â disgwyliadau'r Model Cenedlaethol, gofynion Estyn a SAC.
- Trefn glir ar gyfer gwneud penderfyniadau ar waith i'r Cyd Bwyllgor.
- Y Bwrdd Ymgynghorol yn gallu gweithio'n effeithiol mewn rôl ymgynghorol/cyfaill beirniadol.
- Eglurder rôl y Cyfarwyddwyr Addysg mewn perthynas â rheoli a goruchwyllo GwE.

Dulliau Mesur y Deilliant 2015-16

CERRIG MILLTIR 2015-16

Mae Bwrdd Rheoli GwE a'r Uwch Dîm Arwain yn gweithio gyda phwyllgorau craffu yr awdurdod lleol perthnasol i weithredu rhaglen waith gydlynus mewn perthynas â gwella ysgolion.

Adolygu'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod mewn perthynas â'r Model Cenedlaethol.

Bwrdd Ymgynghorol yn datblygu ei rôl 'cyfaill beirniadol'.

2016-17

Rhaglen waith yn barod ac yn weithredol.

Cytundeb Rhyng-Awdurdod wedi'i adolygu

Y Bwrdd Ymgynghorol wedi datblygu'n llawn i fod yn gyfaill beirniadol.

2017-18

Adolygu llwyddiant y rhaglen waith ac adnabod meysydd i'w gwella.


GwE: Llywodraethu

Mae'r gwasanaeth, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2013, yn atebol i chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru ac yn gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau statudol o safbwynt dyletswyddau monitro, herio a darparu gwasanaethau cymorth. Yn ogystal, mae'n darparu gwasanaethau y gall ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru eu comisiynu.

Mae aelodau'r Cyd-Bwyllgor yn cynnwys chwe Aelod Cabinet dros Addysg o Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, sef aelodau sydd â phleidlais. Nid oes gan aelodau sy'n gynrychiolwyr o blith Penaethiaid a Llywodraethwyr bleidlais.

Dyma gylch gorchwyl a phwerau datganoledig y Cyd-Bwyllgor:

- hyrwyddo cydweithio i gyflenwi'r Gwasanaeth drwy;
- hwyluso gweithio partneriaethol adeiladol;
- cysylltu â chyrrff allweddol sydd â diddordeb a rhanddeiliaid pan fo hynny'n briodol; a
- cyflawni gweithgareddau eraill tebyg sydd wedi'u cynllunio neu'n arwain at gyflenwi'r Gwasanaeth yn llwyddiannus; a
- goruchwyllo gwaith rheoli'r Gwasanaeth a sicrhau bod y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu ac yn perfformio yn unol â disgwyliadau'r Awdurdodau Partner, fel y nodir yn yr Achos Busnes Llawn, y Cytundeb Rhyng-Awdurdod a'r Cynllun Busnes Blyneddol cytûn;
- cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer y Gwasanaeth yn flynyddol;
- cymeradwyo'r cynllun busnes ar gyfer y Gwasanaeth yn flynyddol;
- monitro a rheoli'r peryglon sydd yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth;
- cadarnhau ceisiadau gan y Gwasanaeth am gyllid ychwanegol gan Gyngorau unigol;
- cymeradwyo strwythur staffio y Gwasanaeth;
- penodi Prif Swyddog i'r Gwasanaeth;
- penderfynu ar gamau disgyblu yn erbyn y Prif Swyddog; ac,
- ble mae angen, pennu neu wneud trefniadau ar gyfer pennu apeliadau mewn perthynas â materion Adnoddau Dynol.




Cedwir y materion canlynol yn benodol i Gabinetau unigol benderfynu arnynt:

- i. cymeradwyo trefniadau llywodraethu partneriaeth rhyng-Gyngor;
- ii. cynyddu cyllideb cyfraniadau'r Cynghorau;
- iii. caffael y gwiriadau archwilio a sicrwydd angenrheidiol; a
- iv. diweddu'r Bartneriaeth.

Cynhelir o leiaf tri chyfarfod y flwyddyn (unwaith y tymor), a dyma'r calendr cyfarfodydd am 2015-16:

- 15 Gorffennaf 2015
- 23 Medi 2015
- 12 Tachwedd 2015
- 24 Chwefror 2016
- 6 Gorffennaf 2016

Rhwydweithiau Rhanbarthol



Rhwydwaith Gwella Ysgolion

Mae'r rhwydwaith hwn yn monitro ac yn herio effeithiolrwydd penderfyniadau GwE o ran gwella ysgolion, a thrwy hynny rhoi cyswllt rhwng y chwe ALL ac agenda GwE. Mae'n edrych ar bolisiâu ac arferion ac yn cytuno ar flaenoriaethau, er mwyn bodloni'r gofynion o ran codi safonau a gwella perfformiad ysgolion i bob categori o ddisgyblion.

Cadeirydd: Delyth Molyneux (Ynys Môn)

Aelodaeth: Uwch Swyddogion o bob ALL: Uwch Ymgynghorwyr Her GwE.

- **Rhwydwaith 14-19** – bydd y Rhwydwaith hwn yn rhoi trosolwg o'r arlwy 14-19 rhanbarthol, gan gynnwys dyrannu adnoddau i raglenni yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys: cefnogaeth i gynllunio'r defnydd o grantiau; sicrhau bod darpariaeth ysgolion a darparwyr yn gyson i gyflawni effaith disgwylidig y grantiau hyn; gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu trosolwg strategol i herio a chefnogi pob darparwr, gan gynnwys colegau AB a darparwyr hyfforddiant preifat, i sicrhau cydraddoldeb mynediad at gyfleoedd datblygu; gweinyddu'r grantiau perthnasol a chydlynw a chefnogi ceisiadau am gyfleoedd grantiau newydd.
Cadeirydd: John Gambles (Sir Ddinbych)
Aelodaeth: cynrychiolwyr Rhwydweithiau Ardal Lleol (LAN), cynrychiolydd o GwE.
- **Rhwydwaith Cyfnod Sylfaen** – daw'r Rhwydwaith hwn ag Uwch Swyddogion y Cyfnod Sylfaen ynghyd er mwyn rhoi trosolwg strategol o ddatblygiadau yn y Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys lleoliadau a gynhelir a lleoliadau a ariennir nas cynhelir. Mae'n rhoi arweiniad a chyfeiriad yn y maes allweddol hwn, yn cefnogi perthynas waith dda rhwng ALL unigol a GwE ac yn gallu hwyluso'r broses pan fydd y Cyfnod Sylfaen yn trosglwyddo i'r Gwasanaeth Rhanbarthol (yn unol â'r Model Cenedlaethol) pan fydd y Cyfarwyddwyr yn credu bod hynny'n briodol. Gall y Rhwydwaith hefyd ddatblygu rhwydweithiau arfer dda a dulliau ar y cyd o ddarparu hyfforddiant ar draws y rhanbarth, yn enwedig yn sgil newidiadau yn strwythur grant y Cyfnod Sylfaen, ac addasiadau diweddar yn strwythur y cwricwlwm, yn ogystal â'r rheiny a ragwelir drwy Archwiliad y Cyfnod Sylfaen ac Adolygiad Donaldson.
Cadeirydd: Claire Homard (Sir y Fflint)
Aelodaeth: Uwch Swyddogion â chyfrifoldeb am y Cyfnod Sylfaen o bob ALL, cynrychiolydd o GwE.
- **Rhwydwaith TGCh a Data** – mae'r Rhwydwaith hwn yn goruchwyllo'r broses o greu llwyfannau meddalwedd cyffredin a chronfeydd data ar gyfer y gwasanaeth addysg yn y rhanbarth, gyda'r bwriad o gyfoethogi a chynnal cydweithio.
Cadeirydd: Simon Billington (Wrecsam)
Aelodaeth: Swyddogion o bob ALL, Rheolwr Gwybodaeth GwE.

Rhwydwaith Cyllid ac Adnoddau

Mae'r Rhwydwaith hwn yn edrych ar faterion yn ymwneud â grantiau rhanbarthol, cyllid ysgol, darpariaeth llefydd, rhaglenni cyfalaf ac ati yng nghyd-destun datblygu trefniadau cydweithio, cysondeb polisiâu ac arferion a chytundebau cost cyd-gomisiynu. Yn y dyfodol, bydd y Rhwydwaith hefyd yn edrych ar feysydd eraill ble gallai'r chwe ALL ddymuno cydweithio arnynt.

Cadeirydd: John Davies (Wrecsam)

Aelodaeth: Swyddog Cyllid o bob ALL; Rheolwr Busnes GwE.

Rhwydwaith Adnoddau Dynol

Mae'r rhwydwaith hwn yn hyrwyddo mwy o gydweithio i ddatblygu gwasanaethau AD sy'n sicrhau cyngor a chymorth o safon uchel yn gyson i arweinwyr ysgolion, gan arwain at well capasiti a datblygu system ysgol sy'n hunan-wella (gan gyfrannu at Amcan Strategol 4 Cymwys am Oes) ar hyd a lled y rhanbarth. Yn allweddol i hyn y mae datblygu a hybu gweithdrefnau model rhanbarthol i reoli presenoldeb staff, rheoli perfformiad a medrusrwydd a sicrhau cysondeb o ran cyngor ac arfer.

Cadeirydd: Julie Worrall (Sir Ddinbych)

Aelodaeth: Rheolwyr AD/ Partneriaid Busnes o bob ALL

Rhwydwaith Cyfrwng Cymraeg ac Adeiladu Cynhwysedd - mae'r Rhwydwaith hwn yn hybu mwy o gydweithio a rhannu arbenigedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg i fodloni anghenion amrywiol y rhanbarth. Mae hefyd yn ceisio gwella cydraddoldeb cyfle a chysondeb i ddatblygu polisiâu ac arferion i rannu arbenigedd mewn meysydd gweithgarwch eraill.

Cadeirydd Garem Jackson (Gwynedd), ar ran Arwyn Thomas

Aelodaeth: Swyddogion o bob ALL, cynrychiolydd o GwE.

Rhwydwaith Lles a Phartneriaethau - mae'r Rhwydwaith hwn yn rhoi sylw i faterion yn ymwneud â galluogi disgyblion i chwarae rhan lawn a theg yn narpariaeth y gwasanaeth addysg er mwyn gwella safonau. Mae'n cynnwys yr arbenigwyr yn y meysydd gweithgarwch hyn o bob awdurdod.

Cadeirydd: Richard Ellis Owen (Conwy)

Aelodaeth: Swyddogion Cynhwysiant a Chynhwysiant Cymdeithasol o bob ALL, cynrychiolydd o GwE.

Rhwydwaith Cymorth Llywodraethwyr

Mae'r rhwydwaith hwn yn cyfarfod o leiaf unwaith y tymor i rannu arfer orau. Mae'n cydlynu ac yn cyd-gyflawni rhaglen hyfforddiant ranbarthol statudol Llywodraethwyr Cymru; cynnig arweiniad a chymorth ar gyfer cynhadledd flynyddol i Lywodraethwyr sy'n gydnaws â blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol; ar y cyd â Cynnal, mae wedi datblygu pecyn cymorth e-ddysgu i Lywodraethwyr. Mae'r pecyn cymorth hwn bellach wedi'i gyflwyno i gonsortia eraill ac mae'r grŵp yn parhau i arwain ar ddatblygu hwn.

Cadeirydd: Ray Wells, Swyddog Datblygu Rhanbarthol, Llywodraethwyr Cymru

Aelodaeth: Swyddog Cymorth Llywodraethwyr o bob Awdurdod Lleol a chynrychiolydd o GwE

DRAFT

GwE: Cyllideb 2015/16

Cymeradwywyd y Gyllideb am 2015-16 gan y Cyd-Bwyllgor yn eu cyfarfod ar 15/07/15.

Dyma gyfraniadau'r Awdurdodau Lleol:

GWARIANT	CYLLIDEB 2015/16 £
Costau gweithwyr	3,070,352
Eiddo	92,997
Teithio	122,822
Cyflenwadau a Gwasanaethau	95,134
Comisiynu	259,400
Gwasanaethau cefnogi	52,547
Model Cenedlaethol – a gomisiynir gan AauLI (Rhwydweithiau Rhanbarthol)	463,004
CYFANSWM GWARIANT	4,156,256

AWDURDOD LLEOL	CYFRANIAD 2015/16 £
Ynys Môn	421,410
Gwynedd	739,138
Conwy	644,348
Sir Ddinbych	632,512
Sir y Fflint	935,531
Wrecsam	783,317
CYFANSWM	4,156,256

Mae cyfraniadau'r awdurdodau lleol ar sail yr asesiadau wedi'u seilio ar ddangosyddion (IBA) a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru fel rhan o setliad cyllideb referniw 2015/16.

GwE: Adrodd

	Tymor yr Hydref	Tymor y Gwanwyn	Tymor yr Haf
Cyd-Bwyllgor	Adroddiad Blynyddol ar berfformiad	Cynigion i flaenoriaethau a thargedau'r cynllun busnes newydd	Adroddiad blynyddol yn erbyn y gyllideb
		Cynigion gosod y gyllideb	
	Monitro'r gyllideb yn dymhorol		
	Monitro cynnydd yn dymhorol yn erbyn y Cynllun Busnes		



ADRODDIAD AR GYFER Y CYD-BWYLLGOR

12 Tachwedd 2015

Adroddiad gan: Cyfarwyddwr Arweiniol / Cadeirydd Bwrdd Rheoli GwE

Pwnc: Trefniadau Craffu

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

- 1.1 I adrodd ar drefniadau craffu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhelliad gan Swyddfa Archwiliad Cymru bod Consortia yn "datblygu trefniadau craffu ar y cyd ar gyfer y consortia yn gyffredinol, yn ogystal â chraffu ar berfformiad awdurdodau unigol, a allai gynnwys sefydlu cydbwyllgor craffu neu waith cydgysylltiedig gan bwyllgorau craffu awdurdodau lleol."

2.0 Cefndir

- 2.1 Yn yr adroddiad 'sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol - darlun cynnar' ym mis Mehefin 2015, daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad bod swyddogaethau craffu ac archwilio yn datblygu ond nid ydynt eto wedi eu sefydlu yn llawn.
- 2.2 Adroddir bod "pob awdurdod lleol yn gyfrifol am graffu ar y consortia rhanbarthol mewn cysylltiad â pherfformiad eu hawdurdod lleol unigol. Mae lefel y craffu rhwng awdurdodau lleol yn anghyson, a hynny o fewn pob consortiwm rhanbarthol ac yn genedlaethol. Ar y cyfan, mae'r gwaith craffu wedi digwydd ar lefel uchel, heb ganolbwyntio llawer ar wybodaeth ariannol na gwerth am arian. Gan amlaf, cynhaliwyd y gwaith ar sail ymatebol yn hytrach nag yn rhagweithiol. Fodd bynnag, mae rhai consortia rhanbarthol yn datblygu prosesau craffu cyffredin. Er enghraifft, mae ERW yn gweithio gyda Swyddogion Craffu o bob awdurdod lleol er mwyn sefydlu amserlen sy'n cynnwys cyfres o feysydd pwnc cyffredin i bob awdurdod lleol graffu arnynt, a'r data cysylltiedig y bydd y consortiwm yn ei ddarparu. Dylai hyn roi sicrwydd i bob awdurdod lleol eu bod yn craffu ar y meysydd allweddol, gan alluogi'r consortiwm i gynllunio ei ddefnydd o adnoddau'n well.
- 2.3 Nid oes yr un o'r rhanbarthau yn gwneud gwaith craffu ar bob consortiwm rhanbarthol yn ei gyfanrwydd. Roedd yn annhebygol bod Cadeiryddion pwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol perthnasol wedi cyfarfod â'i gilydd. Bwriad gweithio'n rhanbarthol yw rhannu arferion gorau ar draws pob rhanbarth. Gallai craffu ar y cyd ei gwneud yn bosibl i ystyried effaith
-

gyffredinol gweithio'n rhanbarthol a pha un a yw perfformiad awdurdodau unigol a pherfformiad y rhanbarth cyfan yn gwella."

- 2.4 Yn dilyn hyn, argymhellwyd bod Consortia yn "datblygu trefniadau craffu ar y cyd ar gyfer y consortia yn gyffredinol, yn ogystal â chraffu ar berfformiad awdurdodau unigol, a allai gynnwys sefydlu cydbwyllgor craffu neu waith cydgysylltiedig gan bwyllgorau craffu awdurdodau lleol."
- 2.5 A derbyn bod gan bob Awdurdod Lleol gyfrifoldeb statudol clir am sicrhau gwelliant ysgol, mae'n bwysig bod atebolrwydd clir am hyn o fewn bob Awdurdod. Mae rôl allweddol i swyddogaethau craffu ym mhob Awdurdod o ran diogelu hawl plant a phobl ifanc i ddysgu a bod y ddarpariaeth yn lleol yn cynnig gwerth am arian. Prif Swyddogion Addysg unigol yw'r swyddogion allweddol sy'n atebol i'r awdurdod lleol am gyfrifoldebau gwella ysgolion a gallant gynrychioli gwaith GwE yn eu rôl fel aelodau o Bwyllgor Rheoli GwE. Fodd bynnag, gall aelodau o dimau arwain GwE eu cefnogi hefyd fel bo'n briodol gydag adroddiadau generig neu thematig ble mae gofyn am gyfraniad allweddol i ddatblygu arfer.
- 2.6 Mae lle i ragor o ddysgu ar y cyd ac i ddatblygiadau arloesol ar draws y rhanbarth trwy fwy o gyd-drefnu a rhannu rhaglenni gwaith craffu a deilliannau thematig.
- 2.7 Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr elfennau lle mae'r newidiadau pennaf wedi bod. Mae'r newidiadau wedi eu hamlygu mewn coch.

3.0 Model

Adroddiadau enghreifftiol i'w hystyried ym mlaengynllun gwaith pob Awdurdod (gyda deilliannau a dysgu i'w rhannu ar draws pob Awdurdod).

Hydref	Gwanwyn	Haf
Dysgu o Ymyriadau Gwella Ysgolion	Deilliannau Dysgwyr (yn cynnwys Presenoldeb a Gwaharddiadau)	Cynllun Gwella Lleol
	Hunanarfarniad o Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc yr Awdurdod Addysg Lleol (LAESCYP)	
	Hunanarfarniad o GwE	
	Dogfen Comisiynu ALI Unigol ar gyfer GwE	

Meysydd gwaith ar gyfer craffu wedi'u hadnabod gan swyddogaeth graffu Awdurdod unigol (gyda deilliannau a dysgu i'w rhannu ar draws pob Awdurdod):

- Gwaith Partneriaid Cynorthwyol GwE;
- Rhaglenni Datblygu GwE;
- Y gefnogaeth a'r her a gynigir i ysgolion melyngoch/coch/proses/effaith;
- Cyllideb/rheoli risg y gwasanaeth;
- Model newydd o weithio; a
- Gweithredu ysgolion arloesi

4 Argymhelliad:

Bod Bwrdd Rheoli GwE a'r Tîm Rheoli yn gweithio gyda'r pwyllgorau craffu awdurdod lleol perthnasol i weithredu rhaglen waith gydgysylltiedig mewn perthynas â gwella ysgolion.

5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE yn ystod datblygu'r ddogfen.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Mae'r adroddiad yn argymhell sefydlu trefniadau craffu ffurfiol gydag awdurdodau unigol er mwyn darparu trosolwg o berfformiad y gwasanaeth. Wrth ddatblygu trefniadau o'r fath, mae'n bwysig hefyd sefydlu dulliau o adrodd am gasgliadau pwyllgorau craffu unigol. Dylai hyn gynorthwyo a chefnogi'r Cyd-bwyllgor a'r Swyddogion yn eu rôl o arwain a chyfrannu tuag at reoli'r gwasanaeth a'u trosolwg eu hunain o berfformiad GwE.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Er bydd y trefniadau craffu newydd yn golygu gwaith ychwanegol, deallaf bwriedir cyflawni'r trefniadau rheiny o fewn yr adnoddau cyfredol.



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

12 TACHWEDD 2015

Adroddiad gan: Cyfarwyddwr Arweiniol GwE / Cadeirydd y Bwrdd Rheoli

Pwnc: Rhwydweithiau Rhanbarthol

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Diweddarau aelodau ar y strwythur Rhwydweithiau Rhanbarthol a chytuno ar gylch adrodd yn ôl i'r Cyd-bwyllgor

2.0 Cefndir

2.1 Yn dilyn cyhoeddi Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol Llywodraeth Cymru (Chwefror 2014), cyflwynwyd cynllun busnes i'r Cyd-bwyllgor yn manylu ar yr elfennau ychwanegol sy'n rhan o'r Model Cenedlaethol nad yw staff craidd GwE yn ymwneud â nhw ar hyn o bryd. Cytunodd y Cyd-bwyllgor ar y cynllun busnes hwn (15 Gorffennaf 2015).

Roedd y rhain yn cynnwys:

- a) Cyngor a Chymorth Llywodraethwyr
- b) Cyfnod Sylfaen
- c) Cynnig Llwybrau Dysgu 14 i 19
- d) Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a Grant y Gymraeg mewn Addysg
- e) Cydlynu'r Strategaeth TGCh yn rhanbarthol
- f) Cymorth AD arbenigol

2.2 Cytunwyd y byddai'r Awdurdodau Lleol yn parhau yn gyfrifol am gynllunio a chyflawni'r elfennau yma, gyda'r Rhwydweithiau Rhanbarthol presennol yn parhau i weithio ar y cyd ar arwain yn rhanbarthol.

2.3 Cedwir £463,004 (11.5% o Gyllideb Graidd £4.186m GwE) gan yr Awdurdodau Lleol i gyflawni elfennau a), e) ac f) uchod trwy gyfrwng y Rhwydweithiau Rhanbarthol.

Ariennir y gweddill, sef b), c), a d) uchod ynghyd ag amrywiaeth o swyddogaethau gwella ysgol eraill, gan elfen anddirprwyedig y Grant Gwella Addysg, cyfanswm o £5.48m. Mae'r cyllid hwn wedi'i ddosbarthu fel a ganlyn:

Rhwydweithiau Rhanbarthol : £4.6m

GwE : £860k

Felly, mae'r dyraniad cyllid gan gynnwys swyddogaethau'r Model Cenedlaethol a GGA anddirprwyedig, fel a ganlyn:

	Model Cenedlaethol	GGA anddirprwyedig	CYFANSWM
GwE	£3.69m	£0.8m	£4.49m
Rhwydweithiau Rhanbarthol	£0.46m	£4.68m	£5.14m
	£4.156m	£5.486m	£9.64m

3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Mae'r rhwydweithiau llawn fel a ganlyn (mae'r strwythur wedi'i gynnwys yn atodiad 1):

3.1.1 Rhwydwaith Gwella Ysgolion

Mae'r rhwydwaith hwn yn monitro ac yn herio effeithiolrwydd GwE a'r rhwydweithiau isod. Mae'n edrych ar bolisiâu ac arferion ac yn cytuno ar flaenoriaethau er mwyn bodloni gofynion codi safonau a gwella perfformiad ysgol ar gyfer disgyblion ym mhob categori.

Cyfarwyddwr (sy'n) Noddi / Cadeirydd: Delyth Molyneux (Ynys Môn)

Aelodaeth: Uwch Swyddog o bob ALL; Uwch Ymgynghorwyr Her GwE

- **Rhwydwaith 14-19** - bydd y rhwydwaith hwn yn darparu trosolwg o'r cynnig 14-19 rhanbarthol, gan gynnwys dyrannu adnoddau ar gyfer rhaglenni yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys: cefnogaeth i gynllunio sut i ddefnyddio'r grantiau; sicrhau bod ysgolion a darpariaeth y darparwr yn cyflawni'r effaith ddisgwyliedig sy'n rhan hanfodol o'r grantiau yma; gweithio gydag awdurdodau lleol i gynnig trosolwg strategol er mwyn cefnogi a herio pob darparwr; cynnwys colegau Addysg Bellach a darparwyr hyfforddiant preifat er sicrhau cydraddoldeb o ran mynediad i'r cyfleoedd datblygu; gweinyddu'r grantiau perthnasol a chydlynu a chefnogi ceisiadau ar gyfer grantiau sydd ar y gweill.

Cyfarwyddwr (sy'n) Noddi: Karen Evans (Sir Ddinbych)

Cadeirydd: John Gambles (Sir Ddinbych)

Aelodaeth: Cynrychiolwyr LAN, cynrychiolydd o GwE

- **Rhwydwaith Cyfnod Sylfaen** - yn y Rhwydwaith hwn daw uwch swyddogion y Cyfnod Sylfaen ynghyd i gynnig trosolwg strategol o ddatblygiadau o fewn y Cyfnod Sylfaen, yn cynnwys lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir. Mae'n darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad yn y maes allweddol hwn, cefnogi perthnasau gwaith da rhwng Awdurdodau Lleol unigol a GwE a gall fod yn hwylusydd i gefnogi trosglwyddo'r Cyfnod Sylfaen i'r Gwasanaeth Rhanbarthol (yn unol â'r Model Cenedlaethol), pan fydd y Cyfarwyddwyr yn ystyried hyn yn briodol. Gall y Rhwydwaith hefyd ddatblygu rhwydweithiau arfer dda a hyfforddiant ar y cyd ar draws y rhanbarth, yn enwedig yn sgil newidiadau i strwythur grant y Cyfnod Sylfaen ac addasiadau diweddar i strwythur y cwricwlwm, a'r newidiadau disgwylidig hynny o ganlyniad i Archwiliad y Cyfnod Sylfaen ac Adroddiad Donaldson.

Cyfarwyddwr (sy'n) Noddi: John Davies (Wrecsam)

Cadeirydd: Claire Homard (Sir Y Fflint)

Aelodaeth: Uwch Swyddogion o bob ALL gyda chyfrifoldeb am y Cyfnod Sylfaen, cynrychiolydd o GwE.

- **Rhwydwaith TGCh a Data** – mae'r Rhwydwaith hwn yn goruchwyllo creu platfformau meddalwedd cyffredin a chronfeydd data ar gyfer y gwasanaeth addysg yn y rhanbarth gyda golwg ar gyfoethogi a chynnal gweithio ar y cyd.

Cyfarwyddwr (sy'n) Noddi: John Davies (Wrecsam)

Cadeirydd: Simon Billington (Wrecsam)

Aelodaeth: Swyddogion o bob ALL, Rheolwr Gwybodaeth GwE

Rhwydwaith Cymorth Llywodraethwyr

Mae'r rhwydwaith hwn yn cyfarfod o leiaf unwaith y tymor i rannu arfer orau. Mae'n cydlynu ac yn cyd-gyflawni rhaglen hyfforddiant ranbarthol statudol Llywodraethwyr Cymru; cynnig arweiniad a chymorth ar gyfer cynhadledd flynyddol i Lywodraethwyr sy'n gydnaws â blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol; ar y cyd â Cynnal, mae wedi datblygu pecyn cymorth e-ddysgu i Lywodraethwyr. Mae'r pecyn cymorth hwn bellach wedi'i gyflwyno i gonsortia eraill ac mae'r grŵp yn parhau i arwain ar ddatblygu hwn.

Cyfarwyddwr (sy'n) Noddi: John Davies (Wrecsam)

Cadeirydd: Ray Wells, Swyddog Datblygu Rhanbarthol, Llywodraethwyr Cymru

Aelodaeth: Swyddog Cymorth Llywodraethwyr o bob Awdurdod Lleol a cynrychiolydd o GwE

3.1.2 Rhwydwaith Cyllid ac Adnoddau

Mae'r rhwydwaith hwn yn rhoi sylw i faterion yn ymwneud â Grantiau rhanbarthol, cyllid ysgol, darparu lleoedd, rhaglenni cyfalaf ac ati yng nghyd-destun datblygu trefniadau gweithio ar y cyd, cysondeb o ran polisiâu ac arfer a chomisiynu cytundebau cost ar y cyd. Yn y dyfodol, bydd hefyd yn edrych ar feysydd eraill ble gall y chwe ALL gydweithio.

Cyfarwyddwr (sy'n) Noddi / Cadeirydd: John Davies (Wrecsam)

Aelodaeth: Swyddog Cyllid o bob ALL; Rheolwr Busnes a Chyllid GwE

Rhwydwaith Adnoddau Dynol

Mae'r rhwydwaith hwn yn hyrwyddo mwy o gydweithio i ddatblygu gwasanaethau AD sy'n sicrhau cyngor a chymorth o safon uchel yn gyson i arweinwyr ysgolion, gan arwain at well capasiti a datblygu system ysgol sy'n hunan-wella (gan gyfrannu at Amcan Strategol 4 Cymwys am Oes) ar hyd a lled y rhanbarth. Yn allweddol i hyn y mae datblygu a hybu gweithdrefnau model rhanbarthol i reoli presenoldeb staff, rheoli perfformiad a medrusrwydd a sicrhau cysondeb o ran cyngor ac arfer.

Cyfarwyddwr (sy'n) Noddi: John Davies (Wrecsam)

Cadeirydd: Julie Worrall (Sir Ddinbych)

Aelodaeth: Rheolwyr AD/ Partneriaid Busnes o bob ALL

3.1.3 Rhwydwaith Cyfrwng Cymraeg a Adeiladu Cynhwysedd - mae'r rhwydwaith hwn yn hybu mwy o gydweithio a rhannu arbenigedd ym maes addysg cyfrwng Cymraeg er bodloni anghenion amrywiol y rhanbarth. Mae'n ceisio gwella cydraddoldeb o ran darpariaeth a chysondeb a datblygu polisïau ac arferion i rannu arbenigedd mewn meysydd gweithgarwch eraill.

Cyfarwyddwr (sy'n) Noddi: Arwyn Thomas (Gwynedd)

Cadeirydd: Garem Jackson (Gwynedd), ar ran Arwyn Thomas

Aelodaeth: Swyddogion o bob ALL, cynrychiolydd o GwE

3.1.4 Rhwydwaith Lles a Phartneriaethau – mae'r Rhwydwaith hwn yn rhoi sylw i faterion yn ymwneud â galluogi disgyblion i gymryd rhan yn llawn a bod darpariaeth y gwasanaeth addysg yn deg er gwella safonau. Mae'n cynnwys arbenigwyr o bob awdurdod sydd wedi'u hadnabod yn y meysydd gweithgarwch hyn.

Cyfarwyddwr (sy'n) Noddi / Cadeirydd: Richard Ellis Owen (Conwy)

Aelodaeth: Swyddogion Ymgynnwys a Swyddogion Ymgynnwys Cymdeithasol o bob ALL, cynrychiolydd o GwE

3.2 Adrodd – cynigir y broses adrodd a ganlyn:

- Mae pob rhwydwaith yn adrodd i Fwrdd Rheoli GwE
- Cofnodion y cyfarfodydd i'w rhannu â Bwrdd Rheoli GwE
- Aelodau'r Cyd-bwyllgor i gael adroddiad cynnydd gan un o'r rhwydweithiau yn y cyfarfod tymhorol. Cynigir bod yr adroddiad cyntaf yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor a bydd yn adroddiad gan y Rhwydwaith Cyfrwng Cymraeg a Adeiladu Cynhwysedd.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor:

4.1.1 Nodi cynnwys yr adroddiad

4.1.2 Cytuno ar y broses adrodd arfaethedig

5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn codi o'r adroddiad hwn

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn

8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Mae Bwrdd Rheoli GwE wedi cytuno ar y strwythur hwn

9.0 Atodiadau

9.1 Strwythur Rhwydweithiau

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL


Swyddog Monitro:

Rhoddi'r unrhyw sylwadau yn y cyfarfod.

Swyddog Cyllid Statudol:

Rwyf wedi derbyn sicrwydd fod unrhyw oblygiadau ariannol perthnasol i'w ariannu o adnoddau presennol GwE a/neu grantiau penodol.

Atodiad 1: Strwythur Rhwydweithiau





ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

12 TACHWEDD 2015

Adroddiad gan: Reolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Strwythur Staffio GwE – Gwneud penderfyniadau

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

- 1.1 Adrodd ar y broses bresennol o wneud penderfyniadau ar strwythur staffio GwE, y weithdrefn o fewn awdurdodau lleol a'r dirprwyo arfaethedig o ran penderfyniadau

2.0 Cefndir

- 2.1 Mae Atodlen 2 y Cytundeb Rhyng-Awdurdod presennol (18/02/13) yn datgan bod y Cyd-bwyllgor i gymeradwyo'r strwythur staffio. O ganlyniad, mae rhaid cyflwyno unrhyw swyddi newydd i'r Cyd-bwyllgor ac i'r Cyd-bwyllgor gytuno arnynt.
- 2.2 Gan y cynhelir cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor unwaith y tymor yn unig, gall y broses achosi oedi yn y broses benodi.

3.0 Materion i'w hystyried

- 3.1 O fewn awdurdodau lleol, y Pennaeth Adran/Cyfarwyddwr perthnasol sy'n penderfynu ar unrhyw newidiadau i strwythurau staffio, mewn ymgynghoriad â'r Penaethiaid Cyllid ac Adnoddau Dynol.
- 3.2 Rhaid i'r aelod cabinet perthnasol, pwyllgor perthnasol neu gabinet roi sylw i'r materion a nodir isod:
-

- Penodi Pennaeth Adran newydd neu Gyfarwyddwr Corfforaethol;
- Pob cais am arian newydd;
- Pob newid i'r strwythur sy'n ymwneud â symud mwy na £200,000 rhwng penawdau cyllid;
- Materion sy'n debyg o gael effaith ar berfformiad y gwasanaeth.

3.3 Cynigir bod y Cyd-bwyllgor yn dirprwyo gwneud penderfyniadau i Reolwr Gyfarwyddwr GwE yn unol â phwerau gwneud penderfyniadau Cyfarwyddwyr/Penaethiaid Adran yr awdurdod lletyol (mae'r weithdrefn arfaethedig wedi'i chynnwys fel atodiad 1).

3.4 Cynigir bod Rheolwr Gyfarwyddwr GwE yn adrodd am y strwythur yng Nghynllun Busnes GwE ac yn Adroddiad Blyneddol GwE.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor:

4.1.1 Nodi cynnwys yr adroddiad

4.1.2 Cytuno i ddirprwyo'r cyfrifoldeb o wneud newidiadau i strwythur GwE i Reolwr Gyfarwyddwr GwE (yn unol â phrosesau'r ALI lletyol, ac sydd wedi'u cynnwys fel atodiad 1).

5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn codi o'r adroddiad hwn

6.0 Goblygiadau o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn

8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Mae Bwrdd Rheoli GwE wedi cytuno ar y cynnig

9.0 Atodiadau

9.1 Gweithdrefn ar gyfer newid y strwythur staffio o fewn yr ALI lletyol

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Mae'r drefn ddirprwyo sydd yn cael ei chynnig yn ymddangos yn briodol gyda darpariaeth addas ar gyfer rheoli'r broses.

Swyddog Cyllid Statudol:

Mae argymhelliad yr adroddiad i ddirprwyo'r cyfrifoldeb o wneud diwygiadau i strwythur GwE i'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn ymddangos yn rhesymol ac mae'n mabwysiadu prosesau a rheolaethau presennol a ddefnyddir o fewn yr awdurdod lleol lletyol. Er eglurder, nodaf fod y 'Canllawiau' ynghlwm i'r adroddiad yn eglur fod rhaid mynd i'r Cydbwyllgor am benderfyniad pe bai'r materion staffio yn ymrwmo cyllideb uwchben adnoddau cyfredol GwE (arian newydd i greu neu uwchraddio swydd).

Atodiad 1:

FFURFLEN NEWIDIADAU I'R SEFYDLIAD STAFFIO

AWDUR:	
DYDDIAD Y FFURFLEN:	
ADRAN:	
GWASANAETH:	
SWYDD(I) SYDD I NEWID:	
DYDDIAD GWEITHREDU:	


1.	Disgrifiad o'r newidiadau a wneir (Rhaid atodi adroddiad neu siart strwythur a swydd ddisgrifiad ac ymgynghori hefo'r Ymgynghorydd Adnoddau Dynol)
2.	Rheswm dros y newid (sef yr achos busnes). (Rhaid ymgynghori hefo'r Ymgynghorydd Adnoddau Dynol)
3.	Manylion ariannol (Rhaid ymgynghori hefo'r Rheolwr Cyllid)

3 a	Cost y newidiadau (neu arbedion) ar uchafswm y graddfeydd perthnasol.				
3 b	Ffynhonnell gyllido (noder y côd ariannol a'r union symiau sydd i'w symud)				
	<table border="1"><thead><tr><th>Côd Ariannol</th><th>£</th></tr></thead><tbody><tr><td></td><td></td></tr></tbody></table>	Côd Ariannol	£		
Côd Ariannol	£				
4.	Rhaid cael cymeradwyaeth yr isod cyn y gellir gweithredu'r newidiadau.				
		Dyddiad cymeradwyo			
	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE				
	Pennaeth Cyllid				
	Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol (AD)				

TREFN ARFAETHEDIG AR GYFER NEWID SEFYDLIAD STAFFIO

PA– Pennaeth Adran

CYF – Cyfarwyddwr



Canllawiau ar ymdrin â materion staffio

Pa faterion sydd rhaid mynd i'r Bwrdd Rheoli/Cyd-Bwyllgor

Rhaid i'r materion hyn fynd i'r Bwrdd Rheoli/Cyd-Bwyllgor;

- Cyd-Bwyllgor: Penodi aelod newydd i'r Uwch Dim Arwain Bwrdd Rheoli: dethol y rhestr fer

I osgoi amheuaeth bydd proses penodi Rheolwr Gyfarwyddwr yn cael ei neilltuo i'r Cyd-Bwyllgor

- Rhaid i'r materion hyn fynd i'r Cyd-Bwyllgor:
- Pob cais am arian newydd i greu neu uwchraddio swydd
- Pob newid i'r strwythur sy'n golygu gwyro mwy na £200,000 rhwng penawdau cyllid

Pa bryd byddai'n briodol adrodd i'r Cyd-Bwyllgor beth bynnag?

Os oes amheuaeth fod y newidiadau arfaethedig yn debyg o ddenu sylw cyhoeddus neu amharu ar gysylltiadau gweithiwr/cyflogwr e.e. newidiadau sylweddol i amodau a thelerau gwaith grŵp o weithwyr, sefyllfa all arwain at ddiswyddo gorfodol oherwydd gormodedd, ayb. Dylid ymgynghori hefo Pennaeth Cefnogaeth Corfforaethol (Adnoddau Dynol) yr Awdurdod Lletyol â Chadeirydd y Cyd-Bwyllgor er mwyn penderfynu p'run ai i gyfeirio mater i'r Cyd-Bwyllgor ai peidio.

Pa bryd dylid ymgynghori hefo Cadeirydd y Cyd-Bwyllgor?

Rhaid ymgynghori hefo Cadeirydd y Cyd-Bwyllgor 1:

- Pan mae amheuaeth a ddylid cyflwyno adroddiad i'r Cyd-Bwyllgor ai peidio (gweler uchod)
- Pan mae adroddiad ar faterion staffio yn mynd i'r Cyd-Bwyllgor (gweler uchod)

Ar gyfer pa newidiadau sydd angen cyflwyno ffurflen “Newidiadau i’r Sefydliad Staffio” ar eu cyfer?

Rhaid llenwi ffurflen ar gyfer y newidiadau hyn;

- Pob newid parhaol (h.y. sy’n parhau dros 12 mis) i’r strwythur staffio
- Pob newid parhaol i raddfa swydd
- Pob newid dros dro i’r strwythur staffio sydd wedi bod mewn grym ers 12 mis

Nid oes rhaid llenwi ffurflen ar gyfer y newidiadau hyn;

- Penodiadau dros dro (llai na 12 mis)
- Secondiadau dros dro
- Caniatáu hycynnau ychwanegol o fewn graddfa
- Caniatáu honorariwm yn unol â’r polisi honorariwm

Beth sy’n digwydd i geisiadau personol ail-raddio?

Dylid cyfeirio pob cais o’r fath at Pennaeth Cefnogaeth Corfforaethol yr Awdurdod Lletyol a fydd yn ei brosesu yn unol a’r Drefn ar gyfer ymdrin a Ceisiadau Personol am Ail-Raddio (Adran 3.4 o’r Amodau Gwaith).